FINANCIAL
CONDUCT
AUTHORITY

# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2018/19

(ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019)

HC 2415



# Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

## Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2018/19

(Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019)

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol â pharagraffau 11(4) ac 15(3) yn Atodlen 1ZA Deddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol 2000 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol 2012 a Deddf Gwasanaethau Ariannol (Diwygio Bancio) 2013

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin ei fod i'w argraffu ar 9 Gorffennaf 2019

HC 2415

© Hawlfraint yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol 2019

Gall testun y ddogfen hon (ac eithrio, lle bo'n bresennol, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adran neu asiantaeth) gael ei atgynhyrchu am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a nodi teitl y ddogfen. Pan fod deunydd â hawlfraint gan drydydd parti wedi'i nodi, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint honno.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn:

Financial Conduct Authority
12 Endeavour Square
London
E20 1JN

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

ISBN 978-1-5286-1138-1

CCS 0319872112 07/19

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys 75% o ffibr wedi'i ailgylchu o leiaf

Argraffwyd yn y DU gan Grŵp APS ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** 6

**Datganiad gan y Prif Weithredwr** 8

**Uchafbwyntiau 2018/19** 10

**Adroddiad strategol**

**1.** Cyflwyniad 12

**2.** Gadael yr UE 13

**3.** Ein blaenoriaethau traws sector 14
- Diwylliant a threfniadau llywodraethu cwmnïau 14
- Troseddau ariannol (twyll a sgamiau) ac atal gwyngalchu arian (AML) 17
- Diogelu data, cadernid a rhoi gwaith allan ar gontract 20
- Arloesi, data mawr, technoleg a chystadleuaeth 22
- Trin cwsmeriaid presennol 27
- Cynilion tymor hir, pensiynau a gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau 32
- Credyd cost uchel 34

**4.** Ein blaenoriaethau sector 37
- Marchnadoedd ariannol cyfanwerthu 37
- Rheoli buddsoddiadau 42
- Pensiynau ac incwm ymddeoliad 46
- Bancio adwerthu 49
- Benthyca adwerthu 53
- Diogelwch ac yswiriant cyffredinol 58
- Buddsoddiadau adwerthu 62

**5.** Materion perimedr 68

**6.** Ein dulliau gweithredu 71

**7.** Gweithio gyda'n partneriaid 76

**8.** Trosolwg gweithredol o'r grŵp 82

**Datganiadau ariannol a llywodraethu corfforaethol**

**9.** Adroddiad y cyfarwyddwyr a Datganiad llywodraethu corfforaethol 93

**10.** Datganiadau ariannol 112

**Atodiadau**

**1** Defnyddio Adroddiadau Unigolion Medrus 146

**2** Adolygiad Blynyddol y Pwyllgor Penderfyniadau Rheoleiddio 148

**3** Adroddiad cynaliadwyedd 155



# Rhagair y Cadeirydd
Charles Randell

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ymdrin â chweched flwyddyn yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) a fy mlwyddyn gyntaf i fel Cadeirydd. Mae'n gyfle i fyfyrio ar berfformiad yr FCA yn ei bennod gyntaf ac edrych ymlaen at heriau'r dyfodol.

## Edrych yn ôl ar bennod gyntaf yr Awdurdod

Dechreuodd yr FCA yn 2013, pan gafodd dyletswyddau darbodus ac ymddygiad yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol eu rhannu rhwng yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Roedd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ddwy dasg fawr o hynny ymlaen. Y gyntaf oedd mynd i'r afael â'r mynydd o broblemau ymddygiad mewn cwmnïau mawr oedd wedi codi yn sgil yr argyfwng ariannol. Yr ail oedd ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio a goruchwylio tua 34,000 o gwmnïau credyd a mynd i'r afael â niwed sylweddol i ddefnyddwyr mewn rhannau o'r sector hwn.

Gall staff yr FCA fod yn falch o'r hyn maen nhw wedi'i gyflawni yn y bennod gyntaf hon. Maen nhw'n cynnwys y rhaglen Yswiriant Gwarchod Taliadau (PPI), achosion gorfodi sydd wedi atafaelu tua £3 biliwn o ddirwyon ac iawndal, ac ymyriadau blaengar sydd wedi trawsnewid y sector credyd cost uchel, gan gynnwys rhoi terfyn ar ffioedd benthyciadau diwrnod cyflog. Hefyd, mae ein staff wedi goruchwylio'r gwaith o gyflwyno Cyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr mewn cwmnïau mawr, gan esgor ar newid sylfaenol yn atebolrwydd uwch reolwyr yng nghyswllt methiannau eu cwmnïau o ran ymddygiad.

## Yr FCA heddiw

Dechreuodd ail bennod yr FCA, sef y bennod hon, pan gyhoeddwyd ein Cenhadaeth yn 2017, o dan arweinyddiaeth Andrew Bailey. Mae hyn yn gwneud niwed i ddefnyddwyr yn egwyddor arweiniol clir pan fyddwn yn blaenoriaethu a dyrannu ein hadnoddau. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi cyfres o ddogfennau yn esbonio sut byddwn yn mynd ati i gyflawni ein gwaith yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid ydym wedi cwblhau'r broses o roi'r rhain ar waith yn llwyr, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu adnabod niwed difrifol, ac ymateb iddo cyn gynted â phosibl ac mewn modd mor effeithiol â phosibl.

Wrth i ni drawsnewid yr FCA, rydym yn cydnabod y cwestiynau difrifol mae defnyddwyr a busnesau wedi'u gofyn ynglŷn ag agweddau ar ein perfformiad yn y gorffennol. Mae pwysau'r tasgau ym mhennod gyntaf yr FCA a'r pwysau maen nhw'n ei roi ar ein hadnoddau wedi arwain at ganolbwyntio ar weithgareddau rheoledig mewn cwmnïau mawr a defnyddio dull goruchwylio mwy ymatebol yng nghyswllt cwmnïau llai a gweithgareddau ar ein ffin reoleiddiol.

## Adolygu ein camau gweithredu yn y gorffennol

Mae'n rhaid i ni fod yn dryloyw o ran yr hyn rydym yn gallu ei gyflawni a'r hyn na allwn ei gyflawni o fewn ein cylch gwaith presennol, yn ogystal â gweld a fydden ni wedi gallu gwneud mwy. Felly rydym yn gwneud dau beth. Yn gyntaf, cyhoeddi adroddiad ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol hwn er mwyn esbonio perimedr ein rheoliad, er mwyn meithrin dealltwriaeth a thrafodaeth ynghylch terfynau ein cylch gwaith. Yn ail,

comisiynu adolygiad annibynnol o sut rydym yn goruchwylio London Capital & Finance, cwmni awdurdodedig wnaeth gyflwyno bondiau bach ac y mae ei fethiant wedi cael effaith ddofn ar ei fuddsoddwyr.

Rydym hefyd yn bwrw ymlaen ag adolygiadau annibynnol o ddau achos sy'n mynd yn ôl i'r cyfnod cyn bodolaeth yr FCA: goruchwyliaeth yr FSA o Gronfa Cyfres 1 Connaught Income, cronfa buddsoddiadau adwerthu a aeth i'r wal yn 2012; a'r ymyriadau goruchwylio a ddechreuwyd gan yr FSA ar gyfer Cynnyrch Rhagfantoli Cyfraddau Llog, a werthwyd i fusnesau bach gan lawer o fanciau ac a arweiniodd at raglen iawndal fawr.

## Gorffen trawsnewid yr FCA

Mae newid yn anochel i ni i gyd, felly mae'n rhaid i'r FCA newid hefyd.

Mae newidiadau technolegol yn golygu bod risgiau mawr newydd yn wynebu ein hamcanion ac yn gallu datblygu yn gyflymach nag erioed. Mae'r risgiau hyn yn dod o'r tu hwnt i gwmnïau awdurdodedig mawr a chynnyrch rheoledig, fel pan mae twyllwyr yn defnyddio'r rhyngrwyd i dargedu dioddefwyr. Mae'n rhaid i ni barhau i ddatblygu ein defnydd ein hunain o dechnoleg yn ogystal â'n gallu o ran gorfodi a goruchwylio er mwyn ymateb yn gyflym lle bo ein cylch gwaith yn caniatáu hynny.

Mae newid byd-eang yn cynnwys y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Rydym wedi dechrau'r drafodaeth am ddyfodol rheoleiddio yn y DU a dyna fydd blaenoriaeth yr FCA eleni. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Trysorlys fel rhan o'i adolygiad o faterion cysylltiedig, gan gynnwys y system taliadau a chydlynu rheoleiddiol. Mae un cwestiwn allweddol yn ymwneud â'r rhyddid i ganolbwyntio mwy ar egwyddorion a chanlyniadau na rheolau manwl – mae'r ddadl ynghylch dyletswydd gofal yn rhan o hyn. Ond mae'r un mor bwysig trafod a ddylai rheoliadau'r DU ganiatáu i ddefnyddwyr cyffredin fod yn agored i gynnyrch risg uchel sy'n aml heb ei reoleiddio. Mae'n amlwg nad yw rhybuddion risg yn ddigon i ddarparu lefel ddigonol o ddiogelwch ar gyfer rhai o'r cynhyrchion hyn.

Mae ein rhanddeiliaid yn disgwyl i ni wneud mwy i amddiffyn ein defnyddwyr mewn byd ansicr sy'n newid yn gyflym, yn ogystal â gwneud hynny'n gyflymach.

Felly dydyn ni ddim yn aros am ganlyniad yr adolygiadau o Gynnyrch Rhagfantoli Cyfraddau Llog, Connaught a London Capital and Finance, wrth i ni barhau i roi ein Cenhadaeth ar waith a thrawsnewid sut rydym yn gweithredu. Rydym eisoes yn rhoi dull newydd o awdurdodi a goruchwylio cwmnïau ar waith er mwyn sicrhau ein bod yn well am adnabod ac atal cwmnïau na ddylent fod wedi'u hawdurdodi ac yn gallu goruchwylio cwmnïau bach mewn modd mwy rhagweithiol. Rydym yn ymestyn y Gyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr i gwmnïau llai, mewn modd cymesur. Rydym yn gweithredu'n gyflym yn erbyn cwmnïau â modelau busnes niweidiol: drwy wahardd gwerthu opsiynau deuaidd i gwsmeriaid adwerthu, rhoi cyfyngiad llym ar werthu Contractau ar gyfer Gwahaniaeth a phennu diwygiadau i'r farchnad benthyca cymar i gymar er mwyn amddiffyn defnyddwyr yn well.

Yn yr ail bennod, rydym yn canolbwyntio ar drawsnewid ein gallu, ein defnydd o dechnoleg a'n fframwaith rheoleiddio er mwyn ein rhoi yn y sefyllfa orau bosibl i gyflawni ein hamcanion.

## Sylwadau clo

Hoffwn ddiolch i'r holl ddefnyddwyr, cynrychiolwyr defnyddwyr, sefydliadau gwirfoddol a chwmnïau sydd wedi rhannu safbwyntiau defnyddiol ar ein gwaith, mewn cyfarfodydd yn Stratford, Caeredin a ledled y DU yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Hoffwn ddiolch hefyd i holl staff yr FCA ac aelodau'r Bwrdd sydd wedi fy helpu i yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd. Hoffwn dalu teyrnged i Brad Fried, a adawodd y Bwrdd ddiwedd mis Mehefin 2018 i fod yn gadeirydd y llys gyda Banc Lloegr, ac i Ruth Kelly a Jane Platt, a wnaeth ymddeol ar 31 Mawrth 2019 ar ôl cwblhau eu tymhorau ar y Bwrdd. Roeddwn yn falch iawn o groesawu Richard Lloyd, a ymunodd â'r bwrdd ar 1 Ebrill 2019, gan gynnig ei brofiad a'i dealltwriaeth o ddefnyddwyr i gefnogi a herio ein gwaith.



**Charles Randell**
Cadeirydd
Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol



# Datganiad gan y Prif Weithredwr
Andrew Bailey

Croeso i Adroddiad Blynyddol 2018/19, sy'n esbonio beth rydym wedi'i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau ein Cynllun Busnes.

Yn dilyn ymrwymiad y llynedd, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys mesuriadau ychwanegol a mwy ystyrlon o'r gwerth i'r cyhoedd mae ein gwaith yn ei ddarparu. Rwyf yn gobeithio ei fod yn cynnig darlun mwy cyflawn o gwmpas ac effaith ein rheoliad.

## Gadael yr UE

Mae ein paratoadau ar gyfer Brexit wedi bod yn faes adnodd-ddwys o'n gwaith eleni, gan gynnwys cynllunio ar gyfer pob sefyllfa. Ein blaenoriaeth yw sicrhau, beth bynnag fo'r canlyniad yn y pen draw, bod defnyddwyr ac uniondeb marchnadoedd y DU yn parhau i gael eu diogelu i'r graddau mwyaf posibl.

Fel rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer gadael heb gytundeb, buom yn gweithio gyda Thrysorlys EM a Banc Lloegr i ddatblygu'r Gyfundrefn Caniatâd Dros Dro ar gyfer cwmnïau o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n cynnal busnes yn y DU. Ers i'r cyfnod ymgeisio agor ym mis Ionawr, mae dros 1,000 o gwmnïau unigol rheoledig wedi rhoi gwybod i ni eu bod eisiau gwneud cais, yn ogystal â thua 700 o reolwyr cronfeydd. Rydym wedi ymestyn y ffenestr hysbysu tan 31 Hydref.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi paratoi i ymgymryd â chyfrifoldebau newydd ar ôl Brexit mewn perthynas ag adrodd ar drafodion, ac wedi cwblhau ein paratoadau i fod yn rheoleiddiwr cronfeydd masnach ac Asiantaethau Statws Credyd yn y DU.

Rydym hefyd wedi cydweithio'n fwy dwys â'n swyddogion cyfatebol yn yr UE, gan ddatblygu arweinyddiaeth ryngwladol o ran arloesi, technoleg a safonau. Fel rhan o hyn, rydym wedi rhoi cytundebau cydweithio newydd, neu wedi'u diweddaru, ar waith i'n helpu ni i sicrhau ein bod yn parhau i gydweithio â'n swyddogion cyfatebol yn yr UE a ledled y byd, hyd yn oed mewn sefyllfa 'heb gytundeb'.

Mae ein paratoadau ar gyfer Brexit wedi cyd-daro â blwyddyn eithriadol o brysur.

## Ysgwyddo'r cyfrifoldeb o reoli hawliadau o dan ein rheoliadau

Fe wnaethom ymgymryd â rhaglen helaeth o waith gyda Chwmnïau Rheoli Hawliadau er mwyn eu paratoi i symud ymlaen o weithio dan reoliadau'r Rheolydd Rheoli Hawliadau i weithio dan ein rheoliadau ni. Cafodd tua 36 miliwn o bobl oddeutu 2.7 biliwn o alwadau, negeseuon testun neu negeseuon e-bost gan Gwmnïau Rheoli Hawliadau yn ystod y flwyddyn flaenorol, felly bydd rheoleiddio'r gweithgarwch hwn yn cael effaith sylweddol arnom. Rhwng dechrau mis Ionawr a diwedd mis Mawrth, fe wnaeth 953 o'r 1,200 o Gwmnïau Rheoli Hawliadau yn y farchnad anfon cais atom am ganiatâd dros dro i weithredu, tra bo'r broses awdurdodi lawn yn mynd rhagddi. Ni all y rheini nad ydynt wedi anfon cais gynnig y gwasanaethau hyn mwyach.

## Lleihau niwed i ddefnyddwyr

Mae dros 3 miliwn o bobl yn y DU yn defnyddio credyd cost uchel, ac mae llawer ohonynt ymhlith y bobl fwyaf agored i niwed. Eleni, fe wnaethom ddarparu ystod eang o gamau unioni i atal ffioedd anghymesur o uchel. Roedd hyn yn cynnwys rhoi terfyn ar brisiau a ffioedd yn y farchnad rhentu-i-brynu, gan sicrhau bod gan ddefnyddwyr fwy o eglurder a rheolaeth dros gredyd a gesglir gartref, credyd catalogau a chredyd cardiau siopa, ac atal cwmnïau Prynu Nawr Talu Wedyn rhag codi llog wedi'i ôl-ddyddio ar ddyledion sydd eisoes wedi'u talu.

Aethom hefyd i'r afael â ffioedd gorddrafft uchel, yn enwedig ar gyfer gorddrafft heb ei drefnu. Mae cwmnïau yn gwneud tua £2.4bn o refeniw yn sgil gorddrafft bob blwyddyn, ond dim ond 1.5% o gwsmeriaid sy'n talu 50% o ffioedd gorddrafft heb eu trefnu. Fe wnaethom ddatblygu a chyhoeddi newidiadau arfaethedig er mwyn darparu prisiau mwy syml a theg. Bydd y 26 miliwn o bobl sy'n defnyddio gorddrafft yn y DU yn elwa'n uniongyrchol o hyn, yn enwedig y 14 miliwn sy'n defnyddio gorddrafft heb ei drefnu.

## Adolygu ein rheolau er mwyn atal niwed

Yn anaml, gall ein rheoliadau ni olygu goblygiadau niweidiol i ddefnyddwyr. Mae ein rheolau benthyca cyfrifol wedi golygu bod 120,000 o gwsmeriaid morgais, drwy amryfusedd, yn sownd ar gyfraddau llog uwch, ac 20,000 o gwsmeriaid morgais yn sownd gyda rhoddwr benthyciadau anweithredol. Felly, ym mis Mawrth, fe wnaethom gyhoeddi cynigion i newid y rheolau hyn. Byddwn yn cyhoeddi'r rheolau terfynol yn nes ymlaen eleni, a fydd yn rhyddhau defnyddwyr i ddod o hyd i fargeinion gwell.

## Cynnal uniondeb mewn marchnadoedd cyfanwerthu

Mae marchnadoedd ariannol y DU yn ddeniadol am nifer o resymau, gan gynnwys y maes chwarae glân a gwastad maen nhw'n ei gynnig. Eleni rydym wedi cymryd camau i fynd i'r afael â risgiau yng nghyswllt camddefnyddio'r farchnad, gan gynnwys 484 o ymchwiliadau rhagarweiniol i'r farchnad a rhaglen o ymweliadau i wella prosesau monitro mewn marchnadoedd incwm sefydlog, nwyddau a deilliadau.

## Yr heriau sydd o'n blaenau

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd nifer o achosion sy'n dangos y risg mae ymddygiad annerbyniol, gan gynnwys sgamiau amlwg, yn ei pheri o ran diogelu defnyddwyr. Yn yr FCA, rydym yn trawsnewid ein hymateb i ymyrryd yn gyflymach, yn fwy uniongyrchol ac yn fwy llym er mwyn atal twyll a rhoi diwedd arno, a sicrhau bod y rheini sy'n gyfrifol yn wynebu'r canlyniadau. Mae technoleg yn galluogi troseddwyr i ddatblygu ffyrdd mwy a mwy soffistigedig o dargedu defnyddwyr. Y llynedd, fe wnaethom gyhoeddi 521 o rybuddion am gwmnïau heb eu hawdurdodi, o'i gymharu â 328 y flwyddyn flaenorol.

Mae'n rhaid i gadernid, systemau a mesurau rheoli'r cwmnïau eu hunain fod yn flaengar hefyd. Rydym wedi'i gwneud yn ofynnol bod 40% o'r cwmnïau noddi yn ein hadolygiadau goruchwylio yn gwella eu systemau a'u rheolaethau yn y farchnad er mwyn cadw'r safonau hyn yn uchel. Mae MiFID II wedi gweld cynnydd calonogol yn nifer y cwmnïau cyfanwerthu sy'n rhoi gwybod i ni am ymddygiad amheus. Mae nifer yr adroddiadau hyn eleni 18 gwaith yn uwch nag oeddent ym mlwyddyn gyntaf y gyfundrefn. Mae nifer yr achosion o chwythu'r chwiban ar gynnydd hefyd; rydym wedi asesu 1,750 o achosion unigol eleni.

Wrth i'n gweithgarwch gynyddu, rydym yn datblygu ein defnydd ein hunain o dechnegau dadansoddi data er mwyn nodi meysydd lle mae niwed yn dod i'r amlwg ac ymateb yn gyflymach.

Hoffwn gloi drwy ddiolch i fy holl gydweithwyr yn yr FCA am fod yn benderfynol ac am eu dyfalbarhad yn ystod y flwyddyn brysur hon, ac i Fwrdd yr FCA am eu harbenigedd a'u safbwyntiau gwerthfawr sy'n ein helpu i wneud penderfyniadau.



**Andrew Bailey**
Y Prif Weithredwr:
Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

# Uchafbwyntiau 2018/19

## Gwella diogelwch y rheini sy'n defnyddio credyd cost uchel

Fe roddom reolau newydd ar waith i roi terfyn ar ffioedd yng nghyswllt cynnyrch Rhentu i Brynu. Bydd y newidiadau hyn yn arbed hyd at £22.7m y flwyddyn i rai o'r defnyddwyr mwyaf agored i niwed.

## Atal pobl rhag cael eu twyllo gan sgamiau

Fe wnaeth pum gwaith yn fwy o bobl ymweld â'n safle ScamSmart yn sgil ein hymgyrch yn 2018 i rybuddio deiliaid pensiynau am sgamiau pensiwn. Fe wnaeth 173,000 o bobl – tua 3,145 y diwrnod – ymweld â'r safle.

## Paratoi i Adael yr UE

Rydym wedi bod yn paratoi ar gyfer pob sefyllfa er mwyn sicrhau cymaint o gysondeb â phosibl i gwmnïau, marchnadoedd a defnyddwyr.

Mae hyn wedi cynnwys:

- cynghori'r Llywodraeth ynghylch gwasanaethau ariannol, gan gynnwys mabwysiadu deddfwriaeth yr UE
- sicrhau bod gennym gyfundrefn gadarn pan fyddwn yn gadael
- sefydlu Cyfundrefn Caniatâd Dros Dro er mwyn sicrhau bod cwmnïau a chronfeydd sydd eisoes yn pasbortio i mewn i'r DU yn gallu parhau i wneud hynny
- gweithio gyda chwmnïau ar eu paratoadau i adael
- cytuno ar gytundebau cydweithio a'u diweddaru gyda'n swyddogion cyfatebol yn Ewrop ac yn rhyngwladol

## Gwneud gwasanaethau ariannol yn fwy atebol

Fe wnaethom ymestyn y Gyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr i'r 560 o yswirwyr. Erbyn diwedd 2019, bydd y Gyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr yn berthnasol i bron pob cwmni rydym yn ei reoleiddio, gan gynyddu atebolrwydd a gwneud yn siŵr bod staff cwmnïau yn deall eu cyfrifoldebau yn well.

## Goruchwylio cyrff proffesiynol

Fe wnaeth Swyddfa'r Corff Proffesiynol ar gyfer Goruchwylio Atal Gwyngalchu Arian, sy'n rhan o'r FCA, gwblhau ei hasesiad blwyddyn gyntaf o'r 22 o gyrff proffesiynol mae'n eu goruchwylio. Fe wnaeth ganfod bod y sector cyfrifyddu a rhai cyrff proffesiynol llai yn canolbwyntio ar gynrychioli aelodau yn hytrach na goruchwylio safonau'n gadarn.

## Awdurdodi cwmnïau i ymuno â'r farchnad

Rydym wedi gwella ein dulliau awdurdodi, gan ganolbwyntio ar y ceisiadau sy'n peri'r risg fwyaf a helpu cwmnïau i fodloni'r safonau gofynnol. Fe wnaethom benderfynu awdurdodi bron i 4,400 o geisiadau a chofrestru 953 o gwmnïau rheoli hawliadau ar gyfer Caniatâd Dros Dro – y rhan fwyaf o'r cwmnïau gweithredol yn y farchnad.

## Camau gorfodi

Rydym wedi cymryd camau gweithredu yn erbyn cwmnïau ac unigolion sy'n torri'r rheolau ac yn peidio â diogelu defnyddwyr.

Fe wnaethom gyflwyno dirwy o £32,817,800 i Santander am beidio â rheoli cyfrifon cwsmeriaid oedd wedi marw yn briodol a sicrhau bod arian yn cael ei drosglwyddo i fuddiolwyr. Mae'r rhaglen i drosglwyddo'r arian hwn bron â dod i ben, ac mae'n cynnwys bron i 40,500 o gwsmeriaid a dros £183m o asedau.

Fe wnaethom gyflwyno dirwy o £102,163,200 i Fanc Siartredig Santander am dorri amodau yng nghyswllt atal gwyngalchu arian. Hon oedd y ddirwy fwyaf ond un y gwnaethom ei chyflwyno am fethiannau rheoli cysylltiedig ag atal gwyngalchu arian.

**Mae'r Adroddiad Perfformiad Gorfodi Blynyddol 2018/19 cysylltiedig yn rhoi rhagor o fanylion am ein gwaith yn y maes hwn**

## Helpu defnyddwyr i weithredu yng nghyswllt PPI

Cyn 29 Awst 2019, sef y dyddiad cau ar gyfer hawliadau PPI, byddwn yn gweithio gyda chwmnïau i wneud yn siŵr eu bod yn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr wirio a oes ganddynt PPI a gwneud cwyn. Mae cwmnïau wedi gwella eu prosesau cwyno a darparu systemau gwirio, gwybodaeth a chymorth ar-lein i ddefnyddwyr agored i niwed. Mae ein hymgyrch wedi helpu miliynau o bobl i hawlio. Yn ystod y 10 mis ar ôl y lansiad, cafwyd 8.4m o ymholiadau gwirio PPI a 3.7m o gwynion. Mae ein hymgyrch wedi helpu mwy o bobl i gwyno'n uniongyrchol yn hytrach na defnyddio cwmnïau rheoli hawliadau, gan ganiatáu iddynt gadw'r holl arian sy'n cael ei ad-dalu iddynt.

## Hybu arloesedd ledled y byd

Fel rhan o grŵp rhyngwladol o reoleiddwyr ariannol, fe wnaethom helpu i lansio'r Rhwydwaith Arloesi Ariannol Byd-eang. Bydd hwn yn helpu cwmnïau arloesol i ddefnyddio systemau rheoleiddio gwahanol wledydd wrth iddynt ddatblygu syniadau lansio newydd.

## Gwella canlyniadau ar gyfer defnyddwyr yn y sector rheoli asedau

Rydym wedi rhoi pecyn eang o gamau unioni ar waith i fynd i'r afael a'r niwed rydym wedi'i ganfod yn y diwydiant rheoli asedau. Mae hyn yn cynnwys newidiadau sy'n golygu y gall rheolwyr cronfeydd ganolbwyntio ar eu dyletswyddau i'w buddsoddwyr.

## Cryfhau ein presenoldeb yn yr Alban

Rydym wedi ymrwymo i ehangu a chryfhau ein presenoldeb yng Nghaeredin, sef canolfan gwasanaethau ariannol fwyaf y DU y tu allan i Lundain. Yn ystod y 2 flynedd nesaf, bydd FCA Scotland yn dyblu yn ei faint wrth i ni ddatblygu swyddogaethau cryfach ym meysydd benthyciadau adwerthu, buddsoddi a chyfryngwyr, yn ogystal â'n gwaith achos gydag ymgynghorwyr ariannol, rheolwyr cyfoeth a sgamiau pensiwn. Byddwn hefyd yn defnyddio ein swydd newydd, Pennaeth yr Alban, i ehangu ein partneriaethau a'n rhwydweithiau yno.

## Symud i Stratford

Fe wnaethom symud 3,500 o weithwyr i'n swyddfa newydd yn Stratford yn ystod haf 2018. Mae ein hadeilad yn rhoi'r cyfle i ni ddod o hyd i ffyrdd newydd a mwy clyfar o weithio a sicrhau gwell gwerth am arian. Mae technoleg newydd yn cefnogi gwaith mwy cydweithredol a chydlynus, sy'n ein gwneud ni'n fwy effeithlon. Hefyd, mae'r adeilad wedi'n helpu ni i leihau'r adnoddau mae eu hangen arnom i'w redeg, fel dŵr a gwres, ac y mae eisoes ar y rhestr fer ar gyfer nifer o wobrau pensaernïol, hygyrchedd a chynaliadwyedd.

## Gweithredu yng nghyswllt ymddygiad gwrth-gystadleuol

Fe wnaethom gynnal archwiliad ffurfiol a chanfod bod 3 chwmni rheoli asedau wedi torri cyfraith cystadleuaeth, sef ein penderfyniad ffurfiol cyntaf gan ddefnyddio ein pwerau gorfodi yng nghyswllt cystadleuaeth.

# 1 Cyflwyniad

Mae ein hamcanion, a osodwyd gan y Senedd, yn sicrhau ein bod ni'n gweithredu er budd y cyhoedd. Mae Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 yn rhoi un amcan strategol i ni – sef sicrhau bod y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio'n gweithio'n dda. Mae'r Ddeddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol hefyd yn rhoi 3 nod gweithredol i ni er mwyn cyflawni hyn:

- sicrhau diogelwch priodol **i ddefnyddwyr**
- diogelu a gwella **uniondeb system ariannol y DU**
- **hybu cystadleuaeth effeithiol** er budd defnyddwyr

Rydym yn gyfrifol am reoleiddio ymddygiad tua 59,000 o gwmnïau gwasanaethau ariannol yn y DU a thua 150,000 o unigolion cymeradwy.

Rydym hefyd yn rheoleiddiwr darbodus ar gyfer tua 46,000 o gwmnïau. Rydym wedi pennu safonau manwl i'r 18,000 mwyaf o'r rhain eu bodloni, gan gynnwys gofynion yng nghyswllt lleiafswm adnoddau ariannol. Rhaid i hyd yn oed gwmnïau sydd heb isafswm gofynion ariannol sicrhau bod ganddynt adnoddau digonol, fel rhan o'n hamodau trothwy ar gyfer awdurdodi neu gofrestru.

## Ein gweithgareddau

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd rydym wedi canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys gadael yr UE, beth rydym yn ei reoleiddio a beth dydyn ni ddim yn ei reoleiddio, a blaenoriaethau sector a thraws sector.

Mae'n rhaid i gwmnïau ac unigolion sy'n cynnig gwasanaethau ariannol redeg eu busnesau er budd pennaf defnyddwyr a chynnal uniondeb y diwydiant gwasanaethau ariannol. Rydym yn gyfrifol am awdurdodi, goruchwylio a chymryd camau angenrheidiol yn erbyn cwmnïau ac unigolion sy'n cynnal gweithgareddau cysylltiedig â gwasanaethau ariannol.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw o ran sut rydym yn rheoleiddio ac yn gwneud ein penderfyniadau. Rydym hefyd wedi cyhoeddi ystod o ddogfennau sy'n esbonio ein dull ar gyfer pob agwedd ar ein gwaith rheoleiddio mewn rhagor o fanylder.

## Safbwyntiau'r sector

Rydym yn blaenoriaethu ac yn dadansoddi materion drwy rannu'r diwydiant gwasanaethau ariannol i 7 sector penodol. Ym mis Ionawr 2019, fe wnaethom gyhoeddi crynodeb o Safbwyntiau'r sector, sy'n amlinellu'r problemau a'r niwed posibl yn y sectorau hyn. Rydym yn ystyried canlyniadau mewn sectorau ariannol yn gyffredinol, gan nodi sut mae marchnadoedd yn perfformio ac yn arwain ein dull gweithredu. Rydym yn adrodd ar y penodau unigol hyn yn yr adroddiad hwn.

## Blaenoriaethau traws sector

Rydym hefyd yn mynd i'r afael â materion sy'n torri ar draws nifer o sectorau. Fel arfer, y rhain yw'r materion mwyaf sylweddol mewn gwasanaethau ariannol a'r rhai sy'n debygol o wneud y niwed mwyaf parhaus. Rydym yn adrodd ar ein gweithgareddau penodol ac ar sut rydym wedi monitro newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn ein penodau traws sector.

# 2 Gadael yr UE

Prif flaenoriaeth ein gwaith yw yn ddiweddar yw paratoi i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd (UE) a rhoi'r newidiadau sy'n deillio o hynny ar waith, ac mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar sut rydym yn gweithio.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn helpu'r Llywodraeth gydag amrywiaeth o faterion ac yn cynllunio ar gyfer pob sefyllfa. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cymaint o gysondeb â phosibl i gwsmeriaid a chwmnïau sy'n gweithredu yn y DU, ac os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb (h.y. heb gytundeb na chyfnod gweithredu).

Roedd hyn yn cynnwys rhoi cyngor technegol ynghylch newidiadau deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r DU yn gadael yr UE, er mwyn sicrhau fframwaith rheoleiddio effeithiol pan fydd yn gadael. Fel rhan o hyn, mae'r Trysorlys wedi rhoi'r dasg o ddiwygio safonau technegol cyfrwymol yr UE (rheoliadau manwl yr UE) i ni. Yn ein hymgynghoriad a'n datganiadau polisi, rydym wedi nodi diwygiadau i'n Llawlyfr er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r newidiadau mae'r Llywodraeth yn eu gwneud a'i fod yn gweithio'n effeithiol pan fydd y DU yn gadael yr UE.

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi deddfu pwerau i reoleiddwyr y DU er mwyn creu Cyfundrefn Caniatâd Dros Dro a chyflwyno Cyfundrefn Contractau Gwasanaethau Ariannol ar gyfer cwmnïau o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n gweithredu dan basbortau yn y DU ar hyn o bryd. Rydym wedi gweithio ar y broses o ddylunio'r cyfundrefnau a'u rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau bod yr FCA yn barod yn weithredol.

Pan fydd y DU yn gadael yr UE, yr FCA fydd rheoleiddiwr y DU ar gyfer Cronfeydd Masnach ac Asiantaethau Statws Credyd hefyd. Rydym wedi paratoi er mwyn sicrhau ein bod yn weithredol barod i ymgymryd â'r cyfrifoldebau newydd hyn, yn ogystal â pharatoi ar gyfer newidiadau eraill y gallent fod yn angenrheidiol o ganlyniad i adael yr UE, er enghraifft, yng nghyswllt y systemau sy'n helpu i gofnodi trafodion.

Mae ein hymgysylltiad parhaus â diwydiant wedi cynnwys monitro cynlluniau wrth gefn cwmnïau a gweithio gyda nhw er mwyn deall eu cynlluniau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

Mae wedi bod yn nod gennym ni i leihau unrhyw effaith niweidiol ar y farchnad ac ar ddefnyddwyr yn sgil gadael yr UE lle bo hynny'n bosibl. Rydym wedi cydweithio'n agos â Banc Lloegr ar gwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio gan ddau gorff a meysydd o gyfrifoldeb ar y cyd.

Rydym wedi parhau i gydweithio'n agos ag Awdurdodau Goruchwylio Ewrop, awdurdodau rhyngwladol cymwys ac awdurdodau rheoleiddio rhyngwladol eraill. Mae'r ymgysylltu yma wedi bod yng nghyswllt gadael yr UE a materion ehangach sy'n ymwneud â rheoli gwasanaethau ariannol trawsffiniol.

Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar gynnal a hybu safonau rhyngwladol effeithiol a fydd yn parhau i roi sail i gyfundrefn y DU drwy ymgysylltiad rhyngwladol rheolaidd.

Er na allwn liniaru'r risg o amharu yn sgil gadael yr UE heb gytundeb yn llwyr, rydym wedi lleihau'r risg o niwed o ganlyniad i'n gwaith. Mae deddfwriaeth wedi'i mabwysiadu, mae cytundebau cydweithredu rhyngwladol wedi cael eu llofnodi ac mae fframweithiau ar waith a fydd yn helpu i leihau ansicrwydd a'r amharu ar cwmnïau, marchnadoedd a defnyddwyr wrth baratoi i adael.

# 3 Ein blaenoriaethau traws sector

## Diwylliant a threfniadau llywodraethu cwmnïau

Mae llywodraethu da, sy'n rhoi trosolwg effeithiol o'r broses gwneud penderfyniadau, yn hanfodol er mwyn lleihau'r niwed posibl i ddefnyddwyr neu farchnadoedd. Mae diwylliant yn chwarae rhan hollbwysig hefyd. Mae diwylliant iach, sy'n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ar gyfer defnyddwyr, yn helpu unigolion mewn cwmnïau i wneud y penderfyniadau cywir nad ydynt yn arwain at niweidio defnyddwyr na marchnadoedd.

Nod y Gyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr yw cynyddu atebolrwydd unigolion mewn gwasanaethau ariannol drwy sicrhau bod y staff uchaf yn gwybod am beth maen nhw'n atebol a bod pob unigolyn mewn cwmni yn cymryd cyfrifoldeb dros ei ymddygiad ei hun.

Rydym eisiau i gwmnïau ac unigolion gynnal diwylliannau sy'n lleihau'r potensial ar gyfer niwed. Mae'r Gyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr yn rhan annatod o hyn ac mae'n targedu diwylliant cwmnïau yn uniongyrchol. Mae'n ceisio gwella ymddygiad ar draws y diwydiant drwy bennu safonau sylfaenol i bawb sy'n gweithio yn y gwasanaethau ariannol ac esbonio pwy sy'n atebol am beth.

### Atebolrwydd

Ym mis Rhagfyr 2018, fe wnaethom ymestyn y Gyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr i'n holl yswirwyr. Rydym hefyd wedi cyhoeddi rheolau bron yn derfynol i ymestyn y Gyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr i'r 47,000 o gwmnïau awdurdodedig nad ydynt yn berthnasol eto. Bydd y rheolau hyn yn dod i rym o 9 Rhagfyr 2019 ymlaen. Bydd yr estyniad hwn yn golygu y bydd y Gyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr yn berthnasol i'r rhan fwyaf o'r cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio.

Rydym hefyd wedi llunio canllawiau ymarferol i gwmnïau i'w helpu i baratoi Datganiadau Cyfrifoldeb rheolwyr a mapiau cyfrifoldeb. Mae hyn yn seiliedig ar yr wybodaeth y gwnaethom ei chyhoeddi yn y Canllawiau ar y Gyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr ar gyfer cwmnïau unigol rheoledig yng nghanol 2018.

Dywedodd rhai cwmnïau wrthym ni eu bod yn dal yn ansicr sut byddai'r Gyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr yn gweithio iddyn nhw. Felly, ym mis Ionawr 2019, aethom ati i ymgynghori ynghylch mesurau er mwyn egluro'r cwestiynau hyn sydd heb eu hateb – gan gynnwys statws swyddogaethau cyfreithiol cwmnïau. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig bod yr unigolyn sy'n gyfrifol am y swyddogaeth gyfreithiol yn cael ei eithrio o'r gofyniad cyfrifoldeb cyffredinol. Byddwn yn ystyried adborth ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein rheolau a'n canllawiau mewn Datganiad Polisi yn ystod haf 2019.

### Asesu beth sy'n gyrru diwylliant

Mae ein Dull Goruchwylio yn canolbwyntio ar ddiwylliant a modelau busnes cwmnïau fel y prif bethau sy'n achosi niwed. Wrth edrych ar ddiwylliant, byddwn yn canolbwyntio ar 4 peth sy'n ysgogi ymddygiad – bwriad, arweiniad, dull gwobrwyo a rheoli pobl, a llywodraethu (gan gynnwys systemau a rheolaethau a goruchwylio'r busnes).

Yn 2018, fe wnaethom gyflwyno'r Model Asesu Cwmnïau – adnodd ymarferol rydym yn ei ddefnyddio ym maes Goruchwylio i asesu'r cwmnïau mwyaf. Hwn yw'r model mae ein goruchwylwyr yn ei ddefnyddio i asesu pa mor effeithiol yw'r 4 peth sy'n ysgogi ymddygiad o ran lleihau'r niwed posibl sy'n deillio o fodel busnes cwmni. Defnyddir model tebyg i asesu portffolios cwmnïau yn barhaus a fel rhan o'n hasesiad Portffolios rheolaidd.

## Cofrestr a Chyfeiriadur

Rydym wedi gwneud newidiadau i'r Gofrestr Gwasanaethau Ariannol i'w gwneud yn haws ei defnyddio a'i deall. Mae'r newidiadau yn cynnwys ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr weld pan mae gofynion, gan gynnwys ataliadau dros dro, yn berthnasol i unigolion neu gwmnïau.

Ym mis Medi 2018, fe wnaethom lansio nodwedd chwilio 'Beta Defnyddwyr' i'w gwneud yn haws deall, dirnad a chael mynediad at rai o'r cofnodion yn y Gofrestr mae defnyddwyr yn chwilio amdanynt amlaf. Mae hyn yn caniatáu i ddefnyddwyr fynd ati'n haws i chwilio am ymgynghorwyr ariannol lleol ar gyfer morgeisi, pensiynau a buddsoddiadau ac rydym yn bwriadu gwneud rhagor o welliannau yn ystod y flwyddyn nesaf.

Tua diwedd 2018, fe wnaethom ddechrau profi Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API) am ddim o'r Gofrestr â grŵp o fabwysiadwyr cynnar. Mae'n caniatáu i ddatblygwyr ddarparu gwasanaethau er mwyn integreiddio data'r Gofrestr â data eraill a ddefnyddir gan ddefnyddwyr.

Ym mis Mawrth 2019, fe wnaethom gyhoeddi rheolau newydd i'w cyflwyno i'r 'Cyfeiriadur'. Adnodd cyhoeddus newydd yw hwn ar gyfer gwirio manylion grŵp ehangach o bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau ariannol, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u hardystio gan gwmnïau i ddarparu gwasanaethau pwysig i ddefnyddwyr, fel cyngor ariannol. Byddwn yn lansio'r Cyfeiriadur i'r cyhoedd fesul cam o fis Mawrth 2020 ymlaen, drwy ryngwyneb newydd a haws ei ddefnyddio ar gyfer defnyddwyr a chwmnïau.

Er bod y Cyfeiriadur wedi helpu defnyddwyr a chwmnïau ac atal niwed heb os, mae achosion wedi bod lle mae'r wybodaeth ar y Cyfeiriadur wedi dyddio neu'n anghywir. Rydym yn cydnabod bod problemau o hyd ag ansawdd y data yng nghyswllt yr amcan o 750,000 o gofnodion sydd yn y Gofrestr, a bod gofyn diwygio'r Gofrestr a sicrhau ei bod yn addas i ddal cylch gwaith yr FCA sy'n fwy erbyn hyn. Mae'r gwaith a ddisgrifir uchod yn rhan o hyn, fel y mae prosiectau eraill i gryfhau'r drefn o adrodd ar ddata cadarn, gyda'r nod cyffredinol o wella ansawdd a dibynadwyedd darnau allweddol o wybodaeth y mae defnyddwyr a chwmnïau yn dibynnu arnyn nhw.

## Taliadau cydnabyddiaeth

Rydym wedi cynnal adolygiad thematig i edrych ar a yw talu comisiwn i froceriaid wedi arwain at achosi niwed i ddefnyddwyr. Rydym wedi edrych ar adwerthwyr sy'n gwerthu nwyddau cyllid, broceriaid benthyciadau ar-lein, gwefannau cymharu prisiau a broceriaid cyllid masnachol. Wnaethon ni ddim edrych ar froceriaid cyllid cerbydau, sy'n rhan o adolygiad ar wahân. Er na wnaethom ganfod llawer o dystiolaeth o hyn, gwelsom rai enghreifftiau o ganlyniadau gwael i gwsmeriaid.

Drwy ein dull goruchwylio, byddwn yn monitro pa mor effeithiol yw trefniadau cymell cwmnïau o ran atgyfnerthu diwylliannau iach, a byddwn yn mynd i'r afael â niwed mewn cwmnïau unigol pan fyddwn yn gweld enghreifftiau o hynny.

## Chwythu'r Chwiban

Mae adroddiadau chwythu'r chwiban yn dal yn ffynhonnell wybodaeth hanfodol ac unigryw i'n gwaith ni. Maen nhw'n ein helpu ni i ddeall ymddygiad y cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio, i oruchwylio'n fwy effeithiol ac maen nhw'n ein helpu ni gyda'n camau gorfodi.

Er mwyn sicrhau bod chwythwyr chwiban yn cael eu trin mewn ffordd gyson a theg, rydym yn darparu rhagor o adnoddau ar gyfer ein tîm chwythu'r chwiban ac rydym wedi cyflwyno hyfforddiant i sicrhau bod ein staff sy'n gyfrifol am ystyried gwybodaeth chwythu'r chwiban, yn gweithredu ar y mater yn briodol. Rydym hefyd wedi bod yn adolygu ein harferion yn barhaus, i sicrhau ein bod ni'n cynnal cyfrinachedd chwythwr chwiban, yn olrhain gwybodaeth chwythu'r chwiban yn briodol ac yn rhannu'r wybodaeth ar draws yr FCA.

Eleni rydym:

Wedi rheoli ac asesu 1,119 o adroddiadau chwythu'r chwiban. Roedd y rhain yn cynnwys 1,755 honiad ar wahân, ac fe wnaethant arwain at y canlyniadau canlynol:

- mewn 10 achos, fe wnaethom gymryd camau sylweddol i liniaru niwed
- mewn 85 achos, fe wnaethom gymryd camau i liniaru niwed
- fe wnaeth 195 o achosion helpu i roi sail i'n gwaith ac roeddent yn berthnasol i atal niwed, ond ni wnaethant arwain at unrhyw gamau gweithredu penodol
- doedd 144 o achosion ddim yn cael eu hystyried yn berthnasol i atal niwed
- mae 685 o achosion yn dal i gael eu hasesu, er mwyn pennu eu canlyniadau

## Canlyniadau a monitro newid

Ein nod yw trawsnewid diwylliant cwmnïau gwasanaethau ariannol, er mwyn i gwmnïau beri llai o niwed i ddefnyddwyr, busnesau a'r economi go iawn. Byddwn yn ceisio adolygu lefelau'r cwynion sydd wedi'u cadarnhau, lefelau iawndal i ddefnyddwyr ac adborth gan ddefnyddwyr fel dangosyddion posibl o ran cynnydd. Ond, mae heriau sylweddol o ran mesur diwylliant yn wrthrychol ac o ran canfod cysylltiad achosol rhwng newid mewn diwylliant a chanlyniadau i ddefnyddwyr, y farchnad a busnesau.

Yn 2018/19, cawsom lefelau uchel o ymgysylltiad gan ddiwydiant yn ein gweminar ac yn CultureSprint. Fe wnaeth cyfranogwyr ymrwymo i greu awyrgylch lle gall pobl godi llais a lle bydd pobl yn gwrando arnyn nhw yn eu sefydliadau, yn dilyn ein CultureSprint. Mae'n dal yn rhy fuan i ddweud sut bydd ein gweithgareddau yn arwain at greu a hybu diwylliannau iach.

Yn ystod y flwyddyn nesaf a thu hwnt, rydym yn disgwyl i gwmnïau ddangos eu bod yn ymwybodol o'n digwyddiadau, ac adlewyrchu hyn yn eu harferion, a gwneud gwelliannau penodol gan gynnwys lle byddwn ni'n canfod diffygion. Byddwn yn defnyddio ein Model Asesu Cwmnïau i fonitro hyn (yn ogystal â'r model tebyg rydym yn ei ddefnyddio ar gyfer portffolios cwmnïau) i asesu pa mor effeithiol yw cwmnïau am reoli eu diwylliant a lleihau'r niwed posibl yn sgil eu modelau busnes.

# Troseddau ariannol (twyll a sgamiau) ac atal gwyngalchu arian

Mae gwyngalchu arian a throseddau ariannol eraill yn tanseilio uniondeb y system gyllid gyfan. Mae mynd i'r afael â hyn yn dal yn un o'n prif flaenoriaethau. Rydym yn parhau i ymdrechu i wneud sector cyllid y DU yn darged anodd i droseddwyr. Rydym yn gwneud hyn drwy sicrhau bod cwmnïau ariannol yn sefydlu ac yn cynnal systemau a dulliau rheoli cadarn a drwy sicrhau bod ein gweithgareddau ni'n cyd-fynd yn agos ag agenda gyffredinol y Llywodraeth ar fynd i'r afael â throseddau economaidd.

Mae angen dull cydlynus, amlasiantaeth a rhyngwladol i fynd i'r afael â gwyngalchu arian. Rydym yn cynnal cysylltiadau cadarn ag amrywiaeth o bartneriaid domestig a rhyngwladol, gan gynnwys rheoleiddwyr ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Mae rhannu gwybodaeth â'r sefydliadau hyn a chydweithio'n agos â nhw yn rhannau allweddol o'n gwaith bob dydd.

Rydym yn gweithio â'n partneriaid rhyngwladol, gan fod cyllid anghyfreithlon yn fygythiad byd-eang ac mae gofyn i bob gwlad ddatblygu trefniadau cadarn i atal gwyngalchu arian. Rydym yn chwarae rhan lawn yn y broses o ddatblygu a hyrwyddo safonau rhyngwladol ar gyfer atal gwyngalchu arian, ariannu gwrthderfysgaeth ac ariannu gwrth ledaenu yn y Tasglu Gweithredu Ariannol a chyrff rhyngwladol eraill.

**Ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol hwn, rydym wedi cyhoeddi ein Hadroddiad Atal Gwyngalchu Arian sy'n disgrifio ein gwaith yn y maes hwn yn fwy manwl.**

## Dull goruchwylio a chanlyniadau

Mae angen i ni fod yn ymwybodol o fygythiadau sy'n dod i'r amlwg, ac yn sgil hynny rydym wedi helpu i ddatblygu Asesiad Risg Cenedlaethol o Wyngalchu Arian a Chyllido Terfysgaeth (NRA) y DU 2017. Fe ddaeth hwn i'r casgliad bod marchnadoedd cyfalaf y DU yn agored i risg uchel o wyngalchu arian. Rydym wedi cynnal adolygiad thematig i sicrhau ein bod yn deall y risgiau hynny'n well, ac fe gafodd canfyddiadau'r adolygiad thematig hwnnw eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2019 a bydd yn cyfrannu at NRA 2019.

## Seiliedig ar risg a gyrrir gan ddata

Rydym yn defnyddio dull seiliedig ar risg o Oruchwylio Trosedd Ariannol. Rydym yn chwilio am y ffyrdd mwyaf effeithiol a chymesur o sicrhau bod gan gwmnïau safonau da yng nghyswllt trosedd ariannol. Rydym yn defnyddio ymatebion cwmnïau o ran cofnodi gweithgarwch troseddol a ffynonellau gwybodaeth eraill i'n helpu ni i ganfod risgiau. Hefyd, rydym yn datblygu sut rydym yn defnyddio dadansoddeg i ganolbwyntio mwy ar gwmnïau a gweithgareddau sy'n arwain at fwy o risg o wyngalchu arian, fel ein rhaglen sy'n asesu cwmnïau'n rheolaidd yng nghyswllt atal wyngalchu arian.

Drwy gyfrwng asesiadau penodol i gwmnïau ac adolygiad thematig rydym yn deall yn well beth yw'r niwed posibl yn sgil gwyngalchu arian ac ariannu terfysgwr yn y sector hwn.

Rydym yn defnyddio mwy ar ddata, gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau gwybodaeth i helpu i asesu'r peryglon cynhenid sy'n deillio o fodelau busnes cwmnïau. Ym mis Tachwedd 2018 fe wnaethom gyhoeddi data o'n ffurflen trosedd ariannol flynyddol am y tro cyntaf. Mae hyn yn rhoi golwg gyfunol newydd ar drosedd ariannol. Mae enghreifftiau eraill o ddata yn cynnwys ein hymgyrch galwad am allan a chudd-wybodaeth a gasglwyd drwy atgyfeiriadau gan amryw o ffynonellau, gan gynnwys chwythwyr chwiban, sefydliadau gorfodi'r gyfraith, asiantaethau rhyngwladol, rheoleiddwyr neu gwmnïau'n hunan-adrodd.

## Sicrhau safonau atal gwyngalchu arian yn nulliau goruchwylio cyrff proffesiynol

Dechreuodd Swyddfa'r Corff Proffesiynol ar gyfer Goruchwylio Atal Gwyngalchu Arian (OPBAS) weithio yn yr FCA ym mis Ionawr 2018. Mae OPBAS yn goruchwylio ansawdd cyrff proffesiynol o ran goruchwylio cwmnïau cyfreithiol a chyfrifyddu. Fe wnaeth OPBAS gwblhau ei chylch cyntaf o asesiadau goruchwylio a chyhoeddi ei chanfyddiadau dienw ym mis Mawrth 2019. Y mae hefyd wedi sefydlu Gweithgor Arbenigol rhwng yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a'r cyrff cyfrifyddu er mwyn eu galluogi nhw i gydweithio a rhannu gwybodaeth a deallusrwydd.

## Adeiladu ar ganfyddiadau'r Tasglu Gweithredu Ariannol

Fe wnaethgwerthusiad cydfuddiannol diweddar y Tasglu Gweithredu Ariannol ganfod bod gan y system atal gwyngalchu arian gryfderau a lle i wella. Rydym yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymgymryd â heriau newydd.

## Ein dulliau gorfodi

Rydym wedi datblygu ein dulliau gorfodi yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf. Yn y gorffennol rydym wedi agor ymchwiliadau naill ai ar sail reoleiddiol neu droseddol. Yn rhai o'n hymchwiliadau i atal gwyngalchu arian, rydym yn defnyddio dull 'trac deuol', sef ein bod yn ymchwilio ar sail reoleiddiol a throseddol. Mae hyn yn ein helpu ni i ddeall beth sydd wedi digwydd, pa gamau i'w cymryd a pha adnoddau i'w defnyddio.

O ganlyniad, mae gennym ni nifer bach o ymchwiliadau ar y gweill yng nghyswllt systemau a rheolaethau cwmnïau lle mae posibilrwydd o gamymddwyn a allai gyfiawnhau erlyniad troseddol o dan y Rheoliadau Gwyngalchu Arian.

## Mynd i'r afael â sgamiau

Mae twyll yn effeithio ar nifer o'r sectorau rydym yn eu goruchwylio. Mae'r twyll yma'n amrywiol ac mae pa mor gymhleth a soffistigedig ydyw yn amrywio, ond mae pob achos yn ceisio camfanteisio ar elfennau agored i niwed, boed y rheini'n bobl neu'n ffactorau technolegol.

Yn ogystal â'n hymgyrch ScamSmart newydd yn erbyn sgamiau pensiwn, rydym wedi cymryd rhan yn y Tasglu Twyll Cyfun ac wedi gweithio gyda'r Rheoleiddiwr Systemau Talu ar y Grŵp Llywio Sgamiau Gwthio am Daliad Ymlaen Llaw. Rydym hefyd wedi anfon staff yr FCA ar secondiad i'r Ganolfan Troseddau Economaidd Genedlaethol i arwain gweithgarwch atal twyll.

Mae rhagor o fanylion am ScamSmart yn y bennod ar Bensiynau ac incwm ymddeoliad.

### Cydweithio â phartneriaid ac asiantaethau ar dechnoleg

Rydym eisoes yn hybu'r defnydd o dechnolegau rheoleiddio ac yn cynnal rhaglen ddadansoddi data flaenllaw i ganfod gweithgareddau fel camddefnyddio'r farchnad. Ym mis Mai 2018, fe wnaethom gynnal TechSprint Atal Gwyngalchu Arian a Throsedd Ariannol a oedd yn canolbwyntio ar sut gellir defnyddio technoleg yn fwy effeithiol i fynd i'r afael â gwyngalchu arian a throsedd ariannol.

Un o'r prif themâu oedd pwysigrwydd rhannu gwybodaeth. Ym mis Gorffennaf 2019, bydd ein TechSprint dilynol yn ymchwilio i dechnolegau newydd posibl a allai wella prosesau rhannu gwybodaeth er mwyn canfod ac atal gwyngalchu arian a throseddau ariannol.

## Canlyniadau a monitro newid

Mae ein hadolygiadau o gwmnïau mwy wedi canfod gwelliannau yn eu rheolaethau atal gwyngalchu arian, er bod y cynnydd wedi bod yn rhy araf ar adegau. Lle daethom ar draws methiannau sylweddol, rydym wedi defnyddio amrywiaeth o adnoddau i sicrhau bod y rhain yn cael eu cywiro, gan gynnwys cynnal ymchwiliadau.

Mae ein hadolygiad thematig o risgiau yn y sector e-arian ar gyfer cynnyrch fel cardiau rhagdaledig ac e-waledi yn gadarnhaol ar y cyfan, tra oedd canfyddiadau o'n gwaith sicrhau risg yn dangos ein bod wedi defnyddio adnoddau yn yr ardaloedd risg uchaf.

Yn 2018/19, fe wnaeth dros 523,000 o bobl ymweld â gwefan ScamSmart, ac fe gafodd 6,400 o ddefnyddwyr eu rhybuddio am gwmnïau heb awdurdod ar ôl defnyddio'r Rhestr Rhybudd. Mae'r wefan yn rhoi gwybodaeth am y risgiau cysylltiedig â buddsoddi ac yn caniatáu i ddefnyddwyr weld rhestr o gwmnïau rydym yn gwybod eu bod wedi bod yn gweithredu heb awdurdod.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd cwmnïau o ran gwella eu rheolaethau atal gwyngalchu arian oherwydd mae hwn yn un peth sy'n dangos a yw'r niwed posibl i ddefnyddwyr ac uniondeb y farchnad wedi lleihau. Byddwn hefyd yn defnyddio data o'n Ffurflen Data Troseddau Ariannol Flynyddol a ffynonellau gwybodaeth eraill i fonitro newidiadau mewn risg dros amser.

Rydym wedi canfod gwendidau amlwg o ran yr oruchwyliaeth a ddarperir gan Oruchwylwyr Atal Gwyngalchu Arian mewn Cyrff Proffesiynol, yn fwyaf nodedig yn y sector cyfrifyddiaeth, ac mae nifer o gyrff proffesiynol eraill llai yn canolbwyntio mwy ar gynrychioli eu haelodau na goruchwylio safonau'n gadarn. Ni wnaeth bron i chwarter y cyrff cyhoeddus gynnal unrhyw fath o oruchwyliaeth a does dim digon ohonynt yn rhannu gwybodaeth am risgiau gwyngalchu arian. Mae cynlluniau strategol gan y Cyfrifon Banc mewn Pecyn ar waith i fynd i'r afael â gwendidau a bydd OPBAS yn monitro'r broses o roi'r rhain ar waith yn amserol, gan gymryd camau cadarn a chymesur lle bo angen. Rydym yn disgwyl i Gyfrifon Banc mewn Pecyn rannu gwybodaeth â goruchwylwyr ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Yn ogystal â chyfrannu at y Gweithgorau Arbenigol, byddwn hefyd yn monitro aelodaeth Cyfrifon Banc mewn Pecyn a'u cyfraniad at y trefniadau rhannu gwybodaeth sy'n bodoli eisoes, SIS a FIN-NET.

### Adolygiad o system goruchwyliaeth ariannol Ewrop

Fe wnaethom hefyd ddarparu cymorth technegol i Drysorlys EM drwy gydol y trafodaethau yng Nghyngor yr UE ar adolygu system goruchwyliaeth ariannol Ewrop, a oedd â'r nod o wella mandadau a phrosesau llywodraethu ac ariannu 3 Awdurdod Goruchwylio Ewrop, yn ogystal â swyddogaethau Bwrdd Risg Systemig Ewrop. Un o brif ddeilliannau'r adolygiad oedd darparu pwerau newydd i Awdurdod Bancio Ewrop er mwyn edrych ar sut mae Aelod-Wladwriaethau'r UE yn goruchwylio systemau a rheolaethau atal gwyngalchu arian banciau a sefydliadau ariannol eraill.

# Diogelu data, cadernid a rhoi gwaith allan ar gontract

Mae technoleg yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddarparu pob cynnyrch a gwasanaeth ariannol fwy neu lai, ac mae'n parhau i esblygu. Gall esgor ar effeithlonrwydd, lleihau camgymeriadau dynol a darparu manteision, gan gynnwys mynediad ehangach a chyflymach at gynnyrch a gwasanaethau busnes. Er bod y math hwn o arloesi yn cael effaith gadarnhaol sylfaenol ar wasanaethau ariannol y DU, gall hefyd achosi niwed os nad yw'n cael ei reoli'n effeithiol. Felly, mae cadernid gweithredol yn rhan hanfodol o amddiffyn system ariannol, sefydliadau a defnyddwyr y DU.

Mae cadernid sefydliadol yn gofyn mwy a mwy gennym o ystyried yr amgylchedd seiber a graddfa fawr newidiadau technolegol. Pan fydd ymosodiad seiber neu achos o darfu ar wasanaeth, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau eraill, gan gynnwys Banc Lloegr, yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA), y Trysorlys, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan ddefnyddio Fframwaith Ymateb Awdurdodau er mwyn sicrhau ymateb cydlynus.

Rydym wedi parhau i gyfrannu at waith nifer o gyrff rhyngwladol sy'n canolbwyntio ar faterion seiber a chadernid. Mae'r rhain yn cynnwys Sefydliad Rhyngwladol y Comisiwn Gwarantau, y Pwyllgor Taliadau a Seilwaith Marchnadoedd, y Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol a'r Grŵp o Saith (G7). Fe wnaethom gyfrannu at gyhoeddiadau canlynol G7 yn ystod 2018: Profion Hacio Seiliedig ar Fygythiad, Rheoli Risg Seiber Trydydd Parti a Geiriadur Seiber y Ffederasiwn Busnesau Bach.

## Mynd i'r afael â chadernid gweithredol y diwydiant

Ar sail y data sydd ar gael i ni, rydym yn parhau i weld mwy a mwy o adroddiadau ynghylch digwyddiadau technolegol a seiber sy'n effeithio ar wasanaethau ariannol y DU: bu cynnydd o 187% yn nifer yr adroddiadau a gawsom ym mlwyddyn galendr 2018. Ein nod yw helpu cwmnïau i fod yn fwy cadarn yn erbyn ymosodiadau o'r fath er mwyn cryfhau uniondeb y farchnad a diogelu defnyddwyr.

Ym mis Gorffennaf 2018, ynghyd â'r PRA a'r Banc, fe wnaethom ymchwilio i ffyrdd o gryfhau cadernid gweithredol cwmnïau mewn Papur Trafod. Roedd y papur hwn yn amlygu'r risgiau cysylltiedig ag ymosodiadau seiber a digwyddiadau gweithredol eraill sy'n tarfu, yn ogystal â dibyniaeth gynyddol y system ariannol ar dechnoleg a data, a'i chysylltedd drwy hynny.

Ers y Papur Trafod, rydym wedi parhau i gydweithio â'r Banc a PRA i ddadansoddi'r ymatebion ac ymgysylltu ag ymatebwyr er mwyn deall y pwyntiau trafod. Rydym yn bwriadu cyhoeddi papur ymgynghori gyda chynigion yn nes ymlaen yn 2019.

Mae ein dull cyfathrebu gwell yn ymrwymo i roi gwybodaeth ychwanegol i gwmnïau, yn enwedig cwmnïau llai, ynglŷn â sut mae gwella eu cadernid seiber. Eleni, fe wnaethom gyhoeddi dau ffeithlun, ar y cyd â'r PRA a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, ynglŷn â Diogelwch Rhwydwaith a Meddalwedd Wystlo.

## Asesu risgiau rhoi gwaith allan ar gontract a darparwyr trydydd parti

Mae cwmnïau yn parhau i roi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau busnes pwysig allan ar gontract i ddarparwyr trydydd parti, ac nid yw rhai o'r rhain yn cael eu rheoleiddio. Mae defnydd cyfrifiadura yn y cwmwl ar gynnydd ac mae hyn o fudd i gwmnïau o ran arbed costau a chylchoedd dosbarthu cyflymach. Fodd bynnag, mae gwasanaethau yn y cwmwl hefyd yn peri risgiau unigryw, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â phreifatrwydd data, seilwaith trawsffiniol, a chrynodiad y farchnad, oherwydd bod nifer o gwmnïau yn dibynnu ar un darparwr. Mewn ymateb i Ganllawiau EBA newydd Awdurdod Bancio Ewrop ym mis Gorffennaf 2018, fe wnaethom gyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru i gwmnïau sy'n rhoi gwaith allan ar gontract i'r cwmwl a gwasanaethau TG trydydd parti eraill. Mae ein canllawiau yn amlygu meysydd y dylai cwmnïau eu hystyried wrth baratoi i ddefnyddio, gwerthuso a monitro trydydd partïon.

Roedd ein Papur Trafod ynghylch cadernid gweithredol yn pwysleisio pa mor bwysig yw deall a mapio darparwyr trydydd parti pwysig. Roedd hefyd yn un o'r meysydd wnaeth ddenu'r mwyaf o adborth, a byddwn yn cynnwys hyn yn ein papur ymgynghori ar gyfer 2019.

## Dod â'n gwaith ar gadernid at ei gilydd

Cafodd y newidiadau sy'n ymwneud â chlustnodi eu cwblhau gan fanciau yn 2018 heb i hynny darfu'n sylweddol ar eu gwasanaethau.

O dan gytundeb gwirfoddol a ddatblygwyd ynghyd â'r diwydiant, dechreuodd banciau a chymdeithasau adeiladu gyhoeddi nifer o fetrigau ansawdd gwasanaethau am y tro cyntaf ym mis Awst 2018. Mae'r metrigau hyn yn cynnwys llunio adroddiad chwarterol ar ddigwyddiadau gweithredol a diogelwch mawr. Rydym wedi sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael er mwyn helpu pobl i ddewis darparwr cyfrif cyfredol sy'n darparu'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw, gan gynyddu cymhelliant y cwmnïau i gynnig gwasanaeth gwell.

## Canlyniadau a monitro newid

Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y cwmnïau sy'n cofnodi digwyddiadau eleni. Mae hyn o ganlyniad i'r gofynion cofnodi newydd ar gyfer yr holl ddarparwyr gwasanaethau talu o dan PSD2 a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2018; rhoi'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ar waith ym mis Mai 2018; a dealltwriaeth well ymysg cwmnïau o'n disgwyliadau ni o ran cofnodi digwyddiadau.

## Yn y flwyddyn ariannol 2018/19 fe wnaethom dderbyn

**916**

**o adroddiadau ar ddigwyddiadau**

152 seiber
738 yn ymwneud â thechnoleg
26 heb fod yn ymwneud â thechnoleg

**o gymharu â**

**229**

**o adroddiadau ar ddigwyddiadau yn y flwyddyn ariannol flaenorol, sef 2017/18**

44 yn ymwneud â materion seiber
165 yn ymwneud â thechnoleg
20 heb fod yn ymwneud â thechnoleg

**a**

**185**

42 yn ymwneud â materion seiber
143 yn ymwneud â thechnoleg ar gyfer **2016/17.**

Hyd yma, nid yw hyn yn arwydd o gynnydd mewn digwyddiadau, ond yn hytrach, y ffaith fod cwmnïau yn deall ein disgwyliadau yn well. Byddwn yn defnyddio data yn y dyfodol i ddechrau monitro tueddiadau.

Er ei bod yn rhy fuan i asesu a yw'r newidiadau mae'r cwmnïau'n eu gwneud yn gwella eu cadernid gweithredol o ganlyniad i'n gweithgareddau ni, ac i ba raddau y gwneir hynny, mae'r arwyddion cynnar yn gadarnhaol. Mae ein gwaith gyda chyrff rhyngwladol wedi arwain at wella cysondeb fframweithiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cadernid seiber ledled y byd. Mae darparwyr gwasanaethau yn y cwmwl wedi croesawu eglurder ychwanegol ein canllawiau i gwmnïau wedi'u diweddaru, ynghylch rhoi gwaith allan ar gontract yn y cwmwl neu i drydydd partïon.

Byddwn hefyd yn monitro newid drwy ein gwaith ymatebol sy'n nodi pa mor effeithiol yw cwmnïau wrth ymateb i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â chadernid seiber a thechnolegol. Mae'r agweddau rydym yn eu hasesu yn cynnwys pa mor brydlon mae cwmnïau'n rhoi gwybod i ni am ddigwyddiadau, a ydynt yn mynd ati'n rhagweithiol i roi gwybod i awdurdodau perthnasol eraill, ac ansawdd cwmnïau o ran sut maen nhw'n delio â digwyddiadau yn gyffredinol. Mae hyn yn ein galluogi ni i nodi a yw cwmnïau yn ymateb i ddigwyddiadau yn briodol. Mae hefyd yn ein helpu ni i ddeall yr heriau maen nhw'n eu hwynebu, sy'n ein helpu ni i asesu pa mor effeithiol yw ein gweithgareddau a rhoi sail i'n gwaith rhagweithiol yn y dyfodol.

## Arloesi, data mawr, technoleg a chystadleuaeth

Gall Technoleg Ariannol (FinTech) helpu cwmnïau i ddarparu cynnyrch a gwasanaethau ariannol gwell. Gall leihau costau ac arwain at gyfraniad mwy, sy'n gallu bod o fudd i ddefnyddwyr. Ond mae gan hyn y potensial i ledaenu problemau neu wallau mewn systemau hefyd, a gwneud mwy o bobl yn agored i niwed yn sgil hynny. Gall twyll a chamddefnyddio data waethygu lle mae'r rheolaethau risg a'r llywodraethu yng nghyswllt technoleg yn wael.

Os bydd technolegau'n symud yn gyflym iawn, gallant adael rhai cwsmeriaid ar ôl, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed. Wrth i gwmnïau ddatblygu technolegau, rydym yn disgwyl iddyn nhw sicrhau bod mesurau diogelu priodol yn cael eu hymgorffori mewn cynnyrch a gwasanaethau newydd er mwyn diogelu'r holl ddefnyddwyr.

Gall problemau godi o ganlyniad i golli data a chadernid seiber gwan hefyd. Mae gan y thema hon gysylltiad cryf â'n thema draws sector, sef 'Diogelu data, cadernid a rhoi gwaith allan ar gontract'.

Ein nod yw sicrhau bod arloesedd, ar y cyd â datblygiadau technolegol a defnydd data, yn gweithio er budd defnyddwyr.

**Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar Gystadleuaeth 2018/19 yn rhoi rhagor o fanylion am ein gwaith eleni i hyrwyddo cystadleuaeth**

## Helpu cwmnïau gydag FCA Innovate

Mae ein rhaglenni Innovate a RegTech yn hybu arloesedd yn uniongyrchol. Rydym yn cynnig amryw o wasanaethau i helpu cwmnïau i ddatblygu syniadau arloesol sydd o fudd i ddefnyddwyr neu'r farchnad gwasanaethau ariannol yn ehangach. Drwy'r rhaglen hon o ddatblygu polisi ac ymgysylltu â FinTech a'r amgylchedd technoleg yn ehangach, rydym yn nodi'r rhwystrau sy'n atal cwmnïau rhag cael mynediad i'r farchnad ac yn ceisio pontio'r bylchau mewn rheoliadau lle mae ansicrwydd yn llesteirio arloesedd.

Mae ein Blwch Tywod, sy'n adnabyddus ledled y byd, yn rhoi'r cyfle i gwmnïau arloesol brofi eu cynigion gyda defnyddwyr go iawn mewn amgylchedd rheoledig cyn mynd ati i fuddsoddi o ddifrif ynddynt, gan ddarparu mesurau diogelu i ddefnyddwyr ar yr un pryd. Rydym ar ein pumed criw erbyn hyn, ac rydym yn cael ceisiadau gan ystod amrywiol o gwmnïau.

Mae ein gwasanaethau eraill yn cynnwys Cymorth Uniongyrchol a'r Uned Gynghori sy'n rhoi adborth rheoleiddiol i gwmnïau sy'n datblygu busnesau arloesol. Mae hyn yn amrywio o gymorth gyda'r hawliau mae eu hangen ar gwmnïau, i ganllawiau unigol am sut mae'r rheolau'n berthnasol i fodelau busnes newydd.

## Y Rhwydwaith Arloesi Ariannol Byd-eang (GFIN)

Cafodd y Rhwydwaith Arloesi Ariannol Byd-eang ei lansio ym mis Ionawr 2019. Grŵp rhyngwladol o reoleiddwyr ariannol a sefydliadau cysylltiedig ydyw, gan gynnwys yr FCA, sydd wedi ymrwymo i gefnogi arloesedd ariannol er budd defnyddwyr.

Mae'r GFIN yn ceisio darparu ffordd fwy arloesol i gwmnïau ryngweithio â rheoleiddwyr, a'u helpu nhw i lywio rhwng gwledydd wrth iddynt fynd ati i ehangu syniadau newydd.

Mae'r GFIN yn gweithio gyda'i griw cyntaf o gwmnïau mewn cyfnod prawf ar gyfer profi cynnyrch a gwasanaethau arloesol yn drawsffiniol, yn ogystal â modelau busnes. Bydd cwmnïau yn elwa o'r cyfle i brofi a chystadlu yn y gofod rheoledig dros wahanol awdurdodaethau, a bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio fel sail i waith y rhwydwaith yn y dyfodol.

Yn ogystal â'r GFIN, rydym wedi parhau i weithio ar faterion cysylltiedig ag arloesi a FinTech mewn amryw o sefydliadau a grwpiau yn yr UE ac yn rhyngwladol.

## Profi a defnyddio RegTech a dadansoddi uwch

Rydym wedi gwneud gwaith i asesu pa mor ymarferol fyddai dulliau adrodd rheoleiddiol a weithredir gan beiriant, yn dilyn y model 'prawf o gysyniad' a ddatblygwyd mewn TechSprint cynharach. Ddechrau 2018 fe wnaethom ni gyhoeddi Galwad am Fewnbwn i ofyn am safbwyntiau ehangach yn y diwydiant.

Mae'r adborth a gawsom, a chyfraniad defnyddiol y diwydiant yn ystod y cyfnod prawf, yn awgrymu bod yr Adroddiadau Rheoleiddiol Digidol yn gysyniad y mae cwmnïau'n ystyried y byddai'n werth ymchwilio ymhellach iddo.

Y llynedd, fe wnaethom gynnal TechSprint i ymchwilio i'r rôl y gall technoleg ei chwarae o ran atal a chanfod achosion o wyngalchu arian a throsedd ariannol. Un o'r prif bethau a ddysgwyd yn sgil y digwyddiad oedd bod angen ffyrdd gwell o rannu data'n ddiogel ac yn gyfreithlon ymysg partïon perthnasol er mwyn gallu adnabod ac atal rhwydweithiau troseddol. Byddwn yn cynnal digwyddiad dilynol yn 2019 er mwyn ymchwilio ymhellach i sut gellir rhannu'r data yma gan barhau i gydymffurfio â chyfreithiau diogelu data.

Gan gydnabod pwysigrwydd data a gwybodaeth o ran galluogi rheoleiddio, rydym wedi dechrau cynyddu sgiliau gwyddor data ledled y sefydliad. Rydym wedi datblygu tîm dadansoddi uwch ac wedi ymgymryd â 15 o brosiectau prawf ledled y sefydliad. Mae'r prosiectau hyn wedi canolbwyntio ar brofi adnoddau newydd a manteisio arnynt – fel gwe-ymlusgo a chrafu, dadansoddi rhwydweithiau a phrosesu ieithoedd naturiol — ar gyfer amrywiaeth helaeth o achosion defnyddio.

## Adolygu sut mae cwmnïau'n defnyddio data

Rydym wedi cwblhau gwaith cychwynnol i nodi agweddau penodol ar ddefnydd data cwmnïau. O hyn, rydym yn cynllunio rhaglen i ddeall yn well sut gallai defnydd cwmnïau o ddata a dysgu cyfrifiadurol lunio cynnyrch a gwasanaethau. Bydd y gwaith hwn hefyd yn edrych ar y goblygiadau posibl i ddefnyddwyr a'r ffordd mae marchnadoedd yn gweithio.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ym mis Chwefror 2019, fe wnaethom ddiweddaru ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â nhw er mwyn adlewyrchu sut rydym yn cydlynu ein gweithgareddau ar draws meysydd cyd-fuddiannol, gan gynnwys datblygu polisi a chanllawiau.

## Adolygu modelau busnes bancio adwerthu

Roedd ein hadolygiad strategol o fodelau busnes bancio adwerthu yn edrych ar fodelau busnes gwahanol fathau o gwmnïau a rôl cyfrifon cyfredol personol gan gynnwys bancio am ddim os mewn credyd. Ymysg materion eraill (gweler y penodau ar Fancio adwerthu a Benthyca adwerthu), roedd hefyd yn ystyried sut gallai newid technolegol ac arloesi effeithio ar gystadleuaeth ac ymddygiad cwmnïau yn y dyfodol, ac effaith cau canghennau o fanciau adwerthu ar ddefnyddwyr.

Fe wnaeth ein Hadroddiad Terfynol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, ganfod bod y Cyfrif Cyfredol Personol yn ffynhonnell gystadleuol bwysig ar gyfer banciau mawr, gan esgor ar gyllid a refeniw rhad o ffioedd gorddrafft a chostau eraill. Mae banciau mawr hefyd yn elwa ar fanteision mewn marchnadoedd benthyca, gan gael cynnyrch uwch o lefelau cymharol isel o gyfalaf, o'u cymharu â rhoddwyr benthyciadau eraill. Canlyniadau hyn i nifer o ddefnyddwyr a busnesau bach yw balans credyd gyda llog bach neu ddim o gwbl, ffioedd uchel, a modelau prisio sy'n gallu gweithio yn erbyn cwsmeriaid ffyddlon.

Rydym o'r farn y gallai modelau busnes arloesol a chystadleuaeth ddarparu gwell gwerth am arian a gwasanaeth gwell i gwsmeriaid. Ond mae angen cymryd camau gweithredu cydlynus yn y dyfodol er mwyn sicrhau sector bancio adwerthu sy'n gweithio'n dda i ddefnyddwyr: er enghraifft, er mwyn sicrhau bod pob defnyddiwr yn cael mynediad parhaus at wasanaethau bancio, bod banciau'n defnyddio data cwsmeriaid yn briodol, bod ganddynt systemau cadarn, a'u bod yn atal twyll a throsedd ariannol yn effeithiol.

## Adolygiad ôl-weithredu ynghylch cyllido torfol

Ym mis Mehefin 2019, fe wnaeth ein Datganiad Polisi, [Llwyfannau cyllido torfol seiliedig ar fuddsoddiadau a llwyfannau 'cymar i gymar' seiliedig ar fenthyciadau] gyflwyno newidiadau i'r ffordd rydym yn rheoleiddio llwyfannau cyllido torfol seiliedig ar fenthyciadau.

Mae'r newidiadau yn mynd i'r afael â'r niwed posibl a'r niwed gwirioneddol a nodwyd yn ein hadolygiad ôl-weithredu. Roedd y rhain yn cynnwys buddsoddwyr heb ddigon o wybodaeth i ddeall y risg gysylltiedig â buddsoddi mewn cynnyrch a natur eu perthynas â'r llwyfan.

Rydym hefyd wedi helpu'r Trysorlys drwy ddarparu cymorth technegol drwy gydol trafodaethau'r Cyngor ar gynnig Comisiwn yr UE am Reoliad i lywodraethu gweithgareddau darparwyr gwasanaethau cyllido torfol yn Ewrop.

## Crypto-asedau

Mae'r farchnad crypto-asedau yn y DU yn fach ar hyn o bryd ond mae'n datblygu'n gyflym. Mae angen i ddarparwyr wybod a ydyn nhw'n cynnal gweithgareddau sy'n dod o dan ein cylch gwaith rheoleiddiol a allai olygu bod angen awdurdodiad arnynt.

Does gan grypto-asedau ddim gwerth yn y bôn. Mae Tystiolaeth yn awgrymu y gallai defnyddwyr brynu a chyfnewid crypto-asedau heb sylwi bod cyfyngiad ar eu mesurau diogelu rheoleiddiol. Dydy hysbysebu, sy'n aml yn cael ei anelu at fuddsoddwyr adwerthu, ddim yn deg nac yn glir yn aml, a gall fod yn gamarweiniol. Gall dyluniad rhai o'r cynhyrchion hyn gefnogi troseddau ariannol a gall diffyg tryloywder a goruchwyliaeth achosi niwed i uniondeb y farchnad.

Ym mis Hydref 2018 fe wnaethom ni, ynghyd â Banc Lloegr a'r Trysorlys, gyhoeddi adroddiad ar bolisi a dulliau rheoleiddio'r DU yng nghyswllt crypto-asedau, a oedd hefyd yn trafod y cyfleoedd a'r risgiau cysylltiedig â chrypto-asedau a thechnoleg cyfriflyfr gwasgaredig (DLT).

Rydym hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda Thasglu Crypto-asedau'r DU a'r Trysorlys ar eu hymgynghoriad ynghylch crypto-asedau heb eu rheoleiddio, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod tymor yr hydref 2019. Rydym hefyd yn parhau i gymryd rhan mewn trafodaethau yn yr UE ac yn rhyngwladol ynghylch rheoleiddio crypto-asedau yn y dyfodol.

## Canlyniadau a monitro newid

Ym mis Ebrill 2019, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ar Effaith ac Effeithiolrwydd ein rhaglen Innovate. Roedd hwn yn rhoi crynodeb o dystiolaeth a oedd yn awgrymu bod ein gwaith yn rhoi'r sicrwydd rheoleiddiol i gwmnïau er mwyn datblygu eu mentrau a'u darparu yn gyflym, yn gwella canlyniadau i ddefnyddwyr, ac yn annog arloesi cadarnhaol yn y wlad hon ac yn rhyngwladol.

Ers y lansiad, rydym wedi rhoi cymorth i bron i 700 o gwmnïau. Mae tystiolaeth yn awgrymu ein bod yn cael effaith gadarnhaol ar faint o amser mae'n ei gymryd i gwmnïau gyrraedd y farchnad. Er enghraifft, mae'r amser mae'n ei gymryd i wneud penderfyniad ynghylch ceisiadau awdurdodi gan y cwmnïau rydym yn eu helpu wedi lleihau bron i 40%.

Rydym yn dechrau gweld bod y gwaith rydym yn ei wneud yn gwella canlyniadau i ddefnyddwyr. Er enghraifft, mae'r 5 cwmni a gafodd gymorth drwy'r rhaglen Innovate wedi mynd ymlaen i lansio modelau robo-gyngor yn y farchnad. Er bod y broses o ddatblygu modelau robo-gyngor yn gymharol araf, rydym o'r farn bod ganddynt y potensial i ddarparu cyngor addas a chost isel ar raddfa sylweddol yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Rydym yn disgwyl y bydd modd i ni ddod i gasgliadau cliriach ynglŷn ag effaith Innovate wrth i ni dreulio mwy o amser yn y farchnad ac wrth i'r sylfaen dystiolaeth dyfu. Ond rydym wedi nodi ffyrdd o wneud mwy nawr i ehangu ein gallu o ran asesu. Byddwn yn ehangu'r wybodaeth a gasglwn gan gwmnïau rydym yn eu helpu, ac yn ehangu sut rydym yn monitro eu cynnydd dros amser yn ffurfiol. Dylai hyn ganiatáu i ni wneud cymariaethau cliriach â chwmnïau tebyg nad ydynt yn cael cymorth gennym.

Rydym wedi gweld amryw o gwmnïau crypto-asedau gwahanol yn gofyn am gymorth Innovate drwy'r Blwch Tywod Rheoleiddiol a'n swyddogaeth Cymorth Uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys cwmnïau sy'n defnyddio crypto-asedau i hwyluso taliadau trawsffiniol a'r rheini sy'n canolbwyntio ar gyflwyno ecwiti a dyled dangosol. Mae llawer o'r modelau busnes cysylltiedig â chrypto-asedau rydym yn eu gweld yn mynd yn fwyfwy cymhleth.

Does dim gwybodaeth ddibynadwy am y farchnad ar gael eto. Ond mae ein hymchwil a'n hymgysylltu yn awgrymu bod pencadlys tua 15 o fannau cyfnewid crypto-asedau yn y DU, allan o farchnad fyd-eang o 231. Mae'r symiau cyfnewid dyddiol cyfun yn y DU yn tua 1% o swm y crypto-asedau sy'n cael eu cyfnewid yn fyd-eang. Dim ond nifer bach o gwmnïau rydym wedi'u hawdurdodi hyd yn hyn ac rydym yn gweithio gyda llawer mwy sydd eisiau cael eu hawdurdodi ar gyfer amryw o weithgareddau rheoledig. Mae data o'n Canolfan Gyswllt yn dangos bod nifer yr ymholiadau rydym yn eu cael ynglŷn â chrypto-asedau wedi bod yn cynyddu'n gyson ers mis Mai 2018, gyda'r rhan fwyaf o'r rheini yn ymwneud â sgamiau.

Roedd Tasglu Crypto-asedau'r DU yn nodi 3 niwed mawr posibl yn sgil crypto-asedau – sef niwed i uniondeb y farchnad, troseddau ariannol a niwed i ddefnyddwyr. Ers hynny, rydym wedi cyhoeddi ymchwil sy'n ategu'r mathau o niwed hyn yn unigol, ond wedi newid ein safbwyntiau ynghylch graddfa'r niwed. Gan gydnabod maint cymharol fach y sampl, dim ond 3% o'r rheini a gafodd eu harolygu oedd wedi prynu crypto-arian ac roedd hanner y rheini oedd wedi prynu crypto-asedau wedi gwario llai na £200. Gwelsom fod defnyddwyr a oedd wedi prynu neu ymchwilio i grypto-asedau yn gweld hyn fel llwybr byr tuag at gyfoeth ac arian hawdd. Gwelsom na wnaeth 1 o bob 5 defnyddiwr wneud unrhyw ymchwil cyn prynu crypto-asedau. Byddwn hefyd yn ymgynghori yn ystod haf 2019 ynghylch gwaharddiad posibl ar werthu, dosbarthu a marchnata cynnyrch deilliadol defnyddwyr adwerthu, sy'n cyfeirio at fathau penodol o grypto-asedau. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal gwaith, gan gynnwys casglu data gan gwmnïau a chynnal dadansoddiad cost a budd, er mwyn asesu lefel y niwed posibl fyddai'n deillio o gwmnïau'r DU yn cynnig y cynhyrchion hyn i ddefnyddwyr adwerthu. Byddwn yn cyhoeddi'r dadansoddiad hwn fel rhan o'n papur ymgynghori.

# Trin cwsmeriaid presennol

Dylai cwsmeriaid presennol, yn ogystal â rhai newydd, fwynhau'r buddiannau sy'n dod yn sgil cystadleuaeth ac arloesedd. Dylai'r holl gwsmeriaid gael digon o wybodaeth am y cynnyrch maen nhw wedi'i brynu neu fuddsoddi ynddo, gan gynnwys perfformiad a chostau. Ein bwriad yw nodi sefyllfaoedd lle caiff cwsmeriaid presennol yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoli eu trin yn wahanol i gwsmeriaid newydd, a mynd i'r afael ag unrhyw niwed sy'n deillio o hynny.

Mae cystadleuaeth effeithiol yn dibynnu ar ddefnyddwyr sy'n ymateb i ansawdd a gwerth cynhyrchion, a darparwyr sy'n cystadlu o ganlyniad. Ni ddylai cwsmeriaid presennol fod o dan anfantais sy'n golygu cael gwasanaeth gwaeth neu dalu costau uwch.

Rydym wedi gweld nifer o gwmnïau yn gwneud cynnydd drwy sicrhau bod cwsmeriaid yn rhan fwy creiddiol o'u busnes. Fodd bynnag, ar draws nifer o wasanaethau hanfodol, mae defnyddwyr yn aml yn cael eu cosbi am fod yn ffyddlon. Mae digonedd o waith i'w wneud i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg ac yn gyson yn y tymor hir.

## Deall arferion prisio cwmnïau o ran yswiriant adwerthu cyffredinol

Ein nod yw sicrhau cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd yswiriant adwerthu cyffredinol er budd yr holl gwsmeriaid, a bod cwmnïau'n mabwysiadu arferion prisio teg.

Fe wnaethom gwblhau ein gwaith goruchwylio ar arferion prisio yswiriant cyffredinol a chyhoeddi ein canfyddiadau ym mis Hydref 2018.

Gwelsom fod pobl sy'n aros gyda'u darparwr yswiriant cartref am fwy o amser yn tueddu i dalu llawer mwy na chwsmeriaid mwy newydd sydd â risgiau tebyg. Mae hyn yn digwydd hyd yn oed pan mae'r costau a'r risgiau cysylltiedig â darparu yswiriant cartref yr un fath i'r ddau grŵp . Gall hyn achosi niwed sylweddol a chanlyniadau gwael i ddefnyddwyr.

Fe wnaethom anfon llythyr at Brif Swyddogion Gweithredol yswiriwyr a chyfryngwyr perthnasol, gan bennu'r disgwyliad clir eu bod yn cymryd camau gweithredu yng nghyswllt y prif faterion a nodwyd yn ein gwaith.

I ddilyn hyn, rydym yn cynnal pecyn o waith i fynd i'r afael ag ymddygiad gwael cwmnïau unigol, ac astudiaeth o'r farchnad ynghylch arferion prisio yswiriant cyffredinol. Rydym yn gobeithio cyhoeddi ein hadroddiad terfynol yn Chwarter cyntaf 2020.

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ei ymateb i arch-gŵyn Cyngor ar Bopeth ynghylch prisiau ffyddlondeb. Roedd adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn cynnwys argymhelliad ein bod yn ymchwilio i arferion prisio yswiriant ac yn ystyried ymyriadau cysylltiedig â phrisiau sy'n rhoi cyfyngiad ar faint gall yswirwyr godi prisiau cwsmeriaid sy'n aros gyda nhw bob blwyddyn.

## Sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg

Rydym yn dal yn cadw llygad am gwmnïau sydd â systemau a rheolaethau gwael ac yn cymryd camau i atal methiannau. Gwneir hyn i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu diogelu'n briodol.

Fe wnaethom roi dirwy o £32,817,800 i Santander am fethu prosesu cyfrifon a buddsoddiadau cwsmeriaid wedi marw a throsglwyddo'r arian i fuddiolwyr pan dylai fod wedi gwneud hynny. Mae'r broses adfer er mwyn dychwelyd arian i gynrychiolwyr cwsmeriaid wedi cael ei chyflawni i raddau

helaeth erbyn hyn. Roedd yn cynnwys amcan o 40,428 o gwsmeriaid a fu farw yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr 1980 a 31 Rhagfyr 2014, a gwerth dros £183m o asedau.

## Rheoleiddio cwmnïau rheoli hawliadau

Ar 1 Ebrill 2019, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros reoleiddio cwmnïau rheoli hawliadau i ni. Er bod cwmnïau rheoleiddio hawliadau yn gallu helpu defnyddwyr sy'n amharod i gyflwyno hawliad eu hunain neu'n methu gwneud hynny, rydym wedi canfod efallai nad yw rhai cwmnïau yn gweithio er budd pennaf defnyddwyr.

Rydym wedi datblygu pecyn o wybodaeth ar gyfer cwmnïau rheoli hawliadau er mwyn sicrhau eu bod yn deall y rheolau a'r egwyddorion mae'n rhaid iddyn nhw lynu wrthynt. Ein nod yw sicrhau bod pobl yn ymddiried mewn cwmnïau rheoli hawliadau fel darparwyr gwasanaethau o ansawdd uchel sydd â gwerth da am arian ac yn helpu pobl i fynd ar drywydd hawliadau cyfreithiol i gael iawndal.

Roedd ein gwaith gyda chwmnïau rheoli hawliadau yn sicrhau bod ganddynt yr hawliau dros dro perthnasol i barhau i fasnachu ar ôl 1 Ebrill 2019, cyn gwneud cais am awdurdodiad yr FCA.

Ym mis Rhagfyr 2018, fe wnaethom gyhoeddi ein Datganiad Polisi i esbonio sut byddwn yn rheoleiddio cwmnïau rheoli hawliadau, gan gynnwys ymddygiad, rheolau a ffioedd.

## Asesu chwyddiant hawliadau mewn yswiriant cyffredinol

Fe wnaethom gynnal rhywfaint o waith diagnostig i asesu a yw broceriaid ac yswirwyr cerbydau yn chwyddo hawliadau drwy eu cyfeirio at gwmnïau rheoli hawliadau, a pheidio â phasio buddiannau'r gostyngiadau mewn swp a gafwyd drwy ddefnyddio eu hatgyweirwyr eu hunain. Ni wnaeth ein dadansoddiad o gyfradd hawliadau yswiriant cerbydau rhwng 2013 a 2018 nodi unrhyw broblemau ymarferol sy'n cyfiawnhau ymyrraeth ar hyn o bryd.

Mae cynnydd mewn premiymau cerbydau yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cael eu sbarduno'n bennaf gan gynnydd mewn Treth Premiymau Yswiriant, lefelau dwyn ceir a chostau atgyweirio. Yn fwy diweddar, rydym yn dechrau gweld rhywfaint o dystiolaeth y bydd premiymau cerbydau yn gostwng o ganlyniad i'r Ddeddf Atebolrwydd Sifil a byddwn yn parhau i fonitro data yn y maes hwn.

## Helpu cwsmeriaid i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch eu hanghenion o ran yswiriant

Ym mis Awst 2018, fe wnaethom gynhyrchu'r trydydd set o ddata o'n cyfnod prawf ar gyfer mesurau gwerth. Mae'r data mesurau gwerth yn rhoi dangosyddion i gwmnïau, sylwebyddion marchnadoedd, a sefydliadau fel grwpiau defnyddwyr ynghylch gwerth ar draws ystod o gynnyrch yswiriant.

Drwy gyhoeddi'r wybodaeth hon, ein bwriad yw creu cymhelliannau er mwyn i gwmnïau gystadlu ar elfennau o werth cynnyrch sy'n ehangach na'r pris yn unig, a gwella gwerth eu cynnyrch a'u gwasanaethau.

Fe wnaethom werthuso'r data a gasglwyd a gweld bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol o ran gwella tryloywder ac ymwybyddiaeth defnyddwyr o wahanol ddangosyddion ar gyfer gwerth cynnyrch.

Yn ystod Chwarter cyntaf 2019, fe wnaethom bennu ein cynigion i'w gwneud yn ofynnol bod cwmnïau yn rhoi data mesurau gwerth i ni yng nghyswllt Yswiriant Cyffredinol er mwyn eu cyhoeddi. Daeth y cyfnod ymgynghori hwn i ben ar 30 Ebrill 2019 a byddwn yn cyflwyno ein Datganiad Polisi yn ystod Haf 2019.

## Gwella cystadleuaeth o ran cyfrifon cyfredol

Ers mis Awst 2018, rydym wedi'i gwneud yn ofynnol bod darparwyr cyfrifon cyfredol yn cyhoeddi gwybodaeth safonol am wasanaethau. Dyluniwyd hyn er mwyn helpu defnyddwyr a busnesau bach i ddod o hyd i wasanaeth sy'n addas iddyn nhw, cael y gorau ohono, a chael cymorth os bydd pethau'n mynd o chwith. Bydd hefyd yn helpu eraill, fel gwasanaethau cymharu a'r cyfryngau, i gymharu cyfrifon cyfredol.

Fel rhan o'n Hadolygiad o Gredyd Cost Uchel, fe wnaethom ei gwneud yn ofynnol bod cwmnïau'n cofrestru i gael rhybuddion gorddrafft yn awtomatig er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth o ddefnyddio gorddrafft. Rydym hefyd wedi'i gwneud yn ofynnol bod cwmnïau'n darparu cyfrifianellau taliadau gorddrafft ac adnoddau cymhwysedd. Bydd yr adnoddau hyn yn caniatáu i gwsmeriaid wirio a allant fod yn gymwys i gael gorddrafft gyda darparwr arall a'i gwneud yn haws iddyn nhw siopa o gwmpas.

Yn dilyn ein hymchwil, mae banciau a chymdeithasau adeiladu hefyd wedi ymrwymo i ddarparu pecyn ehangach o gymhelliannau i annog defnyddwyr i ymgysylltu â'u cyfrif cyfredol, i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth newid, ac i dynnu sylw at ddatblygiadau yn y farchnad bancio adwerthu, er enghraifft, bancio agored.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi ein rheolau terfynol ynghylch gorddrafft er mwyn symleiddio'r broses prisio gorddrafft. Bydd y rhain yn sicrhau bod pris pob gorddrafft yn gyfradd llog sengl, syml y bydd cwmnïau'n eu hysbysebu mewn modd safonol. Gellir gweld rhagor o wybodaeth yn ein pennod ar Gredyd Cost Uchel.

## Rhoi mynediad at Ddulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaCh)

Yn fuan yn 2018 fe wnaethom ymgynghori ynghylch ymestyn Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol a'n rheolau ehangach i ddelio â chwynion drwy Ddulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod i Fusnesau Bach a Chanolig mwy. Fe wnaeth ein hymgynghoriad gydnabod, yn yr un modd â defnyddwyr unigol a microfentrau, fod y busnesau hyn hefyd yn ei chael yn anodd diogelu eu buddiannau mewn anghydfod â chwmnïau gwasanaethau ariannol.

Yn ogystal ag ymestyn ein nod o ran diogelu defnyddwyr, mae sicrhau bod y busnesau hyn yn cael safon cyffredin isaf o ran delio â chwynion yn helpu i hybu cystadleuaeth effeithiol.

Mae ein rheolau terfynol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, yn esbonio pwy fydd yn gymwys. Ers 1 Ebrill 2019, mae busnesau bach a chanolig sydd â throsiant blynyddol llai na £6.5m, a naill ai mantolen o dan £5m neu lai na 50 o gyflogeion, wedi gallu cyfeirio cwynion at yr Ombwdsmon. Mae elusennau ac ymddiriedolaethau mwy, yn ogystal â'r categori newydd 'gwarantwyr personol', hefyd yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth hwn.

## Cafodd materion ynghylch sut oedd Royal Bank of Scotland (RBS) yn trin cwsmeriaid mewn busnesau bach a chanolig eu trosglwyddo i'w Grŵp Ailstrwythuro Byd-eang

Ar ôl cyhoeddi ein crynodeb terfynol o'r adolygiad Pobl Fedrus i driniaeth cwsmeriaid BBaCh a drosglwyddwyd i'r Grŵp Strwythuro Byd-eang ym mis Tachwedd 2017, ac ar ôl i Bwyllgor Dethol y Trysorlys gyhoeddi'r adolygiad llawn ym mis Chwefror 2018 yn dilyn hynny, fe wnaethom lansio ymchwiliad fforensig a chynhwysfawr i'r pryderon difrifol a nodwyd yn yr adolygiad Pobl Fedrus i weld a fyddai modd cymryd unrhyw gamau gweithredu yn erbyn yr uwch reolwyr neu RBS ei hun. Fe wnaethom gyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn ym mis Gorffennaf 2018.

Nid oedd busnes y Grŵp Ailstrwythuro Byd-eang yn cael ei reoleiddio i raddau helaeth ac roedd ein pwerau i gymryd camau gweithredu, hyd yn oed pan oeddem wedi canfod a derbyn bod cwsmeriaid yn cael eu cam-drin, yn gyfyngedig iawn. O ganlyniad i hynny, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth yn ofalus ac ymgynghori â chyfreithwyr annibynnol ac allanol blaenllaw, daethom i'r casgliad nad oedd ein pwerau i gosbi am gamdriniaeth yn berthnasol, ac na fyddai gweithredu yng nghyswllt diffyg cymhwysedd a phriodoldeb uwch reolwyr ddim yn llwyddo i raddau rhesymol.

Rydym yn cydnabod budd sylweddol y cyhoedd yn y Grŵp Strwythuro Byd-eang ac, yn yr wybodaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018, fe wnaethom ymrwymo i gyhoeddi cyfrif mwy llawn o'n hymchwiliad lle bo'r gyfraith yn caniatáu ac ar ôl cynnal proses "Maxwelleiddio" yng nghyswllt unigolyn perthnasol. Cafodd y cyfrif llawnach hwn o'n hymchwiliad i gamymddygiad posibl yr unigolion a oedd yn rhan o'r Grŵp Ailstrwythuro Byd-eang ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2019.

Nid yw'r ffaith na allwn gymryd camau gweithredu yn golygu ein bod yn esgusodi ymddygiad RBS mewn unrhyw ffordd. Rydym yn disgwyl safonau uchel gan y cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio ac roedd RBS yn bell o gyrraedd y nod o ran y ffordd roedd yn trin cwsmeriaid y Grŵp Ailstrwythuro Byd-eang. Rydym yn teimlo'n gryf bod rhaid i'r cwmnïau sydd ar eu colled o ganlyniad i sut cawsant eu trin tra oeddent yn rhan o'r Grŵp Ailstrwythuro Byd-eang, gael iawndal priodol. Rydym yn parhau i fonitro'r broses gwyno yn agos er mwyn sicrhau bod pethau'n cael eu hunioni, ac mae'n cael ei goruchwylio gan drydydd parti annibynnol.

Er nad ni sy'n rheoleiddio benthyca masnachol i fusnesau bach a chanolig, mae'r Gyfundrefn Uwch Reolwyr a ddaeth i rym yn 2016 wedi gwella sut gallwn ddal uwch reolwyr banciau i gyfrif am eu hymddygiad yng nghyswllt gweithgareddau anrheoledig eu cwmni.

## Cystadleuaeth yn y farchnad cynilion arian parod

Rydym yn bryderus nad yw cystadleuaeth yn gweithio'n dda yn y farchnad cynilion arian parod. Mae hyn yn wir yn enwedig i ddefnyddwyr sy'n aros â'r un darparwr am amser hir, ac yn cael cyfraddau llog llai na'r rheini sy'n siopa o gwmpas yn gyffredinol.

Roedd ein Papur Trafod, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018, yn gofyn am adborth ar amryw o opsiynau i fynd i'r afael â'r niwed hwn. Mae hyn yn cynnwys a ddylem ymyrryd yn uniongyrchol yn sut mae cwmnïau'n dylunio ac yn prisio cynnyrch, fel cyflwyno cyfradd arbed sylfaenol.

Cafodd y pryderon yn ein Papur Trafod eu hadleisio gan arch-gwyn Cyngor ar Bopeth i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ynglŷn â'r gosb ffyddlondeb. Mewn ymateb, fe wnaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd gynnig argymhellion i ni, a oedd yn cynnwys gwaith pellach ar y gyfradd gynilo sylfaenol a pha mor ymarferol fyddai ymestyn Bancio Agored i gynilion a newid cyflenwr ar y cyd.

## Canlyniadau a monitro newid

Mae nifer o gamau unioni i wella cystadleuaeth mewn cyfrifon cyfredol wedi cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys lansio PSD2 a Bancio Agored ym mis Ionawr 2018. Mae cwmnïau wedi cyflwyno technolegau newydd ac mae cwmnïau digidol newydd yn dod i mewn i'r farchnad, gan gynnig mwy o ddewis i gwsmeriaid a gwell mynediad at wybodaeth. Ond tra mae rhai ymgeiswyr digidol newydd wedi cael llawer iawn o gyfrifon cwsmeriaid newydd, does dim arwyddion clir o gynnydd sylweddol yn nifer y cwsmeriaid sy'n chwilio am opsiynau gwell ac yn mynd amdanynt, yn enwedig ar gyfer prif gyfrifon banc.

Mae'r data newid cyflenwr gan y gwasanaeth newid darparwr cyfrif cyfredol yn dangos, yn y 12 mis rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2018, fod 929,070 o gyfrifon cyfredol wedi cael eu symud, o gymharu â 931,956 yn 2017.

Mae astudiaeth debyg o symud cyfrifon gan IPSOS-Mori[1] yn dangos bod 3.5% o gwsmeriaid cyfrifon cyfredol wedi symud cyfrifon yn ystod y 12 mis yn arwain at fis Rhagfyr 2018, dim ond cynnydd bach o'i gymharu â'r 3.2% a symudodd eu cyfrif yn y cyfnod cyfatebol blaenorol.

Yn gyffredinol, mae'r data sydd ar gael yn awgrymu nad yw'r gyfradd newid wedi gwella. Fodd bynnag, mae'r newidiadau diweddar, gan gynnwys cyhoeddi metrigau gwasanaethau a chydymffurfio â Bancio Agored, yn gwthio banciau adwerthu mwy i wella eu gwasanaethau a chynnig gwell gwybodaeth a chynnyrch eglur i gwsmeriaid.

Ar gyfer cystadlaethau mewn cynilion arian parod, fe wnaeth ein Harolwg Bywydau Ariannol yn 2017 ganfod bod 45% o gwsmeriaid wedi bod â'r un cyfrif cynilo ers dros 5 mlynedd. Yn ystod y tair blynedd flaenorol, dim ond 9% o gwsmeriaid oedd wedi newid darparwr cynilion arian parod, a dim ond 10% oedd wedi newid darparwr ISA arian parod. Wrth i ni symud ymlaen i gam nesaf ein gwaith yng nghyswllt cynilion arian parod, byddwn yn parhau i ddefnyddio Arolygon Bywydau Ariannol i fonitro'r cyfraddau newid hyn. Byddwn hefyd yn defnyddio data o Dueddiadau Cynilo Moneyfacts UK i fonitro nifer a chanran y cyfrifon cynilo arian parod sy'n talu mwy na'r gyfradd sylfaenol, yn ogystal â'r gyfradd fyw gyfartalog yn erbyn y gyfradd cau gyfartalog. Byddwn yn defnyddio cyfraddau llog uwch ar gyfrifon wedi cau fel un dangosydd sy'n awgrymu y gallai'r niwed i ddefnyddwyr fod yn lleihau.

Ym mis Ionawr 2019, fe wnaethom ymgynghori ynghylch rheolau sy'n ei gwneud yn ofynnol bod cwmnïau Yswiriant Cyffredinol yn cofnodi ac yn cyhoeddi data mesurau gwerth. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn dilyn ein cyfnod prawf, a gafodd effaith gadarnhaol ar uwch reolwyr cwmnïau drwy ddefnyddio'r data i asesu gwerth eu cynnyrch a gwneud gwelliannau. Rydym yn disgwyl y bydd cyhoeddi'r data mesurau gwerth yn gwella tryloywder a chystadleuaeth yn y farchnad. Dylai hefyd barhau i annog cwmnïau i wella'u cynnyrch a rhoi adnodd ychwanegol i ni er mwyn helpu i oruchwylio cwmnïau.

Yng nghyswllt chwyddiant hawliadau, rydym wedi gweld bod y cynnydd mewn premiymau cerbydau yn ddiweddar wedi cael ei sbarduno'n bennaf gan gynnydd mewn Treth Premiymau Yswiriant, lefelau dwyn ceir a chostau atgyweirio. Yn fwy diweddar, rydym yn dechrau gweld tystiolaeth gyfyngedig y gallai premiymau cerbydau fod yn lleihau o ganlyniad i'r Ddeddf Atebolrwydd Sifil. Byddwn yn parhau i fonitro data yn y maes hwn.

Daeth ein rheolau ynghylch ymestyn mynediad i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol i 200,000 yn fwy o fusnesau bach a chanolig i rym ym mis Ebrill 2019. Rydym yn bwriadu dechrau ein hadolygiad ôl-weithredu o'n rheolau newydd erbyn mis Ebrill 2021, er mwyn asesu canlyniadau i ddefnyddwyr. Yn ystod haf 2019, byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad dros dro o'n hastudiaeth o'r farchnad yng nghyswllt arferion prisio darparwyr yswiriant cartref a cherbydau. Bydd hyn yn asesu graddfa bresennol y niwed i ddefnyddwyr sy'n deillio o arferion prisio a datblygiadau yn y farchnad.

Fe wnaethom gwblhau'r broses o drosglwyddo rheoliadau rheoli hawliadau ar 1 Ebrill 2019. Fe wnaeth 953 o gwmnïau rheoli hawliadau gofrestru am Ganiatâd Dros Dro, a oedd yn uwch na'r disgwyl ac yn cynrychioli'r mwyafrif helaeth o gwmnïau gweithredol yn y farchnad. Mae ein hadran cwmnïau rheoli hawliadau yn gwbl weithredol ac yn ymweld â chwmnïau i ymchwilio i faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad. Byddwn yn monitro ein cynnydd yn erbyn ein gweledigaeth ar gyfer y sector cwmnïau rheoli hawliadau drwy ganlyniadau ein hasesiadau awdurdodi a'n gweithgarwch goruchwylio (gan gynnwys gwaith aml-gwmni). Byddwn hefyd yn defnyddio'r Arolwg Bywydau Ariannol, sy'n casglu gwybodaeth am ymgysylltu â defnyddwyr a chanfyddiadau cwmnïau rheoli hawliadau.

1 Arolwg Ymchwil Ariannol IPSOS MORI ar gyfer y chwe mis tan fis Rhagfyr 2017 (sylfaen: 30 139) a mis Rhagfyr 2018 (sylfaen: 30 362).

# Cynilion tymor hir, pensiynau a gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau

Mae newidiadau ym mhoblogaeth y DU a'i hanghenion ariannol yn effeithio ar gynilion tymor hir, pensiynau a gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau.

Mae ein gwaith mewn sectorau, gan gynnwys Pensiynau ac incwm ymddeoliad, Bancio adwerthu, Diogelwch ac yswiriant a cyffredinol, a Benthyca adwerthu yn dangos bod rhai defnyddwyr yn wynebu niwed posibl yn sgil anghenion ariannol heb eu diwallu. Mae cynnydd cyffredinol mewn parhad, anhawster wrth ddatblygu asedau a chyfraddau llog isel parhaus, wedi golygu bod llawer yn methu bodloni eu disgwyliadau o gynilion ymddeol digonol.

Does dim atebion hawdd ar gyfer y materion hyn; mae ein gwaith yn canolbwyntio ar yr ymyriadau y gallwn eu gwneud a fydd yn cael yr effaith fwyaf.

## Adolygiad o Ganlyniadau Ymddeol

Mae ein Hadolygiad o Ganlyniadau Ymddeol wedi bod yn edrych ar sut mae'r farchnad incwm ymddeol yn newid ers cyflwyno'r rhyddid pensiwn ym mis Ebrill 2015. Ym mis Mehefin 2018, fe wnaethom gyhoeddi ein canfyddiadau terfynol.

Fe wnaethom ganfod bod y farchnad hon yn dal yn esblygu a bod cwmnïau a defnyddwyr yn parhau i addasu i'r rhyddidau. Er bod llawer o ddefnyddwyr wedi'u croesawu, mae'r rhyddidau'n golygu bod angen i bobl wneud penderfyniadau mwy cymhleth ynghylch ymddeol nag o'r blaen. Fe wnaethom ganfod bod angen mwy o gymorth a diogelwch ar ddefnyddwyr na maen nhw'n ei gael ar hyn o bryd, ac nad yw'r gystadleuaeth yn gweithio'n dda i rai ohonynt.

Fe wnaethom anfon pecyn o gamau unioni arfaethedig i fynd i'r afael â'r niwed a'r materion sy'n dod i'r amlwg, a rhoi sylfaen dda i'r farchnad ar gyfer y dyfodol. Ym mis Ionawr 2019, fel rhan o'r pecyn hwn, fe wnaethom gwblhau ein rheolau a'n canllawiau terfynol er mwyn gwella'r wybodaeth mae defnyddwyr yn ei chael am eu cynnyrch pensiynau ac incwm ymddeoliad. Mae hyn yn cynnwys newidiadau sy'n gwneud costau cynnyrch tynnu i lawr yn gliriach ac yn haws eu cymharu.

Ar yr un pryd, fe wnaethom ymgynghori ynghylch agweddau pellach ar ein pecyn o gamau unioni. Roedd hyn yn cynnwys ein cynigion a oedd yn ei gwneud yn ofynnol bod cwmnïau'n cynnig amrywiaeth o atebion buddsoddi i'w cwsmeriaid tynnu i lawr – gydag opsiynau wedi'u dylunio'n ofalus – i'w helpu i ddewis buddsoddiadau sy'n bodloni eu hamcanion. Fe wnaethom ddisgrifio'r rhain fel 'llwybrau buddsoddi'. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ebrill 2019, ac rydym yn gobeithio cyhoeddi'r rheolau a'r canllawiau terfynol ym mis Gorffennaf.

## Cyngor anaddas ynghylch trosglwyddo pensiynau

Rydym wedi parhau i flaenoriaethu cyngor ynghylch pensiynau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan ganolbwyntio ar y cwmnïau mwyaf gweithredol yn y farchnad. Rydym hefyd wedi edrych yn agos ar rai cwmnïau ar sail yr wybodaeth a gawsom (er enghraifft, chwythu'r chwiban).

Roedden ni'n siomedig o weld mai dim ond tua hanner y cyngor a adolygwyd gennym oedd yn addas. Mae ein canfyddiadau, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, yn seiliedig ar y cwmnïau mwyaf gweithredol, ac felly nid ydynt yn cynrychioli'r farchnad gyfan. Fodd bynnag, rydym yn bryderus bod rhai cwmnïau, er gwaethaf ein hadborth i'r sector, yn dal yn peidio â rhoi cyngor addas yn gyson.

Rydym yn disgwyl i bob cwmni fynd ati'n brydlon i gymryd camau i adolygu eu hagwedd tuag at gyngor trosglwyddo pensiwn er mwyn sicrhau nad yw'n achosi niwed i gwsmeriaid.

Yn ddiweddar, rydym wedi cael data gan bob cwmni sy'n rhoi cyngor ynghylch trosglwyddo buddiannau pensiwn penodedig. Mae hyn wedi rhoi darlun cyflawn i ni o'r farchnad o 2015 hyd heddiw. Byddwn yn cynnal rhaglen helaeth o weithgareddau gyda chwmnïau.

### Cynilion digonol ar gyfer ymddeol

Rydym yn cynnal ymchwil ar lefelau cynilion ar gyfer ymddeol. Fe wnaethom gyhoeddi nodyn ymchwil byr ym mis Mai 2019 sy'n canolbwyntio ar y dosbarthiad cyfoeth presennol ym Mhrydain a beth mae hynny'n ei ddweud wrthym ni am ba mor barod yw pobl ar gyfer eu hymddeoliad.

### Cystadleuaeth effeithiol mewn pensiynau heb fod yn y gweithle

Ym mis Chwefror 2018, fe wnaethom gyhoeddi papur trafod ar gystadleuaeth effeithiol mewn pensiynau heb fod yn y gweithle (preifat). Rydym wedi gohirio cyhoeddi ein Datganiad Adborth tan haf 2019.

Bydd y Datganiad yn rhoi adborth ar themâu'r ymatebion, yn ogystal â chanfyddiadau ein gwaith casglu data ac ymchwilio i ddefnyddwyr. Os bydd y dystiolaeth yn dangos niwed i ddefnyddwyr mewn pensiynau heb fod yn y gweithle, byddwn yn ymgynghori â nhw ynghylch cynigion i unioni hyn.

## Canlyniadau a monitro newid

Rydym ni, ynghyd â'r Rheolydd Pensiynau, wedi canfod y posibilrwydd bod pobl nad oes ganddynt incwm digonol ar ôl ymddeol yn achosi niwed yn y sector pensiynau ac incwm ymddeoliad. Mae ein hymchwil i ddigonolrwydd cynilion yn dangos bod faint mae pobl wedi paratoi i ymddeol yn ddarlun cymysg. Er gall y rhan fwyaf o unigolion mwy cyfoethog ddisgwyl ymddeoliad mwy gweddus neu gyfforddus, mae o leiaf hanner yr unigolion mwy tlawd yn debygol o fod yn ddibynnol ar fudd-daliadau a phensiwn y wladwriaeth. Rydym yn ystyried cynnal mwy o ymchwil i hyn yn y dyfodol.

Mae ein Hadolygiad o Ganlyniadau Ymddeol wedi rhoi darlun clir o sut mae'r farchnad yn newid ers cyflwyno rhyddidau pensiwn a sut gallwn ymyrryd er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i ddefnyddwyr. Fe wnaeth ein hastudiaeth ganfod bod tua thraean y defnyddwyr nad ydynt yn cymryd cyngor am dynnu i lawr yn buddsoddi mewn arian parod yn llwyr a bod dros hanner y rhain mewn perygl o fod ar eu colled o ganlyniad i hyn.

Mae llawer o'n camau unioni ni wrthi'n cael eu rhoi ar waith a byddwn yn parhau i fonitro'r farchnad dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf er mwyn asesu pa mor effeithiol ydynt. Er enghraifft, bydd ein rheolau terfynol ar lwybrau buddsoddi yn cael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf. Byddwn yn asesu a yw cwmnïau wedi rhoi llwybrau buddsoddi ar waith yn ôl eu bwriad ac, yn ein hadolygiad ôl-weithredu, byddwn yn cynnal dadansoddiad i ddeall a yw cwsmeriaid tynnu i lawr nad ydynt wedi cael cyngor yn gwneud y gorau o'u hincwm ymddeol drwy wneud penderfyniadau buddsoddi sy'n cyd-fynd â'u hamcanion.

Mae pensiynau heb fod yn y gweithle yn rhan bwysig o sut mae pobl yn cynilo ar gyfer eu hymddeoliad. Mae gan o leiaf 1 o bob 4 oedolyn fuddiannau wedi cronni mewn pensiwn heb fod yn y gweithle, sy'n cynrychioli asedau o oddeutu £400bn. Rydym wedi casglu adborth gan gwsmeriaid a chwmnïau er mwyn deall y farchnad pensiynau heb fod yn y gweithle yn well ac rydym yn y broses o ddadansoddi hyn. Bydd hyn yn caniatáu i ni edrych ar ymgysylltiad

defnyddwyr, cymhlethdod prisio a chyflymder newid cyflenwr, a'r effaith mae hyn yn ei chael ar allu defnyddwyr i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth a chreu pwysau cystadleuol yn y farchnad, pe baem yn penderfynu rhoi mesurau unioni er waith i fynd i'r afael â niwed i gwsmeriaid neu gryfhau pwysau cystadleuol. Byddai rhan o'n pecyn unioni yn cynnwys ymrwymiad i ystyried i ba raddau oedd ymyriadau yn newid canlyniadau yn y farchnad ac i ba raddau mae unrhyw niwed i ddefnyddwyr a nodwyd wedi cael ei leihau.

Drwy gydol 2019/20 byddwn yn cynnal rhaglen genedlaethol o ymgysylltu â chwmnïau er mwyn cael darlun mwy cyflawn o addasrwydd ledled y farchnad. Gan ddefnyddio hyn, byddwn yn asesu sut mae cwmnïau wedi ymateb i adborth o brosiectau goruchwylio blaenorol a newidiadau diweddar i reolau a chanllawiau, ac yn monitro cyfran yr achosion addas ledled y rhaglen.

# Credyd cost uchel

Mae dros 3 miliwn o bobl yn y DU yn defnyddio credyd cost uchel, ac mae rhai ohonynt ymhlith y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae miliynau yn fwy yn defnyddio gorddrafft. Mae'r niwed yn sgil cynnyrch credyd cost uchel yn tueddu i gael effaith anghymesur ar ddefnyddwyr agored i niwed.

Rydym eisoes wedi cael effaith arwyddocaol ar y sector credyd cost uchel, yn bennaf y terfyn ar gredyd cost uchel, tymor byr, a oedd yn arbed £150m y flwyddyn i ddefnyddwyr. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi datblygu pecyn cynhwysfawr o fesurau unioni i wella diogelwch defnyddwyr ar gyfer y miliynau o bobl sy'n defnyddio mathau gwahanol o gredyd cost uchel, gan gynnwys gorddrafft.

## Rhentu i brynu

Fe wnaethom bennu rheolau ar gyfer terfyn prisiau yn y farchnad rhentu i brynu er mwyn lleihau'r niwed i gwsmeriaid agored i niwed yn sgil prisiau uchel. Fe wnaethom gyflwyno'r terfyn ym mis Ebrill 2019.

Bydd y terfyn ar y cynhyrchion hyn yn rheoli prisiau drwy gyfyngu cost y cynnyrch a'r tâl am gredyd. O dan y terfyn, ni all costau credyd fod yn fwy na chost y cynnyrch. Mae hefyd yn ofynnol bod cwmnïau rhentu i brynu yn meincnodi cost cynnyrch yn erbyn y prisiau a godwyd gan 3 adwerthwr arall.

Bydd y rheolau hyn hefyd yn atal cwmnïau rhag codi eu prisiau ar gyfer premiymau yswiriant, gwarantau estynedig neu daliadau ôl-ddyledion fel ffordd o adfer refeniw a gollwyd o'r terfyn prisiau.

Rydym hefyd wedi cyflwyno rheolau i atal cwmnïau rhag gwerthu gwarantau estynedig ar yr un pryd â'r cynnyrch rhentu i brynu, gan roi mwy o amser i ddefnyddwyr benderfynu a oes eisiau'r gwasanaethau ychwanegol hyn arnyn nhw.

## Credyd a gesglir gartref

Fe wnaethom nodi bod rhai dulliau ailgyllido yn y farchnad credyd a gesglir gartref yn arwain at ddefnyddwyr yn talu llawer mwy na fyddent pe baent yn cael benthyciad ar wahân. Bwriad ein newidiadau, a gafodd eu gwneud yn derfynol ym mis 2018, yw rhoi mwy o reolaeth i ddefnyddwyr o ran a ddylid trafod benthyca newydd neu ychwanegol er mwyn sicrhau bod unrhyw fenthyca a ailadroddir yn cael ei arwain gan ddefnyddwyr ac yn eu helpu i ddeall eu hopsiynau'n llawn, a'u bod felly'n dewis cynnyrch credyd sy'n diwallu eu hanghenion.

Rydym yn disgwyl i'r newidiadau hyn arwain at arferion gwerthu gwell, llai o gostau cudd i gwsmeriaid, a diogelwch yn erbyn benthyca dro ar ôl tro, sy'n niweidiol.

## Cyllid manwerthu

Fe wnaethom nodi pryderon am gredyd catalog a chardiau siopau sy'n peri gofid ariannol oedd yn debyg i'r rheini roeddem eisoes wedi mynd i'r afael â nhw ar gyfer cardiau credyd. Roedd y rhain yn cynnwys a yw defnyddwyr yn deall y cynhyrchion cymhleth hyn, pa ffioedd a chostau y gellir eu codi arnynt a phryd y gellir codi'r rhain. Rydym hefyd wedi nodi niwed yn sgil diffyg rheolaeth cwsmeriaid dros gynyddu terfynau credyd, a diffyg diogelwch i ddefnyddwyr sydd mewn perygl o wynebu anawsterau a phroblemau yng nghyswllt dyledion cyson.

Mae ein rheolau newydd wedi'u dylunio i wella dealltwriaeth defnyddwyr o gynnyrch a phryd i wneud taliadau er mwyn osgoi costau. Byddant hefyd yn cyflwyno mesurau diogelwch cryfach i ddefnyddwyr sydd â dyled tymor hwy yng nghyswllt y cynnyrch yma ac yn wynebu anawsterau ariannol neu mewn perygl o hynny.

Mae ein rheolau newydd yng nghyswllt cynigion Prynu Nawr Talu Wedyn yn rhoi gwell gwybodaeth am y cynigion hyn ac yn atal cwmnïau rhag codi llog wedi'i ôl-ddyddio ar symiau mae cwsmeriaid eisoes wedi'u had-dalu yn ystod cyfnod y cynnig.

## Gorddrafftiau

Fe wnaethom ganfod niwed – yn enwedig i gwsmeriaid agored i niwed – yn sgil baich anghymesur costau uchel a defnyddio gorddrafft dro ar ôl tro. Bwriad ein pecyn o newidiadau arfaethedig i orddrafft yw lleihau'r niwed hwn.

Bydd ein rheolau newydd yn gwneud newidiadau radical i'r ffyrdd mae banciau a chymdeithasau adeiladu yn codi am orddrafft. Mae'r newidiadau yn sylweddol ac yn amrywio'n helaeth, ac maent wedi cael eu llywio gan ganlyniadau ein Hadolygiad Strategol o Fodelau Busnes Bancio Adwerthu.

Mae'r pecyn o fesurau unioni rydym wedi'u cyflwyno yn cynnwys:

- atal cwmnïau rhag codi prisiau uwch pan fydd cwsmeriaid yn defnyddio gorddrafft heb ei drefnu yn hytrach nag un wedi'i drefnu
- gwahardd y rhan fwyaf o ffioedd sefydlog am fenthyca drwy orddrafft
- symleiddio prisiau gorddrafft – sicrhau bod pris pob gorddrafft yn gyfradd llog sengl, syml – dim ffioedd dyddiol neu fisol sefydlog
- ei gwneud yn ofynnol bod cwmnïau'n hysbysebu prisiau gorddrafft wedi'u trefnu mewn modd safonol, gan gynnwys APR

## Dewisiadau eraill i gredyd cost uchel

Rhan hanfodol o'n gwaith ar gredyd cost uwch yw ein hymrwymiad i helpu i gynyddu argaeledd ac ymwybyddiaeth o'r ddau opsiwn credyd is, yn ogystal ag opsiynau di-gredyd eraill sy'n diwallu anghenion sylfaenol defnyddwyr, mewn nwyddau tŷ hanfodol penodol.

Fe wnaethom bennu ein dull yn fanwl ym mis Tachwedd mewn Papur Ymgynghori (CP18/35). Roedd hwn yn cynnwys y camau rydym yn eu cymryd, a sut rydym yn gweithio gyda'r Llywodraeth, y sector preifat a'r sector nid-er-elw i gefnogi eu mentrau ar opsiynau gwahanol i gredyd cost uchel. Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn ym mis Gorffennaf 2019.

## Canlyniadau a monitro newid

Mae ein hadolygiad o gredyd cost uchel wedi rhoi trosolwg clir i ni o sut mae'r farchnad yn gweithredu ac yn newid, ac mae wedi'n galluogi ni i ymyrryd yn y meysydd lle gallwn gael yr effaith fwyaf.

Mae llawer o'n hymyriadau ni yn ystod eu camau cynnar ar hyn o bryd a byddwn yn parhau i fonitro'r farchnad dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf er mwyn asesu pa mor effeithiol ydynt. Er enghraifft, fe wnaethom gyflwyno ein terfyn prisiau ar gyfer y farchnad rhentu i brynu ym mis Ebrill 2019 a byddwn yn defnyddio ein hymweliadau â chwmnïau i fonitro bod y terfyn hwnnw wedi cael ei roi ar waith yn iawn. Yn 2020, byddwn yn cynnal dadansoddiad i adolygu pa mor dda mae'r terfyn prisiau'n gweithio ac i ba raddau mae prisiau tecach wedi lleihau costau ar gyfer cwsmeriaid rhentu i brynu, yn erbyn ein hamcangyfrif y gallai'r terfyn rhentu i brynu gyflawni budd net rhwng £19.6m a £22.7m y flwyddyn i ddefnyddwyr.

Fe wnaethom gyhoeddi ein rheolau terfynol ynghylch gorddrafft ym mis Mehefin 2019. Byddwn yn asesu a yw cwmnïau wedi cyflwyno strategaethau benthyca dro ar ôl tro sy'n mynd i'r afael â'n pryderon. Byddwn yn monitro effaith ein hymyriadau ar brisiau gorddrafft ac unrhyw newidiadau yn y prisiau hyn ar ôl i gwmnïau roi ein pecyn ar waith. Byddwn yn dechrau adolygiad manwl 12 mis ar ôl rhoi hyn ar waith yn llawn er mwyn deall effaith ein pecyn o fesurau unioni, gan gynnwys i ba raddau mae gorddrafft dro ar ôl tro niweidiol wedi cael ei leihau. Rydym yn amcangyfrif, o ganlyniad i'r camau unioni hyn, y gallai'r 30% o ddefnyddwyr Cyfrifon Cyfredol Personol sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y DU weld gostyngiad crynswth o tua £101m y flwyddyn mewn costau gorddrafft.

Rydym eisoes wedi adolygu effaith y terfyn prisiau ar gyfer credyd cost uchel tymor byr. Pan aethom ati i asesu'r terfyn hwn yn 2017, fe wnaethom ganfod bod defnyddwyr yn talu llai am fenthyciadau ac yn gallu eu had-dalu ar amser yn well. Roedd ein terfyn arian yn arbed tua £150m y flwyddyn i 760,000 o fenthycwyr ac yn lleihau'n sylweddol y benthyciadau i'r rheini nad ydynt yn gallu fforddio ad-dalu. Roedd llai o gwsmeriaid yn gofyn am gymorth gan elusennau oherwydd cynnyrch credyd cost uchel tymor byr, er bod rhai yn dal yn wynebu problemau o ran ad-dalu eu benthyciadau.

Mae defnyddwyr y gwrthodwyd credyd cost uchel tymor byr/benthyciad diwrnod cyflog iddynt ar ôl ein hymyriadau wedi profi canlyniadau cadarnhaol yn gyffredinol. Mae'r rhan fwyaf (63%) o'r farn eu bod mewn sefyllfa well o ganlyniad i hynny, roedd ambell un wedi troi at gynnyrch cost uchel arall a doedd dim tystiolaeth bod cwsmeriaid y gwrthodwyd benthyciadau iddynt yn fwy tebygol o droi at roddwyr benthyciadau arian anghyfreithlon. Rydym yn bwriadu adolygu'r terfyn prisiau credyd cost uchel tymor byr eto yn 2020.

# 4 Ein blaenoriaethau sector

## Marchnadoedd ariannol cyfanwerthu

Mae marchnadoedd cyfanwerthu iach yn bwysig i'r DU a'r economi fyd-eang. Maen nhw'n galluogi cwmnïau a llywodraethau i gael mynediad at gyllid a darparu cyfleoedd buddsoddi ar gyfer buddsoddwyr sefydliadau ac adwerthu. Maen nhw'n cyflawni ystod eang o anghenion ariannol ac, er mwyn bod yn effeithiol, mae angen gallu gweld eu bod yn deg, yn dryloyw ac yn effeithlon. Mae marchnadoedd glân lle mae cystadleuaeth yn gweithio'n dda yn hanfodol i ffyniant y DU.

Mae ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi parhau i ganolbwyntio ar 4 prif beth sy'n ysgogi niwed mewn marchnadoedd cyfanwerthu: camymddwyn difrifol gan gynnwys camddefnyddio'r farchnad; cyfranogwyr ddim yn delio â'i gilydd yn briodol oherwydd gwrthdaro rhwng buddiannau, llywodraethu gwael a systemau a rheolaethau annigonol; cadernid gweithredol gwael yn arwain, er enghraifft, at fethiant anhrefnus, ymosodiadau seiber llwyddiannus neu amharu ar y farchnad a marchnadoedd ddim yn gweithio ar eu gorau o ganlyniad i aneffeithlonrwydd strwythurol.

Fel rhan o'n Cynllun Busnes ar gyfer 2018/19, roeddem wedi bwriadu cyhoeddi ein dogfen 'Agwedd tuag at Uniondeb y Farchnad' er mwyn helpu cwmnïau ac unigolion i gymryd cyfrifoldeb dros gynnal marchnadoedd glân, teg, effeithiol a chystadleuol, a deall ein hagwedd yn glir. Rydym wedi penderfynu gohirio'r cyhoeddiad hwn yn sgil Gadael yr UE a'r adnoddau mae wedi bod yn angenrheidiol i ni eu neilltuo gyfer hynny.

### Hybu marchnadoedd ariannol glân

Mae camddefnyddio'r farchnad yn cynnwys sawl math o ymddygiad anghyfreithlon, gan gynnwys masnachu mewnol, datgelu gwybodaeth fewnol yn anghyfreithlon a chamddefnyddio'r farchnad. Mae'r ymddygiadau hyn yn effeithio ar lendid ein marchnadoedd a gallant achosi niwed drwy, er enghraifft, gamfanteisio ar anghymesuredd mewn gwybodaeth yn annheg er mwyn niweidio proses ffurfio pris effeithiol a chyfranogwyr yn y farchnad sy'n cydymffurfio â'r gyfraith. Gall hyn arwain at golli hyder o ran uniondeb ein marchnadoedd a lleihau cyfranogiad yn y farchnad, gan gael effaith ar yr economi ehangach yn sgil hynny.

Rydym wedi parhau i fonitro marchnadoedd ariannol yn rhagweithiol ac wedi cymryd amryw o gamau gweithredu er mwyn helpu i fynd i'r afael â chamddefnyddio'r farchnad. Eleni, fe gawsom 5,604 o Adroddiadau Trafodion ac Archebion Amheus gan y diwydiant, a 578 hysbysiad allanol arall ynghylch achosion posibl o gamddefnyddio'r farchnad. O ganlyniad, aethom ati i agor 484 adolygiad rhagarweiniol o gamddefnyddio'r farchnad, gan arwain at ganlyniadau amrywiol sydd wedi'u nodi yn yr adran isod.

Er mwyn gwella'r amgylchedd yng nghyswllt rheoli camddefnydd o'r farchnad mewn cwmnïau, fe wnaethom gynnal amryw o weithgareddau eleni i wella'r gwaith o fonitro incwm sefydlog, nwydd a marchnadoedd deilliadol, a oedd yn cynnwys 29 ymweliad wedi'i oruchwylio cysylltiedig ag Adroddiadau Trafodion ac Archebion Amheus. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein Canllaw Trosedd Ariannol i Gwmnïau wedi'i ddiweddaru er mwyn esbonio ein disgwyliadau o ran rheolaethau trosedd ariannol yn y gofod camddefnyddio'r farchnad, ac aethom ati i adolygu rhai rheolaethau a systemau camddefnyddio'r farchnad ar sail sampl o oddeutu 20% o gwmnïau nawdd y DU.

Fe wnaethom hefyd ddarparu cyngor technegol i'r Trysorlys yn ystod y trafodaethau ag Aelod-wladwriaethau'r UE ynghylch cynnig Comisiwn yr UE i annog defnyddio Marchnadoedd Twf Busnesau Bach a Chanolig, a oedd yn cynnwys ceisio gwneud diwygiadau wedi'u targedu i'r Rheoliad Camddefnyddio'r Farchnad mewn perthynas â materion fel cynnal rhestrau mewnol. (Disgwylir y bydd y ddeddfwriaeth derfynol yn cael ei mabwysiadu yn nes ymlaen eleni.)

## Mynd i'r afael â gwrthdaro rhwng buddiannau

Fel y nodir uchod, gall gwrthdaro rhwng buddiannau ac aneglurder cyfranogwyr y farchnad o ran y rhinwedd maen nhw'n gweithredu ynddi ysgogi niwed mewn marchnadoedd cyfanwerthu. Fe wnaeth MiFID II gyflwyno rheolau newydd ynghylch dadfwndelu a gwarantu a lleoli, a chryfhau rhwymedigaethau presennol ynghylch y ffyrdd gorau o gyflawni a rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau. Fe wnaethom hefyd gyflwyno rheolau domestig newydd i wella amrywiaeth, ansawdd ac amseroldeb yr wybodaeth yn y broses Cynnig Cyntaf i'r Cyhoedd.

Fe wnaethom gyhoeddi canllawiau i leihau gwrthdaro rhwng buddiannau pan fydd dadansoddwyr darpar fanciau syndicet yn gweithio gyda chynrychiolwyr cyhoeddwr i warantu a lleoli mandadau. Mae ein gwaith goruchwylio eleni wedi canolbwyntio ar sicrhau bod cwmnïau yn cydymffurfio â'r newidiadau hyn ac yn asesu a yw'r rheolau yn gweithio yn unol â'r bwriad.

Rydym hefyd wedi cynnal gwaith goruchwylio pellach ar arferion 'taliad ar gyfer llif archebion' (PFOF) gan froceriaid mewn marchnadoedd deilliadol rhestredig ac fe gyhoeddwyd ein canfyddiadau ym mis Ebrill 2019.

## Mynd i'r afael â chadernid gweithredol

Mae MIFID II yn rhoi gwell adnoddau i ni er mwyn delio â niwed posibl yn sgil Masnachu Amledd Uchel algorithmig. Mae ein hadroddiad ar Gydymffurfio â Masnachu Algorithmig mewn Marchnadoedd Cyfanwerthu, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018, yn edrych ar arferion da a gwael mewn cwmnïau sy'n ymgymryd â'r gweithgarwch masnachu hwn. Ers hynny, rydym wedi parhau â'n gwaith goruchwylio ledled nifer o gwmnïau i sicrhau bod ganddynt systemau a rheolaethau addas ar waith i nodi a rheoli materion yng nghyswllt cadernid a risgiau ymddygiad.

Fel rhan o'n gwaith goruchwylio, fe wnaethom hefyd gwrdd ag amryw o gwmnïau rheoli asedau i weld sut maen nhw'n defnyddio technoleg yn eu swyddfeydd blaen, boed hynny'n fewnol neu drwy drydydd parti, i reoli portffolio a dadansoddi risg. Roedd y cwmnïau y gwnaethom ni gwrdd â nhw yn amrywio o ran maint, modelau busnes a strategaeth fuddsoddi. Gyda'i gilydd, mae'r cwmnïau hyn yn rheoli asedau gwerth £2.8 triliwn. Rydym wedi nodi rhai o'r gwendidau a nodwyd yn ein hadran canlyniadau isod.

## Gwella effeithiolrwydd marchnadoedd cynradd ac eilaidd

Yn ein Cynllun Busnes 2018/19, fe wnaethom nodi 3 maes yr hoffem ganolbwyntio mwy arnynt yn dilyn ein hadolygiad o effeithiolrwydd marchnadoedd cynradd:

- strwythur trefn rhestru'r DU yn y dyfodol (rhestr premiwm a rhestr safonol)
- darparu cyfalaf tymor estynedig i gwmnïau y mae angen buddsoddiad tymor hir arnynt, a
- mynediad manwerthu at farchnadoedd dyled

Mae elfennau o bob un o'r rhain yn seiliedig ar ddeddfwriaeth y DU. Y prif beth rydym wedi canolbwyntio arno yw rhoi'r newidiadau angenrheidiol ar waith wrth i ni baratoi i adael yr UE, gan ddarparu rhai o agweddau craidd y gwaith hwn (fel y nodir yn yr adran canlyniadau isod). Bydd deilliannau'r trafodaethau ynghylch gadael yr UE a'r eglurder ynghylch trefniadau yn y dyfodol yn dal yn effeithio ar amseru unrhyw waith pellach a'i gynnwys. Rydym yn disgwyl ailymweld â'r pynciau hyn yn ystod 2019/20.

Rydym wedi parhau i baratoi ar gyfer mabwysiadu trefn ledled Ewrop i ffeilio adroddiadau ariannol blynyddol yn electronig, mewn fformatau sy'n gydnaws â data strwythuredig (fformat y gall peiriant ei ddarllen) ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau yn 2020 ac o hynny ymlaen. Nod y diwygiadau hyn yw helpu buddsoddwyr i werthuso perfformiad y cwmnïau a restrir. Rydym yn gobeithio cyhoeddi ein cynigion yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Er mwyn galluogi buddsoddwyr i gael mwy o fynediad at gyfalaf tymor estynedig, rydym wedi cynnig newid ein rheolau cysylltiadau a ganiateir ar gyfer busnesau a gysylltir gan unedau ac wedi edrych ar sut mae modd defnyddio cyllid a awdurdodir gan y DU i fuddsoddi mewn cyfalaf tymor estynedig drwy bapur trafod. Ar ôl dadansoddi ymatebion, rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad adborth ar gyfer cyllid awdurdodedig erbyn diwedd Chwarter 3 2019 a datganiad polisi a rheolau terfynol ar gyfer cysylltiadau a ganiateir erbyn diwedd Chwarter 4 2019**.**

## Hybu codau ymddygiad yn y diwydiant

Rydym yn ceisio annog y diwydiant i ddatblygu a mabwysiadu codau newydd neu rai sy'n bodoli eisoes ar gyfer cwmnïau rheoledig er mwyn cyflawni 'safonau priodol o ran ymddygiad yn y farchnad' pan fyddant yn cynnal gweithgareddau mewn marchnadoedd ariannol y tu allan i'n perimedr rheoleiddio.

Eleni fe wnaethom sefydlu proses a meini prawf er mwyn cydnabod codau'r diwydiant ar gyfer marchnadoedd ariannol a gweithgareddau heb eu rheoleiddio, a gall grwpiau'r diwydiant nawr wneud cais drwyddom ni am gydnabyddiaeth gan yr FCA ar gyfer eu codau.

## Adolygiad o Reoliad Seilwaith y Farchnad Ewropeaidd (EMIR)

Ym mis Mai 2017, cyflwynodd Comisiwn yr UE gynnig i ddiwygio Rheoliad Seilwaith y Farchnad Ewropeaidd (EMIR). Roedd y cynnig yn rhan o Raglen Perfformiad ac Addasrwydd Rheoleiddiol y Comisiwn, a elwir yn "EMIR REFIT". Prif nod EMIR REFIT yw symleiddio rhai o ofynion EMIR ar gyfer cwmnïau sy'n masnachu mewn deilliadau dros y cownter (OTC) a'u gwneud yn fwy cymesur. Yn benodol, mae EMIR REFIT yn cyflwyno eithriadau newydd o'r rhwymedigaethau clirio ac adrodd ar gyfer cwmnïau llai. Fe wnaethom helpu'r Trysorlys i ddarparu cyngor technegol parhaus drwy gydol y trafodaethau EMIR REFIT yng Nghyngor yr UE, ac ymgysylltu â chwmnïau a chysylltiadau masnach wrth arwain at yr EMIR REFIT sy'n dod i rym ym mis Mehefin eleni i roi eglurder ar y newidiadau sydd i ddod a'n disgwyliadau ni. Fe wnaethom ni hefyd ddiweddaru systemau TG yr FCA y mae cwmnïau'n eu defnyddio i gyflwyno'r hysbysiadau a'r rhaglenni perthnasol er mwyn caniatáu iddyn nhw gydymffurfio â'r gyfundrefn newydd.


## Canlyniadau a monitro newid

Roedd ein Safbwyntiau ar y Sector 2018 yn nodi meysydd ffocws lle mae niwed yn digwydd yn barod, neu lle mae posibilrwydd y bydd niwed yn digwydd yn y sector marchnadoedd cyfanwerthu ariannol.

Rydym yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth i fonitro'r rhain. Er enghraifft, ers cyflwyno'r gyfundrefn gofnodi am y tro cyntaf yn 2005, mae nifer yr achosion o ymddygiad amheus mewn marchnadoedd cyfanwerthu a gofnodwyd wedi cynyddu'n barhaus. Mae nifer yr Adroddiadau Trafodion ac Archebion Amheus a anfonwyd atom ni eleni tua 18 gwaith yn uwch[2] nag oeddent yn 2007. Cafodd y gyfundrefn cofnodi camddefnydd o'r farchnad ei hehangu yn 2016 drwy gyflwyno MAR. Arweiniodd hyn at gynnydd sylweddol mewn cofnodi rheoleiddiol.

Ar gyfer 2018, mae ein Ystadegyn Glendid y Farchnad yn awgrymu bod 10% o'r cwmnïau a gymerwyd drosodd yn y DU yn gysylltiedig â symudiadau prisiau anarferol cyn cyhoeddiad cymryd drosodd.

***Ffigur 4.1: Ystadegyn MIC Blynyddol a nifer y digwyddiadau bob blwyddyn***





Tra mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 12% o'i gymharu â'r llynedd, mae'n anodd dod i gasgliadau ystyrlon ar sail newid o un flwyddyn i'r llall. Mae'r Ystadegyn Glendid y Farchnad yn un dangosydd sy'n dangos masnachu mewnol posibl mewn marchnadoedd ecwiti ond mae ganddo gyfyngiadau o ran mesur glendid y farchnad yn ehangach. Ni allwn ei ddefnyddio i nodi'r rheswm dros symudiadau prisiau anarferol, ac felly a oes masnachu mewnol wedi digwydd mewn gwirionedd. Mae ffactorau eraill, fel dadansoddwyr ariannol, neu'r cyfryngau'n asesu targedau cymryd drosodd yn gywir neu gyfnewidiadau cyfreithlon sy'n digwydd cael eu cyflawni cyn cyhoeddiad, yn gallu dylanwadu ar yr ystadegyn.

Rydym yn datblygu dangosyddion ychwanegol er mwyn helpu i asesu glendid y farchnad yn ehangach. Eleni rydym wedi cyflwyno'r metrig Swm Masnachu Anarferol. Mae'n chwilio am gynnydd anarferol mewn symiau masnachu cyn cyhoeddiadau ynghylch prisiau a allai fod yn sensitif, sy'n ymwneud ag offerynnau ecwiti a rhywfaint o ddeilliadau ecwiti. Mae cwmpas y metrig Swm Masnachu Anarferol yn ehangach na'r Ystadegyn Glendid y Farchnad. Rydym wedi cyhoeddi manylion ei gwmpas a'i fethodoleg ar ein gwefan (Mesur Glendid y Farchnad – y gymhareb Swm Masnachu Anarferol). Mae'r graff isod yn dangos y cymarebau Swm Masnachu Arferol chwarterol ac mae'r tabl wrth ei ymyl yn rhoi manylion y sampl a ddefnyddiwyd a'r cymarebau chwarterol penodol.

2 Cafodd y gyfundrefn cofnodi camddefnydd o'r farchnad ei hehangu yn 2016 drwy gyflwyno MAR. Arweiniodd hyn at gynnydd sylweddol mewn cofnodi rheoleiddiol.

Mae'r gymhareb yn gymharol sefydlog drwy gydol 2018 a'r Chwarter olaf yw'r isaf, sef 5.5%. Ar y cyfan, o blith yr holl gyhoeddiadau heb eu trefnu yn y DU yn ystod 2018 (a oedd wedi'u cynnwys yn ein cyfrifiad), bu cynnydd anarferol mewn symiau masnachu cyn 6.4% ohonynt. Mae hyn gyfwerth â 68 o'r 1070 o gyhoeddiadau a brofwyd ac mae'n cynnwys ffracsiwn bach o'r holl weithgarwch yn y farchnad ecwiti yn ystod yr un cyfnod. Nid yw bodolaeth cyhoeddiadau lle rydym wedi canfod cynnydd ystadegol sylweddol o ran meintiau yn golygu bod yr achos o gamddefnyddio'r farchnad wedi digwydd cyn pob un o'r cyhoeddiadau hyn, oherwydd gall meintiau godi a gostwng am amryw o resymau, ond mae'n ffactor sy'n dangos y gallai camddefnydd o'r farchnad fod wedi digwydd. Ar hyn o bryd, ni allwn gymharu'r cymarebau ATV â rhai'r blynyddoedd blaenorol oherwydd mae'r metrig ATV yn dibynnu ar ddata MiFID II, a dim ond yn Chwarter cyntaf 2018 y dechreuom gael y data yma.

***Ffigur 4.2: Cymhareb Symiau Masnachu Anarferol (ATV)***




| Chwarter o'r Flwyddyn | Cyhoeddiadau a Brofwyd | Cyhoeddiadau y mae ystadegau'n dangos bod eu maint wedi cynyddu'n sylweddol | Cymhareb ATV |
|---|---|---|---|
| Ch1 – 2018 | 273 | 17 | 6.2% |
| Ch2 – 2018 | 401 | 27 | 6.7% |
| Ch3 – 2018 | 195 | 13 | 6.7% |
| Ch4 – 2018 | 201 | 11 | 5.5% |

Mae systemau a rheolaethau da yn hanfodol er mwyn helpu i ddiogelu ein marchnadoedd. Hyd yn hyn, mae ein hadolygiadau goruchwylio systemau a rheolaethau yng nghyswllt camddefnyddio'r farchnad mewn cwmnïau nawdd wedi arwain at wneud gwelliannau'n ofynnol mewn 40% o'r cwmnïau a adolygwyd. Er nad yw hyn yn awgrymu bod methiannau helaeth yng nghymuned nawdd y DU, sydd eisoes yn gweithredu i safon uchel, mae'n awgrymu'r safonau uchel rydym yn disgwyl iddynt gael eu cynnal yn barhaus. Hefyd, ar ôl cynnal gwaith i wella'r amgylchedd rheoli camddefnydd o'r farchnad mewn amryw o gwmnïau, mae nifer yr Adroddiadau Trafodion ac Archebion Amheus sy'n ymwneud ag incwm sefydlog a marchnadoedd newydd wedi cynyddu. Mae ein canfyddiadau cychwynnol hefyd yn awgrymu bod yr ansawdd a'r rhyngweithio rhwng troseddau ariannol a'r systemau a rheolaethau yng nghyswllt camddefnyddio'r farchnad yn gwella.

Yn dilyn ein 484 adolygiad rhagarweiniol o'r farchnad, rydym wedi cychwyn 91 ymchwiliad gorfodi a 72 o gamau nad ydynt yn rhai gorfodi, gan gynnwys ymyriadau goruchwylio a chyflwyno llythyrau addysg. Mae nifer yr ymchwiliadau cysylltiedig â chamddefnyddio'r farchnad a agorwyd gennym yn ystod 2018/19 yn debyg i 2017/18 yn gyffredinol, lle agorwyd 87 o ymchwiliadau gorfodi. Er nad oes modd defnyddio'r lefel gweithgaredd yma fel dirprwy ar gyfer lefelau camddefnyddio'r farchnad ym marchnadoedd ariannol y DU, mae'n dangos ein bod yn canolbwyntio ar ganfod ac ymchwilio i gamddefnyddio'r farchnad, atal drwgweithredwyr ac addysgu'r rheini sy'n cymryd rhan yn y farchnad ynghylch y niwed mae camddefnyddio'r farchnad yn ei achosi i'r economi.

Y tu allan i gamddefnyddio'r farchnad, fe wnaeth y cwmnïau eleni ymateb yn gadarnhaol i'n diwygiadau i Gynigion Cyntaf i'r Cyhoedd a'r rheolau lleoli a gwarantu cysylltiedig â MiFID II. Mae prosbectysau'n cael eu cyhoeddi yn gynharach yn y broses ac fe gafodd o leiaf 7 darn o ymchwil heb fod yn gysylltiedig eu cynhyrchu yng nghyswllt 2 Gynnig Cyntaf i'r Cyhoedd y llynedd. Mae hyn i'r gwrthwyneb i'r cyfnod cyn diwygio lle gwnaethom ganfod, o blith y 169 o drafodion yng nghyswllt Cynigion Cyntaf i'r Cyhoedd yn y DU rhwng mis Ionawr 2010 a mis Mai 2015, mai dim ond yn darn o ymchwil heb fod yn gysylltiedig a gyhoeddwyd. Mae adborth cynnar yn awgrymu bod y diwygiadau hyn yn cyflawni'r nod o wella ystod, ansawdd ac amseroldeb yr wybodaeth sydd ar gael i fuddsoddwyr yn ystod y broses Cynnig Cyntaf i'r Cyhoedd yng nghyswllt ecwiti yn y DU. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod mai dim ond nifer bach o Gynigion Cyntaf i'r Cyhoedd y mae'r gofynion newydd wedi bod yn berthnasol iddynt. O ganlyniad, byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau a chynnal deialog gyda chyfranogwyr y farchnad ynghylch effeithiau'r diwygiadau hyn.

Fe wnaeth ein gwaith goruchwylio mewn cwmnïau rheoli asedau ganfod gwendidau o ran goruchwylio technoleg yn yr ail reng a ddefnyddir i reoli portffolios a dadansoddi risg. Hefyd, nid oedd gan lawer o gwmnïau gynlluniau wrth gefn realistig i ddelio ag unrhyw darfu ar y gwasanaeth. Fe wnaethom ysgrifennu at y cwmnïau hyn yn pennu'r pryderon hyn ac rydym yn bwriadu cyhoeddi canllawiau yn ystod y misoedd nesaf.

Fe wnaethom hefyd gwblhau ein gwaith i deilwra'r gofynion rhestru premiwm ar gyfer cyhoeddwyr sy'n cael eu rheoli gan wledydd sofran a chyhoeddi ein datganiad polisi a'n rheolau terfynol (PS18/11). Ar gyfer y cyhoeddwyr hyn, mae'r Rheolau Rhestru nawr yn cynnwys pennod ar wahân sy'n mynd i'r afael â gofynion wedi'u haddasu ar gyfer trafodion partïon cysylltiedig a rhestru premiwm ar gyfer derbynebau adneuo.

# Rheoli buddsoddiadau

Mae sector rheoli buddsoddiadau'r DU yn mynd i'r afael â rheoli asedau, gwasanaethau cynghori a chyfryngu sefydliadol, a gwasanaethau gweinyddu buddsoddiadau a chystodaeth. Mae amcangyfrifon yn dangos bod asedau dan reolaeth yn 2018 wedi aros yn gymharol wastad o'i gymharu â 2017, ar £9.1trn.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r diwydiant hefyd wedi ymgymryd â newid rheoleiddiol sylweddol, gan gynnwys MIFID II, PRIIPs, a'r Astudiaeth o'r Farchnad Rheoli Asedau. Mae'r ymyriadau hyn wedi ceisio sicrhau triniaeth deg a gwerth am arian i fuddsoddwyr drwy wella tryloywder, cydweddoldeb ac atebolrwydd.

Rydym wedi parhau i gyfrannu at waith rheoli asedau ar lefel ryngwladol, gan gynnwys yn IOSCO, lle rydym yn cadeirio'r pwyllgor polisi ar Reoli Asedau (C5) sy'n cynnal gwaith ar drosoledd mewn cronfeydd buddsoddi, yn ogystal ag amryw o faterion eraill.

Mae darnau allweddol o waith sy'n ymwneud â'r sector rheoli buddsoddiadau hefyd wedi'u cofnodi yn ein blaenoriaethau traws sector. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith mewn perthynas â llywodraethu, technoleg a seiber y mae modd eu gweld yn ein pennod at ddiogelu data, cadernid a rhoi gwaith allan ar gontract.

## Astudiaeth o'r Farchnad Rheoli Asedau

Rydym wedi rhoi pecyn o gamau unioni ar waith i fynd i'r afael a'r niwed rydym wedi'i ganfod yn y diwydiant rheoli asedau. Ein nod yw hybu rhagor o gystadleuaeth er mwyn gwella canlyniadau i ddefnyddwyr ac amddiffyn y rheini sydd leiaf tebygol o allu ymgysylltu â'u rheolwr asedau.

Fe wnaeth ein Datganiad Polisi ym mis Ebrill 2018 gyflwyno camau unioni o wella'r gwaith o lywodraethu cyllid ar gyfer cronfeydd awdurdodedig er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i fuddsoddwyr. Fe wnaethom hefyd gyflwyno Datganiad Polisi ym mis Chwefror 2019 gyda mesurau, gan gynnwys cyflwyno rheolau newydd er mwyn sicrhau bod cwmnïau'n rhoi gwybodaeth glir, gynhwysfawr a chyson i fuddsoddwyr.

Ym mis Medi 2017, fe wnaethom gyfeirio'r sector ymgynghorwyr buddsoddi a rheoli ymddiriedol at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i gynnal ymchwiliad llawn o'r farchnad. Fe wnaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd gyhoeddi ei ganfyddiadau terfynol ynglŷn â hyn ym mis Rhagfyr 2018. Rydym yn cefnogi camau unioni'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ac yn bwriadu ymgynghori ynghylch ymgorffori'r rheolau ynghylch rheolaeth ymddiriedol yn llawlyfr yr FCA yn dilyn gorchymyn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Trysorlys a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd er mwyn helpu i fwrw ymlaen â'i argymhelliad i gynnwys gwasanaethau ymgynghori o dan ein rheoliadau.

## Rheoliadau PRIIP

Bwriad Rheoliadau'r UE ynghylch Cynnyrch Buddsoddi Seiliedig ar Yswiriant ac Adwerthu mewn Pecyn (PRIIPs) yw helpu dealltwriaeth a chanlyniadau defnyddwyr drwy safoni'r datgeliadau mae cwmnïau'n eu rhoi i fuddsoddwyr adwerthu, gan eu galluogi nhw i gymharu cynnyrch sy'n cystadlu.

Yn dilyn ein Cais am Fewnbwn a'r Datganiad Adborth dilynol, mae gennym ni bryderon am ofynion a allai wrthdaro neu ddiffyg eglurder ynglŷn â sut mae gofynion PRIIPs yn cael eu rhoi ar waith mewn gwirionedd.

Byddwn yn ystyried i ba raddau y gallai darparu ein canllawiau dangosol ein hunain liniaru ein pryderon ynghylch: sefyllfaoedd perfformiad (bod methodolegau presennol ar gyfer cyflwyno sefyllfaoedd perfformiad yn rhoi darlun camarweiniol ym mhob dosbarth o asedau bron) Dangosyddion Risg Crynodol; a chwmpas deddfwriaeth PRIIP.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos ag Awdurdodau Goruchwylio Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd (yn amodol ar natur perthynas y DU â'r UE) wrth iddynt gynnal adolygiad llawn o'r Safonau Technegol Rheoleiddiol o dan y Rheoliad yn ystod 2019. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar wella sut mae risgiau a gwobrwyon yn cael eu dangos yn y Ddogfen Gwybodaeth Allweddol.

## Cronfeydd yn buddsoddi mewn asedau

Fe wnaethom gynnig pecyn o fesurau yn ein Papur Ymgynghori (CP18/27) ym mis Hydref er mwyn mynd i'r afael â'r niwed y daethom o hyd iddo yng nghyswllt asedau caeth a chyllid penagored a gafodd eu marchnata i gleientiaid manwerthu cyffredin. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys gofyniad ar gwmnïau i ohirio masnachu pan fydd ansicrwydd sylweddol ynghylch prisio eiddo ac elfennau 'sefydlog' eraill, mesurau i wella rheoli hylifedd a chynyddu datgeliadau ynghylch y cronfeydd hyn a'u risgiau hanfodol o ran hylifedd i ddarpar fuddsoddwyr. Rydym yn ystyried yr adborth i'r cynigion hyn a byddwn hefyd yn ysryried y gwersi a ddysgwyd yn sgil cronfa Woodford wrth gytuno ar y rheolau newydd terfynol.

Ym mis Rhagfyr 2018, fe wnaethom gynnig newidiadau i'n rheolau a fyddai'n galluogi buddsoddwyr adwerthu i fuddsoddi mewn amrywiaeth fwy eang o asedau tymor hir drwy gronfeydd wedi'u cysylltu gan unedau, gan barhau i fod â diogelwch perthnasol. Byddai'r cynigion hyn yn caniatáu i reolwyr cronfeydd ddewis cyfleoedd buddsoddi sy'n fwy addas ar gyfer anghenion defnyddwyr.

Ar yr un pryd, fe wnaethom gyhoeddi Papur Trafod (DP 18/10) i ymchwilio i sut mae modd defnyddio cronfeydd awdurdodedig y DU i fuddsoddi mewn cyfalaf tymor estynedig (buddsoddiadau tymor hir fel seilwaith ayb). Roedd yn gofyn am adborth er mwyn helpu i nodi'r hyn sy'n rhwystro cronfeydd awdurdodedig rhag buddsoddi yn y math hwn o gyfalaf, a sut mae modd goresgyn y rhwystrau hyn.

Rydym nawr yn asesu'r adborth a gawsom ar gyfer y ddau gyhoeddiad hwn er mwyn datblygu ein camau nesaf.

## Cryfhau llywodraethiant

Yn ogystal â'n camau i unioni llywodraethiant yn dilyn yr Astudiaeth o'r Farchnad Rheoli Asedau, rydym yn ystyried a ddylem ymestyn camau unioni tebyg i gronfeydd gydag elw a chronfeydd wedi'u cysylltu gan unedau.

Mae'r Gyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr yn cael ei hymestyn i gynnwys y rhan fwyaf o gwmnïau rydym yn eu rheoleiddio, gan gynnwys rheolwyr buddsoddi. Rydym yn rhoi rhagor o wybodaeth am y gwaith yn yr adran ar Ddiwylliant a Llywodraethu mewn Cwmnïau.

## Adolygiad o Gwmnïau Buddsoddi

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Comisiwn yr UE gynigion ar gyfer cyfundrefn ddarbodus newydd ar gyfer cwmnïau buddsoddi a awdurdodwyd o dan MiFID. Bwriad y gyfundrefn hon yw datblygu rheoliadau mwy cymesur ar gyfer y cwmnïau hyn, yn hytrach na'u rheoleiddio o dan gyfundrefn sydd ar gyfer banciau yn bennaf.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi darparu cymorth technegol i'r Trysorlys yn ystod trafodaethau Cyngor yr Undeb Ewropeaidd. Ym mis Chwefror 2019, cafwyd cytundeb gwleidyddol ynghylch y testun gan Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd.

Rydym yn disgwyl i'r testun terfynol gael ei gyhoeddi yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE erbyn diwedd 2019, gan arwain at ei roi ar waith erbyn haf 2021.

Bydd y mesurau hyn yn sefydlu fframwaith rheoleiddio darbodus sy'n fwy priodol ar gyfer modelau busnes cwmnïau nad ydynt yn fanciau, gan gynnwys rheolwyr buddsoddi.

## Dosbarthiad trawsffiniol cronfeydd buddsoddi cyfun

Ym mis Mawrth 2018, fe wnaeth Comisiwn yr UE gyhoeddi cynigion a oedd yn anelu at wella dosbarthiad trawsffiniol cronfeydd buddsoddi cyfun, drwy ddiwygio Rheoliadau EuVECA ac EuSEF, a Chyfarwyddebau UCITS a AIFM. Nod y diwygiadau arfaethedig oedd gwella tryloywder y gofynion cenedlaethol, cael gwared â gofynion beichus a chysoni rheolau cenedlaethol dargyfeiriol, er enghraifft, ym maes gofynion marchnata, ffioedd rheoleiddio, a gofynion gweinyddu a hysbysu.

Fe wnaethom ddarparu cyngor technegol i'r Trysorlys yn ystod trafodaethau ag Aelod-wladwriaethau ac, yn dilyn casgliad y trafodaethau ym mis Chwefror, rydym yn disgwyl y bydd y testun deddfwriaethol terfynol yn cael ei gymeradwyo yn ystod y misoedd nesaf.

## Effaith Buddsoddi Goddefol

Rydym wedi cyhoeddi nodyn ymchwil yn adolygu'r llenyddiaeth academaidd ynghylch effaith buddsoddi goddefol ac wedi cynnal ymchwil i gynnydd buddsoddi goddefol yn y DU. Fe wnaethom hefyd gynnal cynhadledd fawr (a noddwyd ar y cyd gan Ysgol Economeg Llundain a Bwrdd Diogelwch a Chyfnewid India) ynghylch 'Talu am Farchnadoedd Effeithlon ac Effeithiol'.

Gan adeiladu ar ein hymchwil hyd yn hyn a'r gynhadledd, rydym yn arwain llif gwaith IOSCO ar effaith buddsoddi goddefol. Bydd hyn yn ein helpu ni i adnabod ac archwilio'r prif faterion rheoleiddio y mae'r buddsoddi goddefol hwn yn eu creu.

## Canlyniadau a monitro newid

Roedd ein Safbwyntiau ar y Sector 2018 yn nodi meysydd ffocws lle mae niwed yn digwydd yn barod, neu lle mae posibilrwydd y bydd niwed yn digwydd yn y sector rheoli buddsoddiadau.

Rydym yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth i fonitro'r rhain. Er enghraifft, roedd prisio ac ansawdd gwasanaethau a chynnyrch rheoli asedau yn flaenoriaeth allweddol yn 2018/19. Fe wnaeth ein Hastudiaeth o'r Farchnad Rheoli Asedau nodi cystadleuaeth wan o ran prisiau ar gyfer cynnyrch oedd yn cael ei reoli'n weithredol fel un o'r prif bethau a oedd yn achosi'r niwed cysylltiedig ag ansawdd a gwerth cynnyrch. Fe wnaeth rhannau amrywiol o ddadansoddiadau ein harwain ni at y casgliad hwn, ond un rhan allweddol oedd tystiolaeth o glystyru prisiau.

Nid yw clystyru prisiau ar ei ben ei hun yn golygu nad yw cystadleuaeth yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, pan aethom ati i ystyried hyn ar y cyd â thystiolaeth arall, fel ein tystiolaeth ynghylch proffidioldeb, penderfyniadau prisio cwmnïau a'r diffyg perthynas glir rhwng prisiau a pherfformiad, roedd hyn yn dangos bod cystadleuaeth o ran prisiau ddim yn gweithio'n effeithiol. Mae hyn yn debygol o arwain at brisiau sy'n rhy uchel ar gyfer gwerth ychwanegol y gwasanaethau a ddarperir.

Dangosodd ein data ar gyfer 2016 3 prif glystyrau yn ôl AUM yn: 1.6 i 1.7%, 0.8 i 0.9% a llai na 0.1% (ar gyfer holl gronfeydd wedi'u lleoli yn y DU, rhai gweithredol a goddefol). Mae ein ffigurau diweddaraf yn dangos nad yw'r clystyrau hyn wedi newid hyd yn hyn.

Mae llawer o'n hymyriadau sy'n ceisio mynd i'r afael â'r niwed rydym wedi'i weld yn y diwydiant rheoli asedau wrthi'n dechrau cael eu rhoi ar waith. Byddwn yn parhau i fonitro'r farchnad dros y misoedd nesaf ai asesu pa mor effeithiol ydynt. Er enghraifft, ynghyd â chlystyru prisiau, rydym yn bwriadu cyhoeddi data cryno dienw ynghylch perfformiad, ar ôl ffioedd, o gronfeydd mynegai wedi'u lleoli yn y DU sy'n tracio mynegeion poblogaidd. Byddwn yn cyhoeddi ystadegau cryno

ynghylch cronfeydd gweithredol tymor hir sy'n tangyflawni, ar ôl ffioedd unwaith eto, fel ffactor sy'n dangos sut mae cystadleuaeth effeithiol yn sbarduno ymddygiad buddsoddwyr. Byddwn hefyd yn cyhoeddi data sy'n tracio tueddiadau prisiau ar gyfer cronfeydd gweithredol a goddefol sy'n buddsoddi mewn sectorau asedau cymaradwy.

Fe wnaethom ganfod bod cronfeydd nawr yn gyfrifol am 25% o'r holl asedau dan reolaeth yn y DU (i fyny o 17% yn 2006). Mae ffioedd rheoli pendant mewn cronfeydd gweithredol a goddefol sy'n buddsoddi yn y FTSE 350 wedi bod yn gostwng ers 2009. Mae'r cyfuniad hwn o ddirywiad a symud i gronfeydd goddefol cost is wedi arwain at ostyngiad yng nghyfartaledd pwysedig cymhareb costau'r cronfeydd – o 1.3% i 1.08% – yn ystod y cyfnod hwn.

Rydym wedi gweld ymgysylltiad da yn y diwydiant yng nghyswllt ein Papur Trafod ynghylch sut gall cronfeydd awdurdodedig fuddsoddi mewn cyfalaf tymor estynedig, ac ynghylch ein newidiadau arfaethedig i reolau er mwyn galluogi buddsoddwyr adwerthu i ddefnyddio cronfeydd wedi'u cysylltu gan unedau i fuddsoddi mewn amrywiaeth ehangach o asedau tymor hir. Rydym yn ystyried yr adborth o'r cyhoeddiadau hyn ar hyn o bryd. Os byddwn yn gwneud unrhyw newidiadau, byddwn yn adolygu pa mor bell y mae ein hymyriadau'n mynd i newid canlyniadau yn y farchnad ac yn sicrhau bod ein rheolau'n diogelu'r defnyddwyr fel sy'n angenrheidiol.

Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl y bydd y gyfundrefn ddarbodus ar gyfer cwmnïau buddsoddi wedi cael eu rhoi ar waith erbyn gwanwyn 2021. Mae'r rheolau darbodus newydd yn cyd-fynd mwy â'r ffordd y mae cwmni buddsoddi rheoli portffolio MiFID yn cynnal busnes, ac mae'n galluogi goruchwylwyr a chwmnïau i gael gwell trafodaethau ynghylch achosion posibl o niwed. Bydd y rheolau hefyd yn gwneud y broses adrodd reoleiddiol berthnasol yn fwy syml a defnyddiol o bosibl. Ar ôl rhoi hyn ar waith, byddwn yn adolygu sut mae'r gyfundrefn yn cael ei gweithredu i sicrhau ei bod yn diwallu'r canlyniadau a fwriedir.

# Pensiynau ac incwm ymddeoliad

Ein nod cyffredinol – fel sy'n cael ei nodi yn ein Strategaeth Pensiynau a ddatblygwyd ar y cyd â'r Rheolydd Pensiynau, yw darparu cynhyrchion incwm ymddeol a phensiynau sy'n cefnogi pobl ac yn cynyddu gwerth darpariaeth ariannol ar gyfer y dyfodol; pensiynau sy'n cael eu hariannu'n dda, yn cael eu llywodraethu'n dda ac sy'n sicrhau gwerth am arian; ac sy'n darparu'r adnoddau i alluogi pobl i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth. Mae ein gwaith sy'n hybu'r canlyniadau hyn wedi datblygu ein hamcanion diogelu defnyddwyr a chystadleuaeth.

Hefyd, rydym wedi rhoi sylw i rai o brif feysydd gwaith yn y bennod ar Gynilion tymor hir, pensiynau a gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau, gan gynnwys: ein Hadolygiad o Ganlyniadau Ymddeol, cyngor anaddas ar drosglwyddo pensiynau, gwaith ar gynilion digonol a chystadleuaeth effeithiol mewn pensiynau heb fod yn y gweithle.

Y niwed cyffredinol yn y maes hwn yw defnyddwyr ddim yn cael digon o incwm, neu ddim yn cael yr incwm maent yn disgwyl ei gael, ar ôl ymddeol. Nid yw hyn yn rhywbeth y gallwn roi sylw iddo ar ein pen ein hun, ond mae ein Strategaeth Pensiynau yn mynd i'r afael â rhai o'r prif faterion y tu ôl i hyn.

## Strategaeth Pensiynau

Eleni, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar gynhyrchu ein strategaeth reoleiddio ar y cyd â'r Rheolydd Pensiynau (TRP), sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer y sector dros y pump i ddeng mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth yn cyflwyno ein blaenoriaethau'n glir yn ogystal â sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r problemau rydym yn eu gweld yn y sector. Hefyd, mae'n ei gwneud hi'n haws i'n holl randdeiliaid ddeall ein rôl yn y sector pensiynau ac incwm ymddeol.

Mae'r strategaeth yn cynnwys dau faes blaenoriaeth newydd ar gyfer cydweithredu: adolygiad strategol o daith pensiynau lawn y defnyddiwr; a defnyddio ein pwerau i helpu i arwain at werth am arian i aelodau cynlluniau pensiwn, gan gynnwys pennu a gorfodi safonau clir er mwyn sicrhau gwerth am arian pan fo hynny'n berthnasol.

Rydym yn credu y bydd rhoi ein strategaeth ar waith yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i alluogi aelodau cynlluniau pensiwn a defnyddwyr i wneud penderfyniadau da, i wneud y mwyaf o'u cynilion, ac i sicrhau bod eu harian yn cael ei warchod a'i reoli yn dda, yn unol â'u hanghenion.

## Ymestyn cylch gwaith Pwyllgorau Llywodraethu Annibynnol ar gyfer cynlluniau pensiwn yn y gweithle

Ym mis Mehefin 2018, fe wnaethom ymateb i argymhellion Comisiwn y Gyfraith ein bod ni'n ymestyn goruchwyliaeth y Pwyllgor Llywodraethu Annibynnol (IGC) i gynnwys polisïau cwmnïau ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) yng nghyswllt pensiynau personol yn y gweithle.

Fe wnaethom ddweud ein bod ni'n cytuno'n fras â chynigion Comisiwn y Gyfraith ac y byddem yn ymgynghori fel rhan o becyn ehangach o newid mewn rheolau ar gyfer IGCs. Roedd ein papur ymgynghori dilynol yn cynnig newid rheolau i'w gwneud hi'n ofynnol i IGC gadw golwg ar bolisïau cwmnïau o ran ESG a'r gwerth am arian a geir gan ein llwybrau buddsoddi arfaethedig ar gyfer defnyddwyr nad ydynt wedi cael cyngor sy'n dewis tynnu arian i lawr. Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn ar gael yn y bennod ar Gynilion tymor hir a phensiynau, lle'r ydym yn adrodd ar lwybrau buddsoddi.

## Helpu defnyddwyr i osgoi sgamiau

Mae nifer y bobl sy'n chwilio am wybodaeth am sgamiau pensiwn wedi cynyddu'n sylweddol ers i ni lansio ein hymgyrch ScamSmart ar y cyd â'r TPR yn ystod haf 2018. Roedd yr ymgyrch yn annog pob deiliad pensiynau i fod yn ofalus ac yn ymwybodol o sgamiau pensiwn.

## Canlyniadau a monitro newid

Roedd ein Safbwyntiau ar y Sector 2018 yn nodi meysydd ffocws lle mae niwed yn digwydd yn barod, neu lle mae posibilrwydd y bydd niwed yn digwydd yn y sector incwm ymddeol.

Rydym yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth i fonitro'r rhain. Er enghraifft, os bydd defnyddwyr yn dewis cynhyrchion pensiwn heb gael cyngor nac arweiniad, gallai hyn arwain at lai o siopa o gwmpas a chynyddu'r risg y byddent yn prynu cynhyrchion llai o werth neu anaddas. Yn Chwarter 2 i Chwarter 3 2018, roedd cyfran y defnyddwyr a oedd yn cael cyngor neu arweiniad cyn dewis cynnyrch tynnu incwm i lawr yn 66% a 10% yn y drefn honno. Ni chymerodd 24% o ddefnyddwyr y naill na'r llall. Mae hyn yn cymharu â'r cyfnod chwe mis blaenorol, lle derbyniodd 69% o ddefnyddwyr cynhyrchion tynnu i lawr gyngor.

Roedd cyfran y defnyddwyr a oedd yn dewis blwydd-dal gyda chyngor neu arweiniad yn Chwarter 2 i Chwarter 3 2018 yn 27% a 29%. Mae hyn yn dangos bod nifer fawr yn fwy o ddefnyddwyr yn dewis blwydd-dal heb gael cyngor nac arweiniad o gymharu â chynhyrchion tynnu i lawr. Er bod hyn i'w ddisgwyl yn rhannol, efallai bod y defnyddwyr hyn yn methu allan ar gyfraddau blwydd-dal gwell neu'n peidio â siopa o gwmpas i gael y fargen orau.

Mae Arolwg Financial Lives 2017 yn dangos mai dim ond 46% o ddefnyddwyr oedd yn siopa o gwmpas yn ystod y 1-3 blynedd cyn 2017, wrth ddewis tynnu pensiwn i lawr a dim ond 51% o ddefnyddwyr oedd yn siopa o gwmpas wrth brynu blwydd-dal.

Mae'r bygythiad o sgamiau pensiwn yn parhau i fod yn niwed allweddol yn y sector hwn. Roedd pleidlais a gynhaliwyd gennym ni a'r Rheolydd Pensiynau (TRP) yn 2018 yn datgelu na fyddai bron i draean (32%) deiliaid pensiynau rhwng 45 a 65 oed yn gwybod sut i wirio a oeddent yn siarad â darparwr neu gynghorydd pensiynau go iawn. Dywedodd un o bob wyth o'r bobl 45-65 oed yn yr arolwg (12%) y byddent yn ymddiried mewn rhywun oedd yn honni ei fod yn gynghorydd pensiynau a fyddai'n cynnig cynnal adolygiad pensiwn am ddim. Mae ein timau arbenigol yn parhau i fonitro'r farchnad i nodi a mynd i'r afael ag achosion o gam-werthu pensiynau a thwyll gan gwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio a rhai nad ydynt yn cael eu rheoleiddio.

Yng nghyswllt hyder a chymryd rhan, dangosodd Arolwg Financial Lives 2017 fod gan ddefnyddwyr â chynhyrchion troi pensiwn yn incwm lefel uchel o hyder mewn darparwyr troi pensiwn yn incwm, yn arbennig o ran blwydd-dal (42%) a thynnu incwm i lawr (46%). Roedd ymddiriedaeth mewn darparwyr pensiwn cyfraniad diffiniedig (cronnol) yn is, fodd bynnag. Dim ond 14% oedd â lefel uchel o ymddiriedaeth a 29% â lefel gymedrol o ymddiriedaeth. Rydym yn bwriadu parhau i fonitro hyn drwy ailgynnal yr arolwg yn y dyfodol.

Mae ein gwaith gyda Phwyllgorau Llywodraethu Annibynnol (IGCs) wedi canfod amrywiaeth helaeth yn y ffordd y maent wedi asesu gwerth am arian. Rydym wedi gweld enghreifftiau o adroddiadau sy'n nodi'n glir iawn fod yr IGC wedi cynnal asesiad, gyda system sgorio a fframwaith clir. Ond mae llai o esboniad i'w gael mewn adroddiadau eraill. Rydym yn bwriadu adolygu effeithiolrwydd IGC yn 2019/20. Rydym hefyd yn bwriadu adolygu effaith cynigion llwybr buddsoddi ehangach yn dilyn ein Hadolygiad o Ganlyniadau Ymddeol. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi'r ffioedd y mae darparwyr yn eu defnyddio ar gyfer atebion llwybrau a bydd yn ein helpu ni i werthuso pa mor dda yw IGCs am helpu i sicrhau bod atebion llwybrau buddsoddi yn werth da am arian.

Ar ôl lansio ein hymgyrch ScamSmart gyda'r TPR, cynyddodd traffig i wefan ScamSmart bum gwaith. Ymwelodd dros 173,000 o bobl – 3,145 y dydd ar gyfartaledd – â'r wefan yn ystod cyfnod yr ymgyrch. Hefyd, rhybuddiwyd 370 o ddefnyddwyr am gwmni pensiynau heb ei awdurdodi ar ôl defnyddio ein Rhestr Rhybudd o gwmnïau rydym yn ymwybodol eu bod yn gweithredu heb awdurdodiad.

Mae ein strategaeth bensiynau ar y cyd â'r TPR yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer y sector pensiynau dros y pump i ddeng mlynedd nesaf. Byddwn yn defnyddio ystod o ddata meintiol, yn ogystal â dyfarniadau mwy ansoddol, i asesu a yw ein gwaith yn cael yr effaith a fwriedir o ran lleihau niwed i ddefnyddwyr a chyflawni ein hamcanion. Byddwn yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r strategaeth a'r cynllun gweithredu cysylltiedig mewn tair blynedd.

Yn olaf, mae trosglwyddiadau pensiwn wedi parhau i fod yn flaenoriaeth i ni yn 2018. Mae'r nifer sydd wedi trosglwyddo allan o bensiynau buddion diffiniedig i bensiynau cyfraniadau diffiniedig wedi cynyddu'n raddol ers cyflwyno trefniadau rhyddid pensiwn. Adroddwyd ar 24,000 o drosglwyddiadau yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Medi 2017 o gymharu ag ychydig dros 5000 rhwng Hydref 2015 a Mawrth 2016. Eleni, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar y cwmnïau darparu cyngor sydd fwyaf gweithredol yn y farchnad.

# Bancio adwerthu

Mae'r sector bancio adwerthu yn borth i'r gwasanaethau ariannol i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr, ac mae'n ganolog i fywydau bron iawn pob defnyddiwr, busnes a sefydliad yn y DU.

Mae arloesi o ran gwasanaethau talu wedi arwain at ddewisiadau amgen i nifer o'r gwasanaethau sydd wedi bod yn cael eu darparu'n draddodiadol gan fanciau ochr yn ochr â chyfrifon cyfredol. Er enghraifft, mae cwmnïau talu ac e-arian yn cynnig cynhyrchion a gwasanaethau sy'n ategu neu sy'n lle cynhyrchion a gwasanaethau a oedd yn arfer cael eu darparu gan fanciau, cymdeithasau adeiladu a chwmnïau traddodiadol.

Mae rheoliadau, technoleg a newid mewn ymddygiad defnyddwyr yn arwain at newid sylweddol ac mae'r sector yn mynd drwy gyfnod o newid. Disgwylir y bydd gweithredu PSD2 a Bancio Agored yn arwain at gyflymu'r broses o ddatblygu gwasanaethau taliadau ar-lein arloesol a'r defnydd a wneir o'r gwasanaethau hynny, er budd cwsmeriaid.

Mae nifer o gwmnïau technoleg wedi dechrau mynd i'r farchnad taliadau. Mae gweithgareddau rhai o'r cwmnïau hyn y tu allan i ffin neu ar ffin y perimedr rheoleiddio. Mae rhagor o fanylion am y rhain ar gael yn ein hadroddiad Perimedr.

Yn ogystal â'r gwaith rydym yn adrodd arno yn y bennod hon, mae darnau allweddol o waith sy'n cael effaith ar y sector bancio adwerthu wedi'u cynnwys yn ein blaenoriaethau traws sector, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Mae ein hadolygiad strategol o fodelau busnes bancio adwerthu yn cael sylw yn y bennod ar arloesi, data mawr, technoleg a chystadleuaeth
- Rhoi mynediad at brosesau datrys anghydfod i Fusnesau Bach a Chanolig, sy'n cael ei drafod yn yr adran ar drin cwsmeriaid presennol
- Delio ag achosion o dwyll a sgamiau - adroddir ar hyn yn y bennod ar droseddau ariannol
- Ein gwaith yng nghyswllt diogelwch data, cadernid a threfniadau drwy gontractau allanol
- Camau rydym wedi'u cymryd yng nghyswllt gorddrafftiau a'r farchnad cynilion ariannol. Adroddir ar y rhain o dan gredyd cost uchel a chynilion tymor hir, pensiynau a gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau

## Helpu cwmnïau i baratoi ar gyfer clustnodi

Daeth y rheolau clustnodi i rym ar 1 Ionawr 2019. Maent wedi'u dylunio i warchod defnyddwyr, a'r gwasanaethau bancio o ddydd i ddydd maent yn dibynnu arnynt rhag risgiau nad ydynt yn gysylltiedig â nhw mewn mannau eraill yn y grŵp bancio ac o siociau sy'n effeithio ar y system ariannol ehangach.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA) a chwmnïau y mae clustnodi yn effeithio arnynt, i asesu, monitro a rheoli'r prif faterion. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys goruchwylio cynlluniau clustnodi cwmnïau, trafodion rheoleiddiol a chymryd rhan mewn cynlluniau trosglwyddiadau clustnodi, a oedd yn symud rhannau o'r banciau i fanciau a oedd newydd gael eu clustnodi neu fanciau heb gael eu clustnodi.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda chwmnïau ar sicrhau canlyniadau da i gwsmeriaid a chyfyngu'r effaith ar y gwasanaeth a ddarperir. Hefyd, rydym wedi bod yn gweithio tuag at sicrhau nad oedd clustnodi'n arwain at gynnydd mewn achosion o dwyll yn y broses.

## Datblygu strategaeth sector taliadau

Mae strategaeth y sector ar gyfer taliadau wedi canolbwyntio ar ddatblygu ein dealltwriaeth o faterion yn y system daliadau (a mynd i'r afael â nhw), yn arbennig ymhlith cwmnïau taliadau nad ydynt yn fanciau.

Rydym wedi rhoi sylw i'r amcanion hyn drwy raglen oruchwylio ragweithiol ac ymatebol. Rydym wedi cysylltu â chwmnïau taliadau i ddysgu mwy am y prif faterion y maent yn eu hwynebu, er enghraifft, drwy ein digwyddiadau Byw a Lleol.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Rheoleiddiwr Systemau Talu wrth i'r diwydiant ddatblygu cod i fynd i'r afael ag achosion o niwed sy'n deillio o dwyll Taliad Gwthio Awdurdodedig (APP), gan rannu'r dadansoddiadau pan oedd hyn yn ddefnyddiol. Fe wnaethom gyhoeddi rheolau newydd sy'n gwella'r ffordd y mae'n rhaid i gwmnïau ymdrin â chwynion a wneir i'r Darparwr Gwasanaeth Taliadau (PSP) sy'n derbyn eu taliad. Fe wnaethom gyhoeddi rheolau newydd a oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau adrodd ar y cwynion hyn.

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Banc Lloegr ei fod yn ymestyn mynediad at gyfrifon Setliadau Gros Amser Real ar gyfer PSPs nad ydynt yn fanciau sy'n dymuno ymuno â'r cynlluniau talu fel aelodau uniongyrchol. Rydym wedi gorffen asesu chwe chwmni ym meysydd llywodraethu, diogelu a throseddau ariannol. Rydym wrthi'n asesu pedwar arall a fydd yn gobeithio cael mynediad yn ystod y flwyddyn nesaf.

Fe wnaethom adolygu trefniadau diogelu 11 o gwmnïau i asesu a fyddai arian defnyddwyr yn cael ei ddiogelu pe byddai'r cwmnïau'n methu. Os ydym wedi nodi problemau â threfniadau diogelu'r cwmnïau hyn, byddwn yn gofyn iddynt weithredu i sicrhau nad yw defnyddwyr yn wynebu colled ariannol mewn digwyddiad ansolfedd. Gyda'r hyn rydym wedi'i ddysgu yn gefndir, byddwn yn ceisio cyfleu ein disgwyliadau ynghylch y materion hyn yn ehangach.

Fe wnaethom ymestyn ein Hegwyddorion ar gyfer Busnes a rhai rheolau cyfathrebu i gynnwys y gwasanaethau talu a'r sectorau e-arian er mwyn gwella safonau a hyrwyddo dulliau diogelu a chanlyniadau gwell i gwsmeriaid.

## Darparu'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Talu ddiwygiedig (PSD2)

Ym mis Ionawr 2018, cyflwynodd y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Talu ddiwygiedig (PSD2) ofynion newydd ar gyfer sefydliadau taliadau awdurdodedig a sefydliadau e-arian er mwyn cryfhau diogelwch defnyddwyr, hyrwyddo arloesi a gwella diogelwch gwasanaethau talu. Roedd y rhain yn cynnwys newidiadau i reolau cynnal busnes, ymdrin â chwynion a dyletswyddau adrodd newydd.

Ar ôl yr ymgynghoriad, fe wnaethom roi canllawiau Awdurdod Bancio Ewrop ar waith o ran mesurau diogelwch ar gyfer risgiau gweithredol a diogelwch ym mis Gorffennaf 2018. Ym mis Medi 2018, fe wnaethom ymgynghori ar reolau a chanllawiau newydd er mwyn gweithredu Safonau Technegol Rheoleiddiol ar Ddilysu Cwsmeriaid yn Gadarn (SCA-RTS) a Chyfathrebu Diogel Cyffredin (CSC). Mae'r rhain yn arwain at newidiadau pwysig i'r diogelwch sydd gan ddarparwyr o ran taliadau a bancio ar-lein. Maent hefyd yn arwain at newidiadau pwysig i sut mae cwsmeriaid yn rhyngweithio â nhw (er enghraifft dilysu dau gam). Cyhoeddwyd ein Datganiad Polisi ym mis Rhagfyr 2018. Fe wnaethom gwrdd â chwmnïau a rhanddeiliaid eraill i drafod yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth roi SCA-RTS ar waith. Byddwn yn cadw llygad barcud ar gynnydd cwmnïau yn y cyfnod sy'n arwain at y dyddiad cau, sef 14 Medi 2109, ar gyfer rhoi'r newidiadau hyn ar waith.

Yn 2018, llwyddodd dros 200 o gwmnïau newydd i gael eu hawdurdodi neu eu cofrestru. Mae nifer o'r rhain wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â Bancio Agored. Mae PSD2 wedi cyflwyno dau wasanaeth newydd o dan reolaeth yr FCA – Gwasanaeth Gwybodaeth am Gyfrifon a Darparwyr Gwasanaeth Cychwyn Talu.

Mae'n ddyletswydd ar ddarparwyr cyfrifon, fel banciau, i baratoi ar gyfer gwasanaethau Bancio Agored o dan PSD2 hefyd. Caiff darparwyr cyfrifon ar-lein wneud cais i ni i ofyn am eithrio eu rhyngwyneb Bancio Agored rhag rhai gofynion SCA-RTS. Rydym wedi dechrau asesu cwmnïau ac wedi derbyn ceisiadau eithrio ym mis Ionawr 2019.

Hefyd, rydym nawr yn goruchwylio dros 90 o gwmnïau sy'n ymgymryd â'r gweithgareddau sydd newydd ddechrau cael eu rheoleiddio o ddarparu gwasanaethau cychwyn talu a gwybodaeth am gyfrifon. Mae hyn yn cynnwys cysylltiad cychwynnol â phob cwmni ar ôl iddynt gael eu hawdurdodi neu eu cofrestru.

Hefyd, at ddibenion cynlluniau wrth gefn ar gyfer Brexit heb gytundeb, fe wnaethom gyhoeddi Papur Ymgynghori (CP18/44) ar sut rydym yn bwriadu gwneud safonau technegol yr un fath â'r SCA-RTS i raddau helaeth os na cheir cyfnod gweithredu ar ôl i'r DU adael yr UE.

## Mynediad at arian parod a changhennau

Roedd ein Hadolygiad Strategol o Fancio Adwerthu yn cydnabod y gallai cau ATM a changhennau banc effeithio ar ddefnyddwyr a busnesau bach sy'n dibynnu ar arian parod. Mae llai a llai o bobl yn talu am drafodion ag arian parod, ac mae'n debyg mai gostwng fydd y niferoedd eto wrth i daliadau digyswllt a mathau eraill o daliadau electronig gynyddu.

Yn ystod 2019/20 byddwn yn parhau i nodi effeithiau arloesi ar fynediad cwsmeriaid at wasanaethau talu. Mewn cysylltiad â'r ffaith fod llai yn defnyddio arian parod, rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Trysorlys, Banc Lloegr a'r Rheoleiddiwr Systemau Talu drwy gyfrwng y Cyd-Grŵp Strategaeth Arian Parod Awdurdodau.

## Yswiriant Gwarchod Taliadau (PPI) - Dyddiad Cau ar gyfer Cwynion

29 Awst 2019 yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cwyn am PPI a gafodd ei gam-werthu. Fe wnaethom lansio ein hymgyrch cwynion am PPI ym mis Awst 2017. Mae'n defnyddio ystod eang o sianeli, gan gynnwys teledu, print, digidol a radio, i godi ymwybyddiaeth o'r dyddiad cau ac i ysgogi unrhyw un sy'n bwriadu gwirio neu gwyno am hyn cyn iddi fod yn rhy hwyr.

## Canlyniadau a monitro newid

Roedd ein Safbwyntiau ar y Sector 2018 yn nodi meysydd ffocws lle mae niwed yn digwydd yn barod, neu lle mae posibilrwydd y bydd niwed yn digwydd yn y sector bancio adwerthu.

Rydym yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth i fonitro'r rhain. Er enghraifft, fe wnaethom fonitro gallu bron i 300 o gwmnïau o ran technoleg a seiber er mwyn asesu cadernid technolegol y diwydiant yn well. Fe wnaeth hyn gadarnhau bod gofyn i ni barhau i ganolbwyntio mwy ar y maes hwn.

Mae diweddariad hanner blwyddyn Cyllid y DU ar dwyll yn dangos bod cyfanswm y colledion oherwydd sgamiau APP yn £145.4 miliwn yn ystod hanner cyntaf 2018. Mae hyn yn gynnydd o 44% o gymharu â'r un cyfnod yn 2017. Hefyd, cafwyd 34,128 o achosion o sgamiau APP yn ystod hanner cyntaf 2018, o gymharu â 19,370 yn ystod hanner cyntaf 2017, cynnydd o 76%. Er nad oes modd cymharu'r ffigurau hyn yn uniongyrchol, maent yn dangos bod y broblem hon ar gynnydd.

Roedd Arolwg Financial Lives 2017 yn dangos bod 3% o oedolion y DU heb fanc a bod gan 77% ohonynt nodweddion bregusrwydd posibl. Byddwn yn parhau i fonitro hyn yn ein Harolwg Financial Lives nesaf.

Rydym yn asesu pa mor dda mae cystadleuaeth yn gweithio drwy edrych ar sawl dangosydd, gan gynnwys faint o gwsmeriaid sy'n newid cyfrifon cyfredol. Yn 2017, roedd data gan y Gwasanaeth Cyfnewid Cyfrif Cyfredol yn dangos bod 931,956 o gwsmeriaid wedi newid cyfrifon cyfredol. Roedd y ffigur hwn wedi disgyn i 929,070 yn 2018.

Nod ein gwaith clustnodi oedd cyfyngu ar yr effaith ar wasanaethau i gwsmeriaid a sicrhau nad oedd clustnodi'n cael ei ddefnyddio i guddio rhag twyll. Cwblhaodd cwmnïau eu gwaith ailstrwythuro heb amharu gormod ar bethau. Bydd ein gwaith goruchwylio rhagweithiol yn parhau i fonitro a yw cwmnïau'n ymgorffori rheolau'n effeithiol ac yn rheoli unrhyw risgiau gweithredol, fel cadernid. Byddwn yn cynnal gwerthusiad arall yn 2020/21, a bydd y Trysorlys yn sefydlu adolygiad annibynnol o weithredu deddfwriaeth clustnodi cyn 2021.

O dan PSD2, mae gofyn i gwmnïau taliadau adrodd ar ddata am dwyll, ac rydym wedi dechrau defnyddio'r data hyn yn ein gwaith diagnosteg. Rydym hefyd yn defnyddio gwybodaeth o adroddiadau PSD2 eraill ar ddigwyddiadau mawr, cadernid gweithredol a mynediad at gyfrifon talu, i arwain ein strategaeth.

Rydym yn datblygu'r ffordd rydym yn defnyddio data PSD2, gan ganolbwyntio ar fesurau gwrth-dwyll ar gyfer taliadau a mynediad i gyfrifon ar gyfer bancio agored. Bydd y data hyn ar gael o 14 Medi 2019.

Ym mis Hydref 2018, fe wnaethom adrodd ar hynt ein hymgyrch PPI, flwyddyn ar ôl ei lansio. Mae'r canlyniadau'n gadarnhaol yn erbyn ein prif fesurau perfformiad. Mae ein harolwg olrhain cenedlaethol yn dangos bod 73% o boblogaeth dros 25 oed y DU yn gwybod am ein hymgyrch ac mae dros 3 miliwn o bobl eisoes wedi mynd ar ein gwefan sy'n benodol ar gyfer PPI.

Mae'n galonogol gweld bod mwy o ddefnyddwyr wedi bod yn gweithredu hefyd. Yn ystod y 10 mis ar ôl lansio'r ymgyrch, cafwyd 8.4m o ymholiadau gwirio PPI a 3.7m o gwynion am PPI. Mae hyn yn gynnydd o 63% ar y 10 mis cyn i ni lansio'r ymgyrch. Hefyd, fe wnaethom ganfod bod mwy o ddefnyddwyr yn cwyno'n uniongyrchol eu hunain, yn hytrach na defnyddio cwmnïau rheoli hawliadau, felly roeddent yn cael gwell canlyniadau ariannol yn y pen draw.

# Benthyca Adwerthu

Mae gan tua 39 miliwn o bobl yn y DU fenthyciadau, sy'n werth dros £1.63trn yn ôl yr amcangyfrifon. Mae £1.42trn o'r cyfanswm hwn yn fenthyciadau morgais ac mae £216bn yn fenthyciadau credyd defnyddwyr.

Mae benthyca adwerthu yn caniatáu i ddefnyddwyr fenthyca er mwyn diwallu eu hanghenion ariannol a gall eu helpu i reoli llif arian neu i brynu rhywbeth. Ond, gall nifer fechan o ddefnyddwyr brofi niwed sylweddol o ganlyniad i fenthyca anaddas. Mae hyn yn cael effaith anghymesur ar gwsmeriaid agored i niwed, ac mae rhai modelau busnes yn dibynnu ar fenthyca anfforddiadwy fel cymhorthdal ar gyfer y rhai sy'n talu ar amser.

Ein rôl ni yw sicrhau bod cwmnïau'n gwerthu cynhyrchion i gwsmeriaid sy'n fforddiadwy ac yn briodol ar gyfer eu hamgylchiadau, a'u bod yn cymryd camau priodol pan fydd cwsmeriaid mewn anawsterau ariannol. Rydym yn canolbwyntio ar y niwed y mae ymddygiad gwael yn ei achosi, yn arbennig pan fydd hynny'n effeithio ar gwsmeriaid sy'n fwy agored i niwed.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r twf mewn benthyca credyd defnyddwyr wedi arafu, yn bennaf oherwydd gostyngiad sylweddol mewn cytundebau cyllid cerbydau modur newydd. Mae'r sector yn parhau i ddatblygu yn sgil newid rheoliadol. Rhoddir sylw i hyn yn y bennod ar gredyd cost uchel hefyd.

## Asesu addasrwydd am gredyd mewn credyd defnyddwyr

Daeth rheolau newydd i rym ar 1 Tachwedd 2018. Bwriad y rheolau hyn oedd egluro'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan gwmnïau yng nghyswllt asesu teilyngdod credyd ar gyfer credyd defnyddwyr. Yn ein Datganiad Polisi (PS18/19), fe wnaethom nodi ein bod ni am i gwmnïau gynnal asesiad rhesymol, nid yn unig o a fydd y cwsmer yn ad-dalu, ond hefyd o'u gallu i ad-dalu yn fforddiadwy heb i hynny effeithio eu sefyllfa ariannol ehangach yn sylweddol.

Mae'r rheolau'n nodi'n glir yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gan gwmnïau, yn arbennig o ran y canlynol:

- y gwahaniaeth rhwng fforddiadwyedd a risg credyd
- sicrhau bod asesiadau credyd yn gymesur
- rôl gwybodaeth am incwm a gwariant defnyddwyr
- yr angen am bolisïau a gweithdrefnau clir ac effeithiol

Dylai'r newidiadau helpu i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu gwarchod rhag niwed yn sgil benthyciadau anfforddiadwy. Byddwn yn olrhain pa mor effeithiol yw cwmnïau am gydymffurfio â'r rheolau hyn yn ein gwaith goruchwylio parhaus.

## Gwneud i'r farchnad morgeisi weithio'n well i ddefnyddwyr

Rydym wedi cyhoeddi adroddiad terfynol ein hastudiaeth o'r farchnad morgeisi. Canfu fod y farchnad morgeisi'n gweithio'n dda mewn sawl ffordd. Mae llawer o ymgysylltu'n digwydd ac mae defnyddwyr yn cael morgeisi sy'n addas ac yn fforddiadwy. Ond gallai weithio'n well mewn ffyrdd eraill hefyd. Yn benodol, mae cyfyngiadau ar ba mor effeithiol yw'r wybodaeth a'r adnoddau sydd ar gael i ddefnyddwyr. Mae hyn yn golygu bod nifer o ddefnyddwyr yn colli allan ar fargeinion rhatach sydd yr un mor addas.

Rydym am annog mwy o roddwyr benthyciadau i gymryd rhan mewn adnoddau arloesol i helpu cwsmeriaid i ganfod pa forgeisi y gallant fod yn gymwys ar eu cyfer, yn gynharach yn y broses.

Rydym hefyd yn bryderus na all rhai defnyddwyr newid i forgais sy'n fwy fforddiadwy, er eu bod yn talu'n brydlon. Mae hyn yn cynnwys y bobl nad ydynt yn gallu newid oherwydd bod arferion benthyca wedi newid yn ystod argyfwng ariannol 2008 ac ar ôl hynny, a'r rheoliadau dilynol a arweiniodd at dynhau safonau benthyciadau. Rydym wedi cyhoeddi Papur Ymgynghori i geisio helpu'r benthycwyr hyn. Bydd y newidiadau arfaethedig i'n rheolau benthyca cyfrifol yn galluogi rhoddwyr benthyciadau i gynnal asesiadau fforddiadwyedd sy'n fwy gymesur i ddefnyddwyr sy'n bwriadu symud i gael morgais sy'n fwy fforddiadwy heb fenthyca rhagor.

Roedd ein hastudiaeth o'r farchnad hefyd wedi canfod 3 niwed a oedd yn gysylltiedig â chyngor ar forgeisi a dosbarthu morgeisi, sef:

- mae rheolau a chanllawiau ein cyngor yn rhwystr rhag datblygu adnoddau i helpu defnyddwyr i ddewis a phrynu morgais
- mae defnyddwyr a hoffai brynu morgais ar sail gweithredu'n unig yn ei chael hi'n anodd, oherwydd bod sylw'n cael ei droi at gyngor ac oherwydd nad yw sianeli gwerthu gweithredu'n unig bob amser yn rhwydd i'w defnyddio
- mae nifer o ddefnyddwyr yn gordalu ar eu morgeisi, hyd yn oed pan fyddant yn cael cyngor

Rydym yn ymgynghori ar ragor o newidiadau arfaethedig i'n rheolau a'n canllawiau ar gyngor er mwyn rhoi sylw i'r achosion hyn o niwed.

## Modelau taliadau cydnabyddiaeth brocer credyd yn y man gwerthu

Fe wnaethom adolygu model comisiynu a modelau taliadau cydnabyddiaeth eraill rhwng broceriaid credyd a chwmnïau eraill (fel rhoddwyr benthyciadau) i weld a ydynt yn arwain at ganlyniadau gwael i gwsmeriaid. Ni wnaethom edrych ar froceriaid cyllid cerbydau modur, sydd wedi cael eu hadolygu ar wahân.

Ni wnaethom ganfod tystiolaeth fod comisiwn rhwng cwmnïau a dalwyd i froceriaid credyd yn achosi niwed sylweddol helaeth i ddefnyddwyr. Ond, nid yw hyn yn golygu nad yw niwed yn digwydd am resymau heblaw am gomisiynu, ac mae ein hadroddiad yn nodi rhai enghreifftiau o ganlyniadau gwael i gwsmeriaid.

Roedd ein gwaith yn dangos bod rhai cwmnïau cyllid masnachol yn defnyddio modelau comisiynu pan fydd swm y taliadau llog yn gysylltiedig â swm y comisiwn y bydd brocer yn ei ennill. Fe wnaethom edrych ar y model comisiwn hwn yn fwy eang fel rhan o'n hadolygiad o gyllid cerbydau modur.

O ganlyniad, byddwn yn parhau i fonitro gweithgareddau broceriaid credyd fel rhan o'n strategaeth goruchwylio barhaus ac yn rhoi sylw i unrhyw niwed mewn cwmnïau unigol pan fyddwn yn gweld hynny.

## Sicrhau bod y sector rheoli dyledion yn gweithio'n dda

Mae gwasanaethau rheoli dyledion a chyngor ar ddyledion o ansawdd gwael yn peri risg uchel iawn i ddefnyddwyr, yn arbennig i'r rhai sydd mewn amgylchiadau agored i niwed.

Ym mis Mawrth 2019, fe wnaethom gyhoeddi canfyddiadau ein hail adolygiad thematig o'r sector rheoli dyledion. Roedd yn edrych ar gwmnïau masnachol a chyrff cyngor ar ddyledion dielw sy'n darparu cyngor ac sy'n gweinyddu cynlluniau rheoli dyledion. Fe wnaethom ganfod nifer o welliannau o ran safon y cyngor a'r canlyniadau i ddefnyddwyr ers ein hadolygiad blaenorol yn 2014/15.

Roedd ein canfyddiadau'n dangos bod cwmnïau'n neilltuo mwy o amser ac adnoddau ar weinyddu cynlluniau rheoli dyledion, yn arbennig wrth adolygu pa mor addas yw cynlluniau rheoli dyledion, drwy wneud a chynnal cyswllt â chwsmeriaid er mwyn cynnal adolygiadau blynyddol.

Mae angen i rai cwmnïau weithio'n galetach i sicrhau eu bod yn cyflawni canlyniadau da yn gyson. Mae angen gwella rhai meysydd yn sylweddol o hyd, yn arbennig o ran canfod a thrin cwsmeriaid agored i niwed ac ansawdd y cyngor a roddir i gwsmeriaid sy'n gofyn am gyngor gyda'i gilydd (er enghraifft, fel cwpl) neu sydd eisoes ar gynllun rheoli dyled ar y cyd.

Rydym yn cymryd rhagor o gamau â chwmnïau i fynd i'r afael â phroblemau cyson. Mae rheoli dyledion yn parhau i fod yn flaenoriaeth, a byddwn yn parhau i fonitro'n agos ac yn ymyrryd pan fydd cwmnïau'n methu â bodloni'n safonau.

## Cyllid cerbydau modur

Canfu ein hadolygiad o'r sector cyllid cerbydau modur ddefnydd helaeth o fodelau comisiynu sy'n caniatáu i froceriaid bennu cyfradd llog y cwsmer, gan ennill mwy o gomisiwn o ganlyniad i hynny. Gall hyn arwain at wrthdaro rhwng buddiannau, nad yw rhoddwyr benthyciadau'n eu rheoli'n ddigonol, a chwsmeriaid yn talu llawer mwy am eu cyllid cerbydau modur.

Fe wnaethom ganfod bod y defnydd helaeth o fodelau comisiynu sy'n rhoi disgresiwn i froceriaid bennu cyfradd llog y cwsmer ac ennill mwy o gomisiwn, yn gallu arwain at wrthdaro rhwng buddiannau nad ydynt yn cael eu rheoli'n ddigonol gan y rhoddwyr benthyciadau. Gall hyn arwain at gwsmeriaid yn talu llawer mwy am eu cyllid cerbydau modur.

Oherwydd y taliadau comisiwn uwch hyn, fe wnaethom ganfod bod rhai cwsmeriaid o bosibl yn talu dros £1000 mewn taliadau llog yn ystod cyfnod eu cytundeb. Rydym yn amcangyfrif y gallai hyn fod yn costio dros £300 miliwn i ddefnyddwyr yn y DU bob blwyddyn. Rydym yn asesu'r opsiynau ar gyfer ymyrryd yn y farchnad hon, er mwyn mynd i'r afael â'r niwed sydd wedi'i nodi. Gallai hyn gynnwys cryfhau rheolau presennol neu gamau eraill fel gwahardd mathau penodol o fodelau comisiynu neu gyfyngu ar ddisgresiwn broceriaid.

Hefyd, fe wnaethom ganfod y gall fod cwmnïau'n methu â diwallu eu rhwymedigaethau presennol o ran datgeliadau cyn contract ac esboniadau i ddefnyddwyr, yn ogystal ag o ran asesiadau fforddiadwyedd. Rydym yn dilyn i fyny â chwmnïau unigol lle'r oedd methiannau wedi'u nodi. Ond, rydym yn disgwyl i bob cwmni, yn rhoddwyr benthyciadau ac yn froceriaid, i adolygu eu polisïau, eu gweithdrefnau a'u rheolaethau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddio perthnasol ac yn trin cwsmeriaid yn deg.

## Adolygu darpariaethau a ddargedir Deddf Credyd Defnyddwyr 1974

Roedd yn ofynnol i ni o dan ddeddfwriaeth i adolygu darpariaethau Deddf Credyd Defnyddwyr 1974 (CCA) a oedd wedi'u dargadw mewn deddfwriaeth pan oedd y cyfrifoldeb dros reoleiddio credyd defnyddwyr yn trosglwyddo i'r FCA ym mis Ebrill 2014, ac adrodd i'r Trysorlys erbyn 1 Ebrill 2019.

Yn benodol, roedd gofyn i ni ystyried a fyddai diddymu darpariaethau CCA yn cael effaith niweidiol ar gyfradd briodol y warchodaeth i ddefnyddwyr, gan gynnwys ystyried pa ddarpariaethau CCA y gallai rheolau'r FCA eu disodli a hynny wrth ystyried cymesuredd cwmnïau.

Fe wnaethom gyflwyno ein hadroddiad terfynol i'r Trysorlys ym mis Mawrth 2019. Ni wnaethom gynnwys argymhellion ffurfiol, ond mae'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad a thystiolaeth i alluogi'r Llywodraeth i wneud penderfyniadau.

## Astudiaeth o'r farchnad ar wybodaeth am gredyd

Yn ein Cynllun Busnes 2018/19, fe wnaethom ddweud y byddem yn lansio astudiaeth o'r farchnad ar wybodaeth am gredyd yn ystod Chwarter 4 2018/19. Ein nod yw sicrhau bod y farchnad bwysig hon yn gweithio cystal â phosibl er mwyn sicrhau'r manteision gorau i ddefnyddwyr. Cafodd hyn ei oedi tan fis Mehefin 2019, tra roeddem yn canolbwyntio adnoddau ar lansio astudiaeth o'r farchnad ar arferion prisio yswiriant cyffredinol.


## Canlyniadau a monitro newid

Roedd ein Safbwyntiau ar y Sector 2018 yn nodi meysydd ffocws lle mae niwed yn digwydd yn barod, neu lle mae posibilrwydd y bydd niwed yn digwydd yn y sector benthyciadau adwerthu.

Rydym yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth i fonitro'r rhain, ac mae data am ôl-ddyledion yn gallu bod yn ddangosydd defnyddiol ar gyfer cynhyrchion credyd anaddas a phenderfyniadau rhoi benthyciadau/benthyca gwael. Rydym yn gwybod y gall methu taliadau fod yn ganlyniad i ddigwyddiadau fel newid mewn cyflogaeth neu statws y cartref, ond hefyd gall ôl-ddyledion cynnar fod yn arwydd o fforddiadwyedd gwael ar y cychwyn.

Mae Ffigur 4.3 isod yn dangos nifer y defnyddwyr sydd mewn ôl-ddyled cymedrol (y rhai sydd wedi methu un neu ddau o daliadau) neu ôl-ddyledion difrifol (y rhai sydd wedi methu tri neu ragor o daliadau) mewn o leiaf un cynnyrch benthyca adwerthu (ac eithrio cyllid cerbydau modur). Mae'r cynnydd yn nifer y defnyddwyr mewn ôl-ddyled yn rhannol adlewyrchu'r twf yn nifer yr unigolion sy'n defnyddio cynnyrch credyd defnyddwyr. Byddwn yn ymchwilio ymhellach i weld a yw cynhyrchion neu gwmnïau penodol yn arbennig o gyfrifol am y cynnydd.

***Ffigur 4.3: Defnyddwyr mewn ôl–ddyled***





Roedd ein Harolwg, Financial Lives 2017, yn dangos bod gan gyfanswm o 15% o oedolion yn y DU orddyled (hynny yw, mae parhau i dalu biliau ac ymrwymiadau credyd yn faich sylweddol arnynt a/neu maent wedi methu taliadau mewn unrhyw dri neu ragor o'r chwe mis diwethaf).

O ran morgeisi, nid ydym wedi gweld fawr o newid o ran lefelau ôl-ddyled ers 2017. Mae ein data yn dangos bod tua 25 allan o bob 10,000 o forgeisi mewn diffyg 6 mis ar ôl eu sicrhau, ar ddiwedd 2018. Mae hyn yn arwydd fod graddfa'r defnyddwyr sy'n cymryd morgeisi na ellir eu fforddio o dan reolaeth ar hyn o bryd.


Mae Ffigur 4.4 yn dangos canran y morgeisi gyda diffygion talu yn ystod y 2-6 mis cyntaf ar ôl cael eu gwerthu yn ystod hanner cyntaf 2017, o gymharu â hanner cyntaf 2018.

***Ffigur 4.4: Amlder y diffygion talu sy'n digwydd yn fuan ar ôl gwerthu morgais***




Mae Ffigur 4.5 yn dangos y data hyn o ail hanner 2017 o gymharu ag ail hanner 2018. Rydym yn dibynnu ar gwmnïau'n anfon data cywir atom ac ar amser er mwyn cael y ffigurau hyn. Rydym yn parhau i adolygu ansawdd y data a monitro'r dangosydd hwn. Gallai unrhyw gynnydd parhaus mewn cyfraddau diffygion ddangos bod angen i ni gyflawni rhagor o waith i asesu a oes cynnydd mewn benthyciadau anfforddiadwy.

***Ffigur 4.5: Amlder y diffygion talu sy'n digwydd yn fuan ar ôl gwerthu morgais***




Canfu ein hadolygiad thematig blaenorol i reoli dyledion yn 2014/15 fod safon y cyngor ar ddyledion yn annerbyniol o isel. Yn ein hadolygiad thematig diweddar, fe wnaethom ganfod gwelliannau yn safonau'r cyngor a'r canlyniadau i ddefnyddwyr o ganlyniad i'n gwaith craffu parhaus a'r ffaith ein bod yn cadw llygad barcud ar y broses. Ond, fe wnaethom ganfod bod angen gwella rhai meysydd yn sylweddol hefyd, yn arbennig y ffordd yr oedd cwmnïau'n canfod ac yn trin cwsmeriaid agored i niwed ac ansawdd y cyngor a roddwyd i gwsmeriaid a oedd yn chwilio am gyngor ar y cyd.

Ym mis Mawrth 2019, fe wnaethom gyhoeddi canfyddiadau terfynol ein hadolygiad o'r sector cyllid cerbydau modur. Canfu'r adolygiad fod trefniadau comisiynu cyllid cerbydau modur yn gallu arwain at niwed i ddefnyddwyr ac y gallai modelau comisiynu o'r fath fod yn costio £300 miliwn yn fwy bob blwyddyn na'r modelau ffi sefydlog (lle nad oes gan y brocer unrhyw ddisgresiwn). Ar hyn o bryd, rydym yn asesu'r opsiynau ar gyfer ymyrryd er mwyn rhoi sylw i'r niwed hwn.

Mae gofyn i gwmnïau asesu teilyngdod credyd defnyddwyr yn briodol. Mae hyn yn cynnwys asesu fforddiadwyedd, er mwyn lleihau'r risg y bydd defnyddwyr yn cymryd dyled na ellir ei fforddio. Rydym yn disgwyl i gwmnïau fod wedi ymateb i'n rheolau credyd diwygiedig ar gyfer defnyddwyr ar asesu teilyngdod credyd drwy adolygu eu polisïau benthyca i sicrhau bod ganddynt brosesau effeithiol ar waith i ystyried fforddiadwyedd.

Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i roi atebion ar waith a fydd yn deillio o'n hastudiaeth o'r farchnad morgeisi a byddwn yn monitro canlyniadau unrhyw newidiadau a wnawn. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yr adnoddau newydd sy'n ceisio helpu defnyddwyr ddewis a phrynu morgais â rhoddwyr benthyciadau, cyfryngwyr a defnyddwyr. Byddwn yn gwerthuso pa mor llwyddiannus yw unrhyw newidiadau a wnawn i'n cyngor a'n rheolau benthyca'n gyfrifol drwy oruchwylio cwmnïau a monitro ffurflenni rheoleiddiol. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cynnal gwaith ymchwil neu'n gweithio gyda chwmnïau i asesu effaith y newidiadau y maent wedi'u gwneud, gan gynnwys ar y canlyniadau i ddefnyddwyr.

Byddwn hefyd yn cynnal rhagor o waith i ddeall nodweddion y cwsmeriaid morgais hynny nad ydynt yn newid (pan fyddent yn elwa o wneud hynny). Mae hyn yn cynnwys ystyried a oes gan y defnyddwyr hyn anghenion neu nodweddion cyffredin penodol, neu a yw'r niferoedd yn fwy dwys gyda rhoddwr benthyciadau penodol, fel y rheini nad ydynt yn mynd ati'n rhagweithiol i gynnig newid morgeisi'n fewnol.

## Diogelwch ac yswiriant cyffredinol

Mae ein Harolwg, Financial Lives, yn dangos bod gan y rhan fwyaf o oedolion y DU – 82% – un neu ragor o gynhyrchion yswiriant cyffredinol (GI). Yswiriant cartref a cherbyd modur yw'r rhai mwyaf cyffredin. Mae yswiriant cyfanwerthu yn sail i economi'r DU, ac mae'n gwarchod rhag risgiau mawr, cymhleth ac arbenigol, fel seilwaith. Ein nod yw sicrhau bod marchnadoedd yswiriant cyfanwerthu yn gweithredu'n effeithlon ac ag uniondeb. Ar yr un pryd, ein nod ar gyfer marchnadoedd adwerthu yw sicrhau eu bod yn arwain at gystadleuaeth a gwerth teg i ddefnyddwyr.

Tegwch, mynediad a gwerth i gwsmeriaid adwerthu, a marchnad gyfanwerthu sy'n gweithio'n effeithiol yw ein blaenoriaethau yn y sector hwn. Mae defnyddwyr yn y marchnadoedd cyfanwerthu ac adwerthu yn wynebu nifer o achosion posibl o niwed, gan gynnwys rhywun yn gwerthu cynhyrchion anaddas iddynt, cynhyrchion gwerth isel a seiberdroseddau.

Yn ogystal â'r gwaith rydym yn adrodd arno yn y bennod hon, rhoddir sylw i ddarnau allweddol o waith sy'n cael effaith ar y sector diogelu ac yswiriant cyffredinol adwerthu yn ein gwaith traws sector ar y ffordd y mae cwsmeriaid presennol yn cael eu trin. Mae'r rhain yn cynnwys ein gwaith ar asesu chwyddiant hawliadau a deall arferion prisio cwmnïau. Hefyd, rydym yn canolbwyntio ar reoli effaith Gadael yr UE ar y sector hwn, gan gynnwys ailstrwythuro cwmnïau fel trosglwyddo busnes o dan Ran VII FSMA.

Yng nghyswllt elfennau sy'n ymwneud â Gadael yr UE a gwaith rheoleiddio cyffredinol parhaus yn y sector, rydym wedi parhau i fod yn weithredol yn yr Awdurdod Pensiynau Galwedigaethol ac Yswiriant Ewrop (EIOPA) yn ogystal â pharhau i weithio gyda rheoleiddwyr cyfatebol. Rydym hefyd wedi bod yn cyfrannu mwy at Gymdeithas Ryngwladol y Goruchwylwyr Yswiriant (IAIS)

## Y Gyfarwyddeb Dosbarthu Yswiriant

Nid yw rhai cynnyrch yswiriant yn arwain at fanteision y mae defnyddwyr yn eu disgwyl, neu nid ydynt yn darparu gwerth. Gall ymddygiad gwael cwmnïau neu gwsmeriaid sy'n canolbwyntio gormod ar brisiau arwain at gwsmeriaid yn prynu cynhyrchion nad ydynt yn diwallu eu hanghenion. Gall hyn beri niwed sylweddol i ddefnyddwyr o bosibl, yn arbennig defnyddwyr agored i niwed.

Daeth y Gyfarwyddeb Dosbarthu Yswiriant (IDD) i rym ym mis Hydref 2018. Fe wnaethom gyflwyno amryw o reolau newydd er mwyn ei rhoi ar waith. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar gwsmeriaid yn cael gwell gwybodaeth a chwmnïau'n darparu cynhyrchion sy'n diwallu eu hanghenion. Dylai hyn olygu bod cwsmeriaid yn cael gwerth da gan eu cynhyrchion yswiriant a'r gwasanaethau.

## Cyhoeddi ein canfyddiadau dros dro ar froceriaid yswiriant cyfanwerthu

Ym mis Tachwedd 2017, fe wnaethom lansio astudiaeth i'r farchnad broceriaid yswiriant cyfanwerthu mewn ymateb i dystiolaeth o bryderon posibl ynghylch cystadleuaeth. Fe wnaethom edrych ar rôl broceriaid yswiriant, pa mor dda mae'r gystadleuaeth yn gweithio a sut mae'r farchnad yn datblygu er mwyn asesu'r pryderon hyn.

Nid oedd ein hadroddiad terfynol, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2019, wedi canfod tystiolaeth gyffredinol o lefelau sylweddol o niwed a fyddai'n ei gwneud hi'n ofynnol i ni gyflwyno atebion ymwthiol. Fodd bynnag, fe wnaethom ganfod rhai meysydd lle'r oedd angen gweithredu ymhellach, gan gynnwys gwrthdaro rhwng buddiannau, yr wybodaeth y mae cwmnïau'n ei datgelu i gleientiaid a rhai cytundebau contract penodol rhwng broceriaid ac yswirwyr. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau y rhoddir sylw i'r rhain.

## Gwerth mewn cadwyni dosbarthu yswiriant cyffredinol

Yn ddiweddar, fe wnaethom gwblhau ein gwaith diagnosteg ar werth yn y gadwyn ddosbarthu. Roedd yn ystyried 3 chynnyrch yswiriant – yswiriant crefftwyr, yswiriant teithio ac yswiriant atodol cerbydau modur, gan gynnwys yswiriant Amddiffyn Asedau Gwarantedig (GAP).

Gall y problemau y daethom ar eu traws beri niwed posibl i gwsmeriaid. Mae'r rhain yn cynnwys prisiau sy'n rhy uchel, cynnyrch anaddas yn cael ei werthu i gwsmeriaid a chwmnïau ddim yn delio â hawliadau neu gwynion fel y dylent.

Fe wnaethom ganfod materion tebyg mewn gwaith aml-gwmni ar awdurdod dirprwyedig, yn dilyn ein hadolygiad thematig yn 2015.

Mae ein canfyddiadau o'r ddau adolygiad o'r gadwyn ddosbarthu GI, wedi'u cydgrynhoi ac wedi'u cyhoeddi ym mis Ebrill 2019, yn pennu ein camau gweithredu, ein disgwyliadau a'r camau nesaf.

Byddwn yn ymgymryd â rhagor o waith goruchwylio yn y maes hwn i fonitro sut mae cwmnïau'n rhoi IDD ar waith ac yn ymateb i'n canllawiau arfaethedig, a byddwn yn ymyrryd os nad yw cwmnïau'n bodloni eu rhwymedigaethau rheoleiddio.

## Diogelu cwsmeriaid agored i niwed – cael gafael ar yswiriant teithio

Yn dilyn ein hymgynghoriad cynharach ym mis Mehefin 2018, roedd ein Datganiad Adborth yn cyflwyno dau brif argymhelliad:

- Gall fod gan rai defnyddwyr gyflyrau meddygol cynharach (PEMCs) sy'n gymharol ddifrifol a gallant ei chael hi'n anodd cael yswiriant teithio priodol. Dylai cwmnïau gyfeirio'r defnyddwyr hyn at ddarparwyr sy'n darparu ar gyfer eu hanghenion.
- Mae angen i ddefnyddwyr ddysgu mwy am bwysigrwydd yswiriant wrth deithio dramor, effaith eithriadau PEMCs mewn polisïau a chostau triniaeth feddygol dramor.

Mewn ymateb, rydym wedi gweithio gyda darparwyr yswiriant teithio ac elusennau meddygol i ddysgu mwy am y rhwystrau y mae defnyddwyr yn eu hwynebu. Yn ein barn ni, y ffordd orau i ddangos y ffordd yw drwy adeiladu ar drefniadau presennol nifer o gwmnïau prif ffrwd i sicrhau bod defnyddwyr â PEMCs mwy difrifol yn cael eu cyfeirio at ddarparwyr arbenigol.

## Cymryd camau yn erbyn achosion o gam-werthu

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi llwyddo i gymryd nifer o gamau gorfodi yn erbyn cwmnïau ac unigolion nad ydynt wedi dilyn ein rheolau.

Fe wnaethom roi dirwy o £29,107,600 i Carphone Warehouse am fethiannau a oedd wedi arwain at gam-werthu 'Geek Squad', sef cynnyrch cymorth technegol ac yswiriant ffonau symudol. Nid oedd Carphone Warehouse wedi darparu digon o hyfforddiant i'w staff roi cyngor addas i gwsmeriaid a oedd yn prynu Geek Squad. Hefyd, roedd staff wedi cael eu hyfforddi i argymell Geek Squad i gwsmeriaid gydag yswiriant yn barod, felly roedd rhai cwsmeriaid yn prynu yswiriant nad oedd ei angen arnynt neu nad oedd o werth iddynt.

**Mae rhagor o fanylion am ein gwaith gorfodi ar gael yn ein Hadroddiad Perfformiad Gorfodi Blynyddol.**

## Parhau i adolygu ein rheolau ar yswiriant Amddiffyn Asedau Gwarantedig (GAP)

Fe wnaethom werthuso pa mor effeithiol oedd ein rheolau 2015 ar yswiriant GAP i asesu a ydynt yn arwain at well canlyniadau i ddefnyddwyr ac yn gwella cystadleuaeth yn y farchnad.

Fe wnaethom ganfod bod ein hymyrraeth wedi cael effaith gadarnhaol ac wedi lleihau niwed yn y farchnad. Mae defnyddwyr yn fwy o ran o'r broses o wneud penderfyniadau y dyddiau hyn, ac mae nifer y bobl sy'n siopa o gwmpas wedi mwy na dyblu. Mae gwerthiant ychwanegion 16%-23% yn is na'r hyn a fyddent pe na fyddem wedi ymyrryd, ac mae prisiau ychwanegion 2-3% yn is. Roeddem wedi disgwyl i brisiau ychwanegion ostwng mwy fodd bynnag.

## Canlyniadau a monitro newid

Roedd ein Safbwyntiau ar y Sector 2018 yn nodi meysydd ffocws lle mae niwed yn digwydd yn barod, neu lle mae posibilrwydd y bydd niwed yn digwydd yn y sector diogelu ac yswiriant cyffredinol.

Rydym yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth i fonitro'r rhain. Er enghraifft, rydym yn monitro nifer y cwynion y mae cwmnïau a Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol yn eu cyflwyno i ni. Fe wnaeth nifer y cwynion am yswiriant cerbydau modur a chludiant gynyddu 13% rhwng hanner cyntaf 2018 ac ail hanner 2018. Nid yw cwynion cyffredinol ynghylch cynnyrch yswiriant wedi newid. Mae cwynion am y ddau gynnyrch hyn yn cymryd mwy o amser i'w datrys ar gyfartaledd na chynhyrchion eraill, fel cardiau credyd a chyfrifon cyfredol.

Fe wnaethom ddefnyddio Astudiaeth i'r Farchnad Broceriaid Cyfanwerthu i asesu'r duedd i froceriaid cyfanwerthu arloesi i greu ffrydiau refeniw drwy ddefnyddio gwasanaethau 'dull ymgynghori' sy'n cael eu gwerthu i Yswirwyr (gan gynnwys dadansoddi data cymhleth). Er ein bod ni'n defnyddio'r duedd hon i fonitro, nid oeddem wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth amlwg fod lefelau sylweddol o niwed o gystadleuaeth, a oedd yn golygu nad oedd atebion ymwthiol yn briodol.

Rydym hefyd yn defnyddio ein Harolwg Financial Lives yn fwy eang i asesu nifer y defnyddwyr sy'n cwyno bod ganddynt broblem â'u cynnyrch yswiriant cyffredinol, a byddwn yn adrodd ar hyn yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf.

Cafodd y Gyfarwyddeb Dosbarthu Yswiriant (IDD) ei rhoi ar waith yn gyfan gwbl yn rhan o gyfraith y DU a rheolau'r FCA ar 1 Hydref 2018, gan wella safonau ymddygiad allweddol i bob cwmni yn y sector yswiriant. Rydym yn gweld yr IDD fel ffordd bwerus i fynd i'r afael â sawl niwed rydym yn eu gweld yn y sector yswiriant.

Yn anffodus, rydym wedi canfod bod nifer fawr o gwmnïau'n methu â chydymffurfio â rhai o ofynion allweddol IDD. Yn benodol, mae methiannau sylweddol o ran cwmnïau'n cydnabod y newidiadau y mae gofyn iddynt eu gwneud i'w prosesau gwerthu, dylunio cynnyrch a llywodraethu. Hefyd, rydym wedi gweld enghreifftiau o arferion cwmnïau sydd wedi cael eu gwahardd gan yr IDD. Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i roi sylw i'r methiannau hyn a byddwn yn ystyried defnyddio ein hystod lawn o bwerau rheoleiddio i wneud hynny.

Roedd ein hadroddiad thematig ar y gadwyn Ddosbarthu Yswiriant Cyffredinol yn tynnu sylw at risgiau sylweddol a niwed posibl i gwsmeriaid yn y cadwyni dosbarthu GI. Mae hyn yn siomedig o ystyried ein gwaith yn y maes hwn, yn arbennig o ran ymddygiad a chanlyniadau i gwsmeriaid. Fe wnaethom gyhoeddi canllawiau nad ydynt yn y Llawlyfr, ac rydym wrthi'n ymgynghori ar y rhain ar hyn o bryd, ochr yn ochr ag adroddiad i egluro'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan gwmnïau. Rydym yn bwriadu cynnal rhagor o waith goruchwylio yn y dyfodol i fonitro cynnydd a lefelau cydymffurfio. Bydd hyn yn caniatáu i ni ystyried pa mor effeithiol mae ein gwaith wedi bod yn y maes hwn, ac a fydd angen i ni ymyrryd ymhellach.

Mae ein gwaith ar gael gafael ar yswiriant teithio wedi dangos bod darparwyr ar gael sy'n gallu cynnig yswiriant i bobl sydd â chyflyrau difrifol, hyd yn oed angheuol, ond bod defnyddwyr yn ei chael hi'n anodd cael gafael arnynt. O ganlyniad i'r gwaith hwn, rydym wedi gweld cynlluniau gan y diwydiant i helpu defnyddwyr â chyflyrau cynharach mwy difrifol i gael gwell mynediad at ddarparwyr arbenigol. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion polisi yn ystod yr haf i sicrhau bod defnyddwyr yn gwybod ble i fynd i gael gwell gwybodaeth am ddarparwyr a allai eu helpu gydag yswiriant ar gyfer eu cyflwr. Byddwn yn parhau i fonitro'r sector i weld pa mor effeithiol yw'r gwaith hwn.

# Buddsoddiadau adwerthu

Mae'r sector buddsoddiadau adwerthu yn cynnwys dosbarthu cynnyrch buddsoddi drwy wahanol sianeli: cynghorwyr ariannol, rheolwyr cyfoeth a llwyfannau. Mae hefyd yn cynnwys rhai cynnyrch buddsoddiadau adwerthu penodol a werthir yn uniongyrchol i'r defnyddwyr fel rheol. Yn ddiweddar, mae nifer y buddsoddwyr a gwerth yr asedau a fuddsoddir wedi cynyddu'n gyson.

Pan fydd defnyddwyr yn penderfynu cymryd cyngor, rhaid iddynt wybod ei fod yn addas i'w hanghenion ac yn gyson â'u hagwedd at risg. Rhaid iddynt wybod na chodir gormod arnynt hefyd. Mae hyn yn fwyfwy pwysig wrth i nifer o ddefnyddwyr wynebu penderfyniadau ariannol anodd y dyddiau hyn yn dilyn y trefniadau rhyddid pensiwn.

Mae gennym strategaeth ddeublyg ar gyfer goruchwylio ansawdd cyngor ar fuddsoddiadau adwerthu. Yn gyntaf, ein nod yw gwella safonau ar draws y farchnad ac asesu hyn yn achlysurol. Yn ail, rydym yn canolbwyntio ar feysydd cyngor penodol lle mae lefelau addasrwydd yn is, gan gynnwys buddsoddiadau risg uchel a throsglwyddiadau pensiwn.

Rydym hefyd yn adrodd ar waith sy'n ymwneud â'r sector hwn yn ein pennod traws sector ar Droseddau Ariannol (twyll a sgamiau) ac atal gwyngalchu arian.

## Adolygiad Dosbarthu Adwerthol (RDR) ac Adolygiad o'r Farchnad Cynghori Ariannol (FAMR)

Cyflwynwyd yr RDR ar ddiwedd 2012. Ei fwriad oedd gwella ansawdd cyngor, gan sicrhau nad yw'n cynnwys rhagfarn a'i fod yn cael ei roi gan gynghorwyr â chymwysterau addas, a bod costau'r cyngor yn glir i'r defnyddwyr.

Lansiwyd FAMR ym mis Awst 2015 i edrych ar y ffyrdd y gall y llywodraeth, y diwydiant a rheoleiddwyr gymryd camau unigol ac ar y cyd i ysgogi'r broses o ddatblygu'r farchnad i ddarparu arweiniad a chyngor ariannol fforddiadwy a hygyrch i bawb.

Roedd adroddiad terfynol FAMR yn 2016 yn argymell gwella mynediad at arweiniad a chyngor ariannol drwy geisio lleihau costau a gwella argaeledd cyngor awtomataidd i ddefnyddwyr. Daeth yr Adolygiad Ôl-weithredu (PIR) yn 2014 i'r casgliad, ers iddo ddod i rym ym mis Rhagfyr 2012, roedd arwyddion cadarnhaol bod RDR ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion.

Rydym yn cynnal adolygiad yn 2019 sy'n cyfuno camau canolig a therfynol Adolygiad Ôl-weithredol RDR ag adolygu canlyniadau FAMR. Fodd bynnag, gan fod y farchnad wedi datblygu'n helaeth ers yr RDF a'r FAMR, byddwn yn defnyddio'r adolygiad hwn hefyd i asesu dyfodol y farchnad ar gyfer cyngor a gwasanaethau arweiniad eraill. Fe wnaethom lansio'r adolygiad ym mis Mai 2019 drwy gyhoeddi Cais am Fewnbwn i gael safbwynt helaeth gan randdeiliaid.

## Buddsoddiadau risg uchel a chymhleth

Mae strwythurau, strategaethau neu delerau a nodweddion anghyffredin, ansicr neu gymhleth yn nodweddion i fuddsoddiadau risg uchel. Yn aml, dim ond ar gyfer buddsoddwyr sy'n fodlon ac sy'n gallu derbyn y risg o amrywiadau sylweddol a/neu golledion sylweddol yn eu buddsoddiadau y mae'r cynhyrchion hyn yn addas.

Rydym wedi agor nifer o ymchwiliadau i fuddsoddiadau risg uchel eleni, gan gynnwys: cynghorwyr ariannol yn darparu cyngor anaddas ynghylch trosglwyddo pensiwn, cwmnïau yn defnyddio gwybodaeth hyrwyddo annheg neu aneglur ynghylch risgiau buddsoddiadau a sgamiau pan fo

cwmnïau cydgysylltiedig yn denu buddsoddwyr i fuddsoddi heb ddatgan eu gwrthdaro rhwng buddiannau, eu ffioedd a'u costau. Rydym yn parhau i weithio ar ymyrryd ac amharu pan fyddwn yn amau bod defnyddwyr mewn risg o sgamiau pensiwn.

Rydym wedi gwella ein gallu i ganfod cwmnïau sydd mewn risg uchel o fynd i ddyledion (hynny yw, cwmnïau ffenics) ac wedi cryfhau ein porth awdurdodi drwy fynd ati'n rhagweithiol i adnabod cwmnïau ac unigolion cysylltiedig sy'n gwneud cais am awdurdodiad.

Ym mis Hydref 2018, fe wnaethom anfon llythyr 'Annwyl Brif Weithredwr' at weithredwyr pensiynau buddsoddi personol (SIPP). Mae'r llythyr hwn yn atgoffa cwmnïau o'n disgwyliadau, yn arbennig yng ngoleuni methiannau diwydrwydd dyladwy yn y gorffennol, ac mae'n tynnu sylw penodol at drin cwsmeriaid yn deg a rhwymedigaethau cwmnïau i fod yn agored ac i gydweithredu â ni.

## London Capital & Finance Plc (LCF)

Awdurdododd yr FCA LCF yn 2016 i barhau i fod yn frocer credyd caniatâd cyfyngedig. Ond, prif weithgaredd LCF oedd codi arian drwy gyhoeddi ei fondiau bach ei hun. Nid yw hwn yn weithgaredd a reoleiddir fel rheol. Defnyddiodd LCF yr elw i ariannu benthyciadau i fenthycwyr corfforaethol, ac eto, nid yw hwn yn weithgaredd a reoleiddir chwaith. Fodd bynnag, roedd y ffordd yr oedd LCF yn cyfleu gwybodaeth am hyrwyddiadau ariannol yng nghyswllt y bondiau bach yn ddarostyngedig i ofynion rheoleiddiol.

Ym mis Rhagfyr 2018 a mis Ionawr 2019, fe wnaethom gyhoeddi hysbysiadau goruchwyliol yn cyfarwyddo LCF i dynnu ei holl ddeunyddiau marchnata yn ôl ar gyfer ei Fond neu ISA Cyfradd Sefydlog. Roedd hyn oherwydd ein bod ni'n credu nad oedd gwybodaeth hyrwyddo LCF ar gyfer ei fondiau bach wedi bodloni ein safonau, sy'n mynnu (er enghraifft) fod unrhyw gyfathrebu yn glir, yn deg a ddim yn gamarweiniol. Yn benodol, fe wnaethom ganfod nad oedd bondiau LCF yn fuddsoddiadau a oedd yn gymwys ar gyfer ISA, fel oedd yn cael ei hysbysebu, a bod LCF yn rhoi gormod o bwys yn ei hyrwyddiadau at ei statws fel cwmni oedd yn cael ei awdurdodi gan yr FCA, er gwaethaf natur heb ei reoleiddio ei weithgareddau cyhoeddi bondiau.

Oherwydd difrifoldeb ein pryderon am fodel busnes ac ymddygiad ehangach LCF, rydym wedi dechrau ymchwiliad gorfodi, gan ddefnyddio ein pwerau troseddol a sifil. Hefyd, rydym wedi cyfyngu ar ddefnydd LCF o'i asedau.

Mae ein pryderon yn ymwneud yn bennaf ag anaddasrwydd ei fodel busnes. Roedd yn ymddangos bod bondiau newydd a oedd yn cael eu cyhoeddi yn ariannu taliadau cwpon (llog) i fuddsoddwyr presennol. Hefyd, roeddem yn credu na fyddai pob benthycwr corfforaethol a oedd wedi cael benthyciad gan LCF yn gallu cynnal y gyfradd enillion yr oedd LCF wedi'i hysbysebu. Yn olaf, roeddem yn pryderu fod gan nifer o'r benthycwyr corfforaethol gysylltiadau agos â'r unigolion a oedd yn rhedeg LCF. Roedd nifer o'n pryderon yn ymwneud â gweithgareddau nad ydym yn eu rheoleiddio.

Ym mis Ionawr 2019, fe wnaethom gyfeirio'r materion hyn i'r Ganolfan Troseddau Economaidd Genedlaethol (NECC).

O ganlyniad i'n hatgyfeiriad, cyhoeddodd y Swyddfa Twyll Difrifol ar 18 Mawrth 2019 ei bod wedi dechrau ymchwilio i unigolion a oedd yn gysylltiedig ag LCF.

Mae'r Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol wrthi'n edrych i weld a oes modd i fuddsoddwyr hawlio iawndal.

Ym mis Mawrth 2019 ysgrifennodd ein Cadeirydd, Charles Randell, at Ysgrifennydd yr Economi yn y Trysorlys i ofyn i'r Trysorlys gyfarwyddo'r FCA i gomisiynu ymchwiliad gan unigolyn annibynnol i'r materion a godwyd gan fethiannau LCF.

Gofynnodd i'r ymchwiliad gynnwys:

1. a yw'r system reoleiddio bresennol yn diogelu prynwyr bondiau bach adwerthu rhag lefelau annerbyniol o niwed
2. goruchwyliaeth yr FCA' o LCF

Ar 23 Mai 2019, cyfarwyddodd Ysgrifennydd yr Economi yn y Trysorlys yr FCA i gynnal ymchwiliad i amgylchiadau cwymp LCF, gan gymeradwyo'r Fonesig Elizabeth Gloster i arwain yr ymchwiliad. Hefyd, cyhoeddodd y Trysorlys y bydd yn adolygu'r broses o reoleiddio a marchnata cynnyrch penodol a gyhoeddir gan LCF a chwmnïau eraill sydd wedi'u hawdurdodi a heb eu hawdurdodi: 'bondiau bach' a gwarannau eraill nad oes modd eu trosglwyddo.

Gan fod nifer o ddarparwyr bondiau bach eraill yn hyrwyddo cynnyrch i gwsmeriaid adwerthu, fe wnaethom gyhoeddi gwybodaeth i ddefnyddwyr ym mis Mai 2019 yn egluro mwy am y bondiau bach a pham y dylai buddsoddwyr adwerthu fod yn ofalus pan fyddant yn eu prynu.

## Diwygio'r Sector Adwerthu

### Cytundebau ar gyfer gwahaniaeth (CFD) ac opsiynau deuaidd

Rydym wedi cwblhau'r mesurau parhaol ar gyfer ymyrryd â chynnyrch i atal unrhyw opsiynau deuaidd rhag cael eu gwerthu i gwsmeriaid adwerthu. Daeth y rheolau i rym o 2 Ebrill 2019 ar gyfer opsiynau deuaidd. Ym mis Gorffennaf, rydym yn bwriadu cyhoeddi Datganiad Polisi terfynol a rheolau i gyfyngu ar werthu, marchnata a dosbarthu contractau ar gyfer gwahaniaeth (CFDs) ac opsiynau tebyg i CFD i gleientiaid adwerthu.

Mae ein hymyraethau'n rhoi sylw i niwed gwirioneddol a phosibl i ddefnyddwyr o werthu CFDs ac opsiynau deuaidd i ddefnyddwyr adwerthu. Rydym yn disgwyl y bydd y cyfyngiadau arfaethedig ar werthu CFDs yn arbed rhwng £267.4m a £450.7m y flwyddyn i ddefnyddwyr adwerthu ac y bydd gwahardd opsiynau deuaidd yn arbed £17m y flwyddyn.

Rydym yn disgwyl y bydd y mesurau hyn yn sicrhau bod deilliadau cymhleth yn cael eu gwerthu i farchnad a dargedir yn briodol o ddefnyddwyr sy'n deall y risgiau ac sy'n gallu ymdopi â cholledion posibl.

### Blaendrafodion a chynhyrchion deilliadol eraill wedi'u benthyg

Yn ogystal â chyfyngu ar werthu CFDs, rydym hefyd wedi pennu trafodaeth ynghylch y farchnad ddeilliadau adwerthu ehangach yn y DU ac a allai unrhyw niwed tebyg i ddefnyddwyr godi o gynhyrchion deilliadol eraill wedi'u benthyg, fel blaendrafodion. Rydym wedi awgrymu dulliau polisi posibl sy'n canolbwyntio ar derfynau o ran trosoledd. Nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniad eto ynghylch a ydym am ymgynghori ar reolau eraill yn y maes hwn, ond rydym yn disgwyl y byddwn yn rhoi gwybod beth fydd ein camau nesaf nes ymlaen yn 2019.

### Deilliadau sy'n cyfeirio at grypto-asedau penodol

Yn 2019/20, rydym yn gwneud rhagor o waith ymyrryd â chynnyrch yng nghyswllt deilliadau sy'n cyfeirio at grypto-asedau. Yn dilyn yr ymrwymiad a wnaed yn adroddiad terfynol Tasglu Crypto-asedau'r DU, fe wnaethom gyhoeddi Papur Ymgynghori ym mis Gorffennaf 2019. Mae'n cynnig y posibilrwydd o wahardd gwerthu, marchnata a dosbarthu'r holl ddeilliadau (gan gynnwys CFDs, opsiynau a blaendrafodion) a nodiadau a fasnechir ar y gyfnewidfa sy'n cyfeirio at fathau penodol o docynnau crypto-asedau i ddefnyddwyr adwerthu.

Fe wnaethom amlinellu ein pryderon fod nodweddion cynhenid y cynhyrchion hyn yn peri risg o niwed i ddefnyddwyr adwerthu yn sgil colledion cyflym ac annisgwyl oherwydd materion prisio, troseddau ariannol a natur anwadal eithafol yn y farchnad sylfaenol. Daw'r CP i ben ddiwedd mis Medi 2019.

### Astudiaeth o'r farchnad llwyfannau buddsoddi

Mae defnyddwyr a chynghorwyr ariannol yn defnyddio llwyfannau buddsoddi fwyfwy i gael gafael ar gynhyrchion buddsoddiadau adwerthu a rheoli buddsoddiadau ar-lein. Gall y llwyfannau hyn chwarae rôl bwysig drwy annog rheolwyr asedau i gystadlu am fusnes, ac roeddem ni am ddangos pa mor bell oedd y llwyfannau hyn yn mynd wrth gystadlu i sicrhau'r manteision hyn ar lefel ymarferol.

Fe wnaethom gynnal astudiaeth i'r farchnad i weld sut mae llwyfannau buddsoddi yn cystadlu i ennill cwsmeriaid newydd a chadw rhai presennol.

Er bod cystadleuaeth yn gweithio'n dda ar y cyfan, fe wnaethom ganfod bod rhai defnyddwyr a chynghorwyr ariannol yn gallu ei chael hi'n anodd chwilio a newid i lwyfan sy'n bodloni eu hanghenion yn well. Gall defnyddwyr ei chael hi'n anodd newid oherwydd yr amser, y cymhlethdod a'r gost sydd ynghlwm â'r broses – yn bennaf oherwydd y costau gadael a'r anawsterau wrth newid rhwng gwahanol unedau.

Mae ein Hadroddiad Terfynol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019, yn cyflwyno ein canfyddiadau terfynol a phecyn o fesurau i helpu defnyddwyr sy'n buddsoddi drwy lwyfannau buddsoddi i ganfod a newid i'r un iawn iddynt hwy yn fwy rhwydd. Mae'r pecyn yn cynnwys Papur Ymgynghori ar newid rhwng unedau a thrafodaeth ar gostau gadael yn y farchnad dosbarthu buddsoddiadau adwerthu.

## Adolygiad o Reoliad Seilwaith y Farchnad Ewropeaidd (EMIR)

Ym mis Mai 2017, cyflwynodd Comisiwn yr UE gynnig i ddiwygio Rheoliad Seilwaith y Farchnad Ewropeaidd (EMIR) yng nghyswllt gofynion dosbarthiad parti i gontract, clirio, lwfansau ac adrodd. Fe wnaethom gefnogi Trysorlys ei Mawrhydi wrth ddarparu cyngor technegol parhaus yn ystod cyfnod negodi â Chyngor yr UE, a daeth y rheolau i rym ar 17 Mehefin eleni.

## Canlyniadau a monitro newid

Roedd ein Safbwyntiau ar y Sector 2018 yn nodi meysydd ffocws lle mae niwed yn digwydd yn barod, neu lle mae posibilrwydd y bydd niwed yn digwydd yn y sector buddsoddiadau adwerthu.

Rydym yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth i fonitro'r rhain. Er enghraifft, ym mis Mai 2017, fe wnaethom gyhoeddi canlyniadau ein hadolygiad o addasrwydd cyngor ynghylch pensiynau a buddsoddiadau. Dangosodd y canlyniadau fod yna gyngor addas mewn 93.1% o achosion. Ond, mae gennym le i wella o hyd, gydag un o bob 14 o achosion yn derbyn cyngor anaddas neu aneglur.

Yn 2019, byddwn yn dechrau ar ein gwaith yn ailasesu addasrwydd cyngor ynghylch buddsoddiadau a phensiynau. Ar ôl i ni gwblhau'r gwaith, bydd defnyddio hyn i gymharu'r canlyniadau â chanlyniadau Mai 2017 yn ein helpu ni i ganfod tueddiadau posibl o ran y rhesymau y mae cwsmeriaid yn cael cyngor gwael ac yn ein helpu ni i lywio ein camau gweithredu yn y dyfodol.

Gall defnyddwyr gael eu niweidio os byddant yn talu gormod am wasanaeth neu'n talu am fwy o wasanaethau na sydd eu hangen arnynt. ISAs stociau a chyfranddaliadau yw'r cynnyrch buddsoddiadau adwerthu mwyaf poblogaidd. Mae gan bron i 2 o bob 10 (17%) o oedolion yn y DU un o'r rhain. Mae adroddiad Mintel ar ISAs yn y DU yn 2017 yn dangos mai'r ffactor pwysicaf i fuddsoddwyr adwerthu pan fyddant yn dewis y cynnyrch hyn yw eglurder y ffioedd (45%). Roedd data a gyhoeddwyd fel rhan o'n hastudiaeth o'r farchnad llwyfannau buddsoddi yn dangos mai 0.6% oedd y ffioedd ar gyfartaledd, ond roeddent yn amrywio'n eang. Gall pot o £5,000 i'w fuddsoddi mewn ISA stociau a chyfranddaliadau amrywio'n eang o 20 bps i 240 bps sydd, a chymryd cyfradd twf o 5%, yn arwain at wahaniaeth posibl o £650 mewn elw dros gyfnod o 5 mlynedd.

Mae tystiolaeth o Financial Lives 2017 yn awgrymu bod 3% o oedolion y DU sydd â buddsoddiadau adwerthu wedi cael problem gyda ffioedd neu daliadau cymhleth yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd 1% wedi canfod bod cynnyrch buddsoddi yn costio mwy na'r disgwyl. Wrth ystyried hyn gyda'i gilydd, awgrymir bod angen i ni barhau gyda'n gwaith i sicrhau bod yr hyn y mae defnyddwyr yn ei dalu am eu cynnyrch yr hyn y maent yn ei ddisgwyl a bod y taliadau'n adlewyrchu'r gwerth yn gywir.

O ran gwasanaeth gwael, mae nifer y defnyddwyr sy'n defnyddio llwyfannau i fuddsoddi wedi parhau i godi. Ar yr un pryd, mae ein data am gwynion yn dangos bod 19,089 o ddefnyddwyr wedi cwyno am eu gwasanaeth llwyfan yn 2018, oherwydd problemau gweinyddol cyffredinol neu wasanaeth cwsmeriaid, o gymharu â 15,590 yn 2017. Mae hyn yn awgrymu nad yw defnyddwyr yn cael y gwasanaeth y maent yn ei ddisgwyl yn rhesymol ac y maent yn talu amdano gan eu llwyfannau. O ganlyniad, rydym yn parhau i weithio i sicrhau cyn lleied â phosibl o broblemau gweithredu.

Hefyd rydym yn gadw llygad agos ar lefel y defnyddwyr sydd â chynnyrch a allai beri risg uchel a/neu gynnyrch heb ei reoleiddio. Mae data gan IPSOS FRS[3] yn dangos bod canran oedolion Prydain Fawr sydd â daliadau mewn bondiau adwerthu neu fondiau bach wedi cynyddu o 0.8% i 1.2% rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Rhagfyr 2018. Ar y cyfan, mae'r data yn dangos bod 9% o oedolion ym Mhrydain Fawr wedi buddsoddi mewn asedau amgen ar hyn o bryd, sy'n cynnwys benthyciadau rhwng cymheiriaid, cyllid torfol ecwiti a dyledion, eiddo prynu-i'w-osod, crypto-arian-cyfred ac asedau casgladwy.

Roedd ein Hastudiaeth i'r Farchnad Llwyfannau Buddsoddi wedi canfod lefelau isel o newid. Ar gyfartaledd, dim ond 3% o ddefnyddwyr nad oeddent wedi cael cyngor oedd yn newid yn uniongyrchol heb help cynghorydd bob blwyddyn. Dylai defnyddwyr allu newid pan fydd darparwr arall yn bodloni eu hanghenion yn well. Ond, yn ôl ein canfyddiadau, roedd 7% o ddefnyddwyr nad oeddent wedi derbyn cyngor wedi ceisio ac wedi methu newid llwyfannau oherwydd rhwystrau yn y broses. Hefyd, fe wnaethom ganfod nad oedd defnyddwyr yn ymwybodol iawn o daliadau ac nid oedd nifer yn gwybod faint roeddent yn ei dalu.

Rydym wedi trefnu pecyn o fesurau sy'n ceisio sicrhau bod defnyddwyr a chynghorwyr yn gallu chwilio a newid yn rhwydd, heb gostau uchel, pan fydd darparwr arall yn bodloni eu hanghenion yn well. Byddwn yn parhau i fonitro canran y defnyddwyr sy'n chwilio ac yn newid llwyfannau a pha mor rhwydd yw'r broses hon iddynt yn ein harolygon Financial Lives yn y dyfodol.

3 Hyd at y chwe mis sy'n dod i ben Rhagfyr 2016 (sylfaen: 29 640) a mis Rhagfyr 2018 (sylfaen: 30 092).

Rydym wedi rhoi sylw i niwed mewn contractau gwahaniaeth (CFD) adwerthu a'r sector opsiynau deuaidd drwy gyfyngu ar sut caiff CFDs eu gwerthu ac atal cwmnïau rhag gwerthu opsiynau deuaidd i gleientiaid adwerthu. Rydym wedi cymryd camau pan oedd cwmnïau yn ceisio cael y gorau ar fesurau CFD ESMA drwy hyrwyddo cynnyrch ariannol mewn ffordd annheg, aneglur neu gamarweiniol neu drwy gynnig cynnyrch tebyg. Byddwn yn parhau i fonitro cydymffurfiad ac yn ymyrryd yn ôl yr angen.

Yn 2017 fe wnaethom ddatblygu amrywiaeth o ddangosyddion llinell sylfaen i roi cipolwg o'r farchnad cyngor ariannol. Roedd ein hymchwil dilynol i ddefnyddwyr, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018, yn ceisio olrhain unrhyw newidiadau yn y dangosyddion hyn. Mae'r canfyddiadau dangosol yn dangos bod mwy o bobl wedi dewis cael cyngor ariannol wedi'i reoleiddio yn y 12 mis diwethaf. Roedd y rhai a oedd wedi cael cyngor ariannol yn fodlon ag ansawdd y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn a'r pris roeddent wedi'i dalu ar y cyfan. Mae gennym ragor o wybodaeth yn ein hadroddiad ymchwil i ddefnyddwyr.

Byddwn yn parhau i werthuso effaith RDR a FAMR. Fe wnaethom gyhoeddi Cais am Fewnbwn ar 1 Mai 2019 i ddechrau'r adolygiad hwn. Mae gan RDR a FAMR ddangosyddion a chanlyniadau wedi'u diffinio i fesur eu llwyddiant, a byddwn yn defnyddio tystiolaeth o waith ymchwil y diwydiant a defnyddwyr i werthuso'r effaith yn erbyn y mesurau hyn. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein canfyddiadau yn 2020.

# 5 Materion perimedr

Mae'r gweithgareddau rydym ni'n eu rheoleiddio wedi'u cyflwyno'n bennaf gan y Llywodraeth yng Ngorchymyn Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol (Gweithgareddau a Reoleiddir) (RAO).

Mae'r RAO yn cynnwys gweithgareddau gwasanaethau ariannol, a elwir yn 'weithgareddau a reoleiddir', y mae gofyn i ni eu hawdurdodi cyn i gwmnïau neu unigolion eu cyflawni. Mae'r RAO hefyd yn cyflwyno rhai gweithgareddau a reoleiddir, fel trefnu, cynghori a delio, lle mae gofyn awdurdodi os ydynt yn ymwneud â mathau penodol o gynnyrch ariannol (fel cyfranddaliadau, offerynnau dyledion, unedau cronfeydd a deilliadau). Gelwir y ffin sydd wedi'i nodi gan RAO, a deddfwriaeth berthnasol arall sy'n pennu'r gweithgareddau rydym yn eu rheoleiddio, yn 'berimedr yr FCA' fel rheol

Mae'r perimedr yn bwysig gan mai hyn sy'n pennu pa gwmnïau y mae gofyn i ni eu hawdurdodi. Mae hefyd yn effeithio ar lefel y diogelwch y gall defnyddwyr ei disgwyl ar gyfer y gwasanaethau a'r cynnyrch ariannol y maent yn eu prynu.

Mae ein Cenhadaeth yn fframwaith ar gyfer pan ddylem ystyried cymryd camau gorfodi ynghylch gweithgareddau y tu allan i'r perimedr gan gwmnïau rydym yn eu rheoleiddio ar gyfer gweithgareddau eraill. Os ydym yn credu bod mater yn un difrifol, ond bod y gweithgaredd yn disgyn y tu allan i'r perimedr, mae rhai achosion lle byddem yn dal i allu gweithredu. Byddwn yn fwy tebygol o weithredu yn yr achosion hyn:

- pan fydd gweithgaredd nad yw'n cael ei reoleiddio yn anghyfreithlon neu'n dwyllodrus
- pan mae'n bosibl y gall danseilio hyder yn system ariannol y DU
- pan mae risg y gall beri niwed difrifol i ddefnyddwyr
- mae yna gysylltiad agos â gweithgaredd a reoleiddir neu gall effeithio ar weithgaredd o'r fath.

Pan fydd gennym bryderon am ein gallu i weithredu, byddwn yn rhoi gwybod i'r Llywodraeth a chyrff eraill amdanynt.

## Materion perimedr rydym wedi'u hystyried eleni

Gall cwmnïau sy'n gweithredu ar ymylon y perimedr achosi niwed difrifol i ddefnyddwyr a gwneud drwg i ffydd y cyhoedd yn y sector gwasanaethau ariannol a reoleiddir. Mae marchnadoedd gwasanaethau ariannol yn esblygu ac yn newid dros amser hefyd, a gall arloesi arwain at gynnyrch a gwasanaethau newydd sydd o bosibl y tu allan i'r perimedr.

Rydym wedi edrych ar ystod eang o faterion perimedr posibl dros y flwyddyn ddiwethaf, ac rydym yn cynnig canolbwyntio ar y rhai sydd wedi esblygu neu ddod i'r amlwg yn ddiweddar – ac y mae'n bosibl y byddant yn achosi niwed sylweddol yn y dyfodol.

## Crypto-asedau

Mae crypto-asedau wedi datblygu yn ystod y degawd diwethaf yn sgil datblygiadau technegol. Mae nifer o grypto-asedau yn gorwedd ar y ffin rhwng cael eu rheoleiddio a ddim yn cael eu rheoleiddio. Fe wnaethom ymgynghori ym mis Ionawr 2019 ar y canllawiau perimedr drafft a byddwn yn cyhoeddi'r canllawiau terfynol yn ystod haf 2019. Hefyd, fe wnaethom gyhoeddi y byddwn yn ymgynghori'n nes ymlaen yn 2019 ar y posibilrwydd o wahardd gwerthu cynnyrch (er enghraifft, deilliadau) sy'n cyfeirio at rai crypto-asedau sydd y tu allan i'r perimedr rheoleiddio i ddefnyddwyr adwerthu.

## Prynwyr llyfrau morgais heb eu rheoleiddio

Pan fydd rhoddwr benthyciadau yn rhoi'r gorau i gynnal busnes, bydd modd trosglwyddo ei gontractau morgais i gwmni arall, a allai fod yn gwmni nad yw'n cael ei reoleiddio – sy'n golygu bod gofyn cael gweinyddwr awdurdodedig. Mae'r mater wedi cael cryn sylw eleni wrth ystyried y problemau sy'n wynebu 'carcharorion' morgeisi.

Rydym bellach yn ymgynghori ar newidiadau i'n rheolau i sicrhau nad ydynt yn atal defnyddwyr rhag newid i forgais sy'n fwy fforddiadwy. Bydd y newidiadau hyn yn galluogi rhoddwyr benthyciadau morgais gweithredol sy'n cael eu rheoleiddio i asesu fforddiadwyedd yn fwy cymesur ar gyfer defnyddwyr sy'n talu'n brydlon ac sy'n dymuno benthyca'r un faint neu lai. Gallai hyn alluogi cwsmeriaid sydd â morgais ar hyn o bryd â rhoddwr benthyciadau nad yw'n cael ei reoleiddio i gael dewis allanol i gael ailforgais sy'n fwy fforddiadwy na'r hyn a oedd ar gael yn flaenorol.

## Bondiau bach

Mae marchnad y bondiau bach wedi newid yn ystod y blynyddoedd diweddar, ac mae bondiau bach mwy cymhleth yn cael eu rhyddhau a'u marchnata i fuddsoddwyr adwerthu. Mae'r rhai sy'n rhoi'r cynhyrchion mwy cymhleth hyn yn aml wedi gallu dibynnu ar yr un eithriad â chwmnïau masnachol cyffredin i roi eu gwarannau heb orfod cael eu hawdurdodi. Pan fo'r llog yn isel, mae'r buddsoddiadau risg uchel hyn, sy'n cynnig mwy o elw posibl ar gyfalaf, wedi bod yn cael eu cynnig fwyfwy fel buddsoddiadau adwerthu.

Mae bondiau bach wedi cael llawer o sylw ar ôl i London Capital & Finance (LC&F) gwympo y llynedd. Mae hyn wedi gadael tua 14,000 o ddefnyddwyr a oedd wedi buddsoddi yn ei fondiau bach mewn perygl o wynebu colledion. Yn dilyn ein cyfarwyddyd i LC&F dynnu deunyddiau hyrwyddo am fondiau bach ar unwaith ac ar ôl i ninnau a'r Swyddfa Twyll Difrifol ddechrau ymchwilio i'r mater, aeth LC&F i ddwylo'r gweinyddwyr.

Yn dilyn methiant LC&F, fe wnaethom ofyn i'r Trysorlys gyfarwyddo ymchwiliad i'n camau gweithredu, ein polisïau a'n dull gweithredu yn yr achos hwn, ac rydym wedi penodi uwch farnwr i gynnal yr ymchwiliad hwn. Mae'r Trysorlys wedi cyhoeddi hefyd y bydd y cwestiynau polisi ehangach a ddaw o'r achos hwn yn cael eu hadolygu, gan gynnwys y trefniadau rheoleiddio presennol ar gyfer rhoi bondiau bach a gwarannau eraill nad oes modd eu trosglwyddo. Rydym yn adrodd mwy am LC&F yn ein pennod ar Fuddsoddiadau Adwerthu.

## Gwasanaethau ymgynghori ynghylch buddsoddiadau

Mae'r cwmnïau hyn yn darparu gwasanaethau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio sy'n gallu dylanwadu'n sylweddol ar strategaethau buddsoddi perchnogion asedau a rheolwyr asedau. Mae ymgynghorwyr buddsoddi yn rhoi cyngor i ymddiriedolwyr cronfeydd pensiwn ar faterion fel dewis rheolwr asedau, ac mae ymgynghorwyr procsi yn rhoi argymhellion a chyngor ar bleidleisio.

Yn ein Hastudiaeth o'r Farchnad Rheoli Asedau, fe wnaethom ganfod pryderon difrifol o ran cystadleuaeth yng nghyswllt ymgynghorwyr buddsoddi a rheolwyr ymddiriedol. Fe wnaethom gyfeirio'r sectorau hyn i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) am ymchwiliad manwl. Roedd y CMA yn argymell y dylai gwasanaethau ymgynghori ynghylch buddsoddiadau fod o fewn cylch gwaith goruchwylio'r FCA, ac mae'r Trysorlys yn bwriadu ymgynghori er mwyn cyflwyno'r gwasanaethau hyn o fewn ein perimedr.

## Darparu gwasanaethau ariannol yn ddigidol


Mae sianeli digidol yn galluogi cwmnïau i greu, marchnata a gwerthu cynnyrch gwasanaethau ariannol yn gyflym iawn. Mae hyn yn golygu bod pa mor gyflym y gellir peri niwed oherwydd gwybodaeth hyrwyddo sy'n gamarweiniol neu'n annheg wedi cynyddu'n sylweddol. Rydym yn ystyried sut gall y Drefn Hyrwyddiadau Ariannol fod yn fwy effeithiol yn yr oes ddigidol. Gall hyn gynnwys ystyried pwerau ychwanegol ar ein cyfer ni yng nghyswllt darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd. Rydym hefyd yn datblygu ac yn defnyddio adnoddau wedi'u hawtomeiddio i ganfod datblygiadau yn y farchnad ar-lein, fel cynnyrch neu arferion newydd a allai beri risg o bosibl i'n hamcanion.

**Ym mis Mehefin 2019 fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad Perimedr blynyddol cyntaf. Nod yr adroddiad hwn yw egluro mwy am ein rôl. Rydym yn adrodd ar y rhain a materion eraill yn yr adroddiad hwn.**

# 6 Ein dulliau gweithredu

Mae ein Cenhadaeth yn fframwaith ar gyfer y penderfyniadau strategol rydym yn eu gwneud. Rydym yn canolbwyntio ein hadnoddau ar y marchnadoedd a chwmnïau sy'n fwyaf tebygol o achosi niwed i ddefnyddwyr, niweidio uniondeb y farchnad neu wanhau cystadleuaeth. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith rydym wedi'i wneud yn y sectorau allweddol ac ar eu traws er mwyn lleihau niwed yn ystod 2018/19. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith rydym wedi ymrwymo i'w wneud yn ein Cynllun Busnes.

## Ein fframwaith gwneud penderfyniadau




Mae ein Cenhadaeth yn amlinellu 5 categori o niwed, sy'n adlewyrchu ein hamcanion gweithredol. Ein nod yw defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon ac yn gost-effeithiol i leihau neu i atal y niwed hwn, gan ddarparu'r gwerth cyhoeddus mwyaf ac felly gwasanaethu budd y cyhoedd:

| Math o niwed | Amcan(ion) gweithredol perthnasol yr FCA |
|---|---|
| Mae hyder a chyfranogiad mewn marchnadoedd yn y fantol oherwydd ymddygiad annerbyniol megis camddefnyddio'r farchnad, perfformiad annibynadwy neu drwy fethiant anhrefnus | Uniondeb y farchnad<br>Diogelu defnyddwyr<br>Cystadleuaeth effeithiol |
| Defnyddwyr yn prynu cynnyrch anaddas neu gynnyrch anaddas yn cael ei gamwerthu iddynt; gwasanaeth i gwsmeriaid gwael/trin cwsmeriaid yn wael | Diogelu defnyddwyr<br>Cystadleuaeth effeithiol |
| Nid yw anghenion pwysig defnyddwyr yn cael eu diwallu oherwydd bylchau yn yr ystod o gynnyrch sydd ar gael ar hyn o bryd, allgau defnyddwyr, diffyg gwydnwch y farchnad | Diogelu defnyddwyr<br>Cystadleuaeth effeithiol |
| Prisiau rhy uchel neu safonau rhy isel | Cystadleuaeth effeithiol<br>Diogelu defnyddwyr |
| Risg o sgil-effeithiau niweidiol sylweddol ar farchnadoedd ehangach, economi'r DU a'r gymdeithas ehangach, ee trosedd/terfysgaeth | Uniondeb y farchnad<br>Diogelu defnyddwyr |

Roeddem wedi cyhoeddi'r rhan fwyaf o'n 'dogfennau ymagwedd at' terfynol rhwng mis Gorffennaf 2018 a mis Ebrill 2019. Mae'r rhain yn egluro'n fwy manwl sut rydym yn rheoleiddio. Mae'r dogfennau hyn yn rhan o ymrwymiad ein Cenhadaeth i fod yn agored a thryloyw ynglŷn â sut rydym yn rheoleiddio a'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau allweddol. Gyda'i gilydd, maent yn rhoi enghreifftiau o'r modd yr ydym wedi datblygu ein hamcanion statudol. Y dogfennau terfynol hyn yw:

- Ymagwedd at Ddefnyddwyr – Mae hyn yn egluro sut rydym yn defnyddio ein pwerau a'n hadnoddau i ddiogelu defnyddwyr, ac i ymrwymo i adolygu ac addasu'r rhain yn ôl yr angen. Ochr yn ochr â hyn, rydym hefyd wedi cyhoeddi Papur Trafod i ymchwilio i unrhyw fylchau yn ein fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol, neu sut rydym yn ei ddefnyddio – gellid rhoi sylw i hyn drwy gyflwyno Dyletswydd Gofal.
- Ymagwedd at Gystadleuaeth – Mae hyn yn amlinellu sut rydym yn nodi ac yn canfod niwed posibl yn y farchnad, yr adnoddau rydym yn eu defnyddio i'w ddatrys a sut rydym yn mesur ein heffaith.
- Ymagwedd at Awdurdodi – Mae hyn yn egluro sut rydym yn profi a fydd cwmnïau ac unigolion yn cydymffurfio â'n rheoliadau.
- Ymagwedd at Oruchwylio – Mae hyn yn egluro ein dull rhagbrynol, sy'n edrych mwy tua'r dyfodol o ran ein gwaith gyda chwmnïau, gan gymryd camau cyflym ac ar unwaith pan fydd niwed wedi'i nodi.
- Ymagwedd at Orfodi – Mae hyn yn amlinellu sut rydym yn rhoi sylw i niwed drwy ddefnyddio pwerau statudol i ymchwilio, a phan fo'n briodol, yn cymryd camau sifil, troseddol a/neu ddisgyblu mewn achosion o dorri rheolau.
- Ymagwedd i Uniondeb y Farchnad – Yn ein Cynllun Busnes 2018/19, roeddem yn ymrwymo i gyhoeddi dogfen 'Ymagwedd i Uniondeb y Farchnad' er mwyn pennu ein hymagwedd i'n hamcan o uniondeb y farchnad. Rydym wedi penderfynu gohirio'r cyhoeddiad hwn yn sgil Gadael yr UE a'r adnoddau rydym wedi gorfod ei neilltuo ar ei gyfer.

## Ein hegwyddorion a'n swyddogaethau rheoleiddio

Mae gennym nifer o swyddogaethau o dan y Ddeddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol Mae'r rhain yn cynnwys gwneud rheolau, rhoi cyfarwyddyd cyffredinol yn ogystal ag awdurdodi a goruchwylio cwmnïau.

Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn, rydym yn ystyried yr egwyddorion rheoleiddio canlynol er mwyn sicrhau rheoleiddio da:

- effeithlonrwydd ac economi
- cyfranoldeb
- twf cynaliadwy
- cyfrifoldeb y defnyddwyr eu hunain
- cyfrifoldeb uwch reolwyr cwmnïau i gydymffurfio â'r fframwaith rheoleiddiol
- cydnabod y gwahaniaeth yn y math o fusnesau
- didwylledd a datgeliad
- tryloywder

Mae'r egwyddorion hyn yn sail i'n holl waith ac maent i gyd yr un mor bwysig â'i gilydd. Yn unol â gofynion FSMA, rydym yn cynnwys datganiad cydnawsedd yn ein papurau ymgynghori. Mae hyn yn egluro pam rydym yn credu bod ein cynigion yn cyd-fynd â'n dyletswydd i ystyried yr egwyddorion hyn, gan gydnabod y gallai mwy nag un egwyddor gael ei chynnwys mewn achos ac na fydd yr holl egwyddorion bob amser yn berthnasol ym mhob achos.

Er enghraifft, roedd ein Cenhadaeth a'r dogfennau 'Ymagwedd at' terfynol yn tynnu sylw at sut rydym yn gweithio a'n hymagwedd at reoleiddio, yn dangos tryloywder a bod yn agored drwy esbonio'r rhesymeg y tu ôl i'n penderfyniadau.

## Mesur perfformiad

Esboniad o'r Genhadaeth yn y tair haen a ddefnyddiwn i fesur ein perfformiad:

### Haen 1: Effeithlonrwydd prosesau mewnol

Rydym yn defnyddio diffiniad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o werth am arian fel 'y defnydd gorau posibl o adnoddau i gyflawni canlyniad a fwriedir'. Rydym yn gwella'r ffordd rydym yn mesur gwerth am arian yn ein prosesau a'r ffordd rydym yn gweithio. Rydym yn gwybod bod defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon hefyd yn cynnwys sut rydym yn gwneud y defnydd gorau o'r data a'r wybodaeth sydd ar gael i fesur effaith ein camau gweithredu.

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni gwerth am arian pan fyddwn yn mynd i'r afael â niwed a chyflawni ein hamcanion. Mae ein llwyddiant o ran sicrhau gwerth cyhoeddus hefyd yn dibynnu ar reoli risgiau mewnol allweddol. Rydym yn gwneud hyn yn rhannol drwy gael y staff iawn sy'n meddu ar y sgiliau cywir. Rydyn yn egluro sut rydym yn rheoli'r risgiau gweithredol yn y Bennod ar Lywodraethu Corfforaethol.

Mae ein mesurau Safonau Gwasanaeth yn cynnwys cymysgedd o ymrwymiadau gwirfoddol a rhwymedigaethau statudol. Mae'r safonau hyn yn cwmpasu meysydd gan gynnwys ymholiadau ffôn, ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a sut rydym ymateb iddynt, a llythyrau ASau.

### Haen 2: Effaith ein hymyriadau

Rydym yn mesur effaith debygol ein camau gweithredu cyn i ni ymyrryd. Rydym wedi paratoi grŵp o gyhoeddiadau i roi darlun clir o sut rydym yn gwneud hyn. Mae hyn yn cynnwys ein hymagwedd at ddadansoddiad cost a budd, pryd a sut rydym yn defnyddio treialon maes a sut rydym yn amcangyfrif manteision ymyriadau.

Rydym hefyd yn asesu effeithiolrwydd ac effaith ymyriadau yn y gorffennol i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gadarn er mwyn llywio ein penderfyniadau yn y dyfodol. Ym mis Rhagfyr 2018, fe wnaethom gyhoeddi ein Fframwaith Gwerthuso Effaith ar ôl digwyddiad terfynol, i ddangos sut rydym yn asesu'r effaith hon ar ddefnyddwyr cwmnïau a marchnadoedd. Byddwn yn parhau i ddatblygu sut rydym yn mesur effaith ein hymyriadau penodol. Bydd hyn yn ein helpu ni i ddeall a ydym wedi lleihau niwed fel y bwriadwyd ac yn sicrhau ein bod ni'n dysgu gwersi o'n profiad.

### Haen 3: Canlyniadau yn y sectorau yr ydym yn eu rheoleiddio

Rydym yn ystyried canlyniadau mewn sectorau ariannol yn gyffredinol, i nodi sut mae marchnadoedd yn perfformio ac i arwain ein dull gweithredu strategol. Nid yw'r rhain yn darparu gwerthusiad cyflawn o ba mor effeithiol fu ein gwaith, ac nid ydynt yn gosod targedau chwaith. Yn lle hynny, maent yn dweud wrthym am gyfeiriad niwed allweddol ac a yw'n cynyddu neu'n gostwng.

Yn yr adroddiad hwn, mae pob un o'n themâu traws-sector a sector yn cynnwys adran 'Canlyniadau a monitro newid'. Yma, pan fydd data ar gael, byddwn yn defnyddio cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol i ddangos cyfeiriad ein niwed allweddol o gymharu â'r llinell sylfaen o ddangosyddion a sefydlwyd y llynedd. Rydym hefyd yn dechrau adrodd ar ganlyniadau ein gwaith a sut rydym yn bwriadu monitro'r canlyniadau hyn yn y dyfodol.

Rydym yn dal i ddatblygu ein dull gweithredu a byddwn yn parhau i nodi dangosyddion i ddangos canlyniadau yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio a pha mor effeithiol yw ein gwaith. Byddwn yn cyhoeddi'r rhain mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.


## Sgoriau cadarn i'r 'FCA fel rheoleiddiwr effeithiol'

Mae arolwg yr FCA a'r Panel Ymarferwyr yn arolwg ar y cyd o gwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio gan yr FCA. Cynhelir yr arolwg bob blwyddyn, ac mae'n gyfle i gwmnïau roi eu barn ynghylch sut rydym yn rheoleiddio'r diwydiant. Mae'n werthfawr o ran monitro pa argraff sydd gan y diwydiant ohonom ni ac i ba raddau rydym yn bodloni ein hamcanion. Cafodd yr arolwg ei gynnal rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2019. Cwblhaodd cyfanswm o 2,888 o gwmnïau yr arolwg, gyda chyfradd ymateb o 29%.


Roedd yr arolwg yn gofyn am eu safbwyntiau ynghylch yr FCA, 'effeithiolrwydd y rheoleiddiwr' a 'boddhad â'r berthynas reoleiddio'.

Yn yr arolwg diweddaraf, roedd y sgôr gyffredinol gymedrig ar gyfer effeithiolrwydd yr FCA (ffigur 6.1) wedi cynyddu o 7.1 allan o 10 i 7.2. Mae'r sgôr gyffredinol gymedrig sy'n sgorio boddhad â'r berthynas â'r FCA (Ffigur 6.2) wedi aros yr un fath, sef 7.6 allan o 10.

***Ffigur 6.1: Sgoriau yn nodi pa mor effeithiol y bu'r FCA wrth reoleiddio'r diwydiant gwasanaethau ariannol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (allan o 10)***




***Ffigur 6.2: Sgoriau yn nodi boddhad gyda'r berthynas â'r FCA (allan o 10)***




## Barn y rhanddeiliaid

Bob blwyddyn, rydym yn comisiynu ymchwil annibynnol drwy BritainThinks. Mae'n gofyn i ystod eang o randdeiliaid – gan gynnwys cyrff masnach, sefydliadau defnyddwyr, seneddwyr a'r cyfryngau – am eu barn amdanom ni.

Mae cyrff masnach a chynrychioliadol yn parhau i deimlo'n gadarnhaol tuag at yr FCA at ei gilydd. Mae argraffiadau o ymgysylltu agored, arbenigedd cynyddol ac arweinyddiaeth effeithiol yn allweddol ar gyfer yr argraffiadau hyn. Y prif beth y mae'r grŵp hwn yn gofyn amdano yw cyfeirio a theilwra cyfathrebu yn well, a chael gwell cysondeb rhwng timau a phobl yn yr FCA.

Mae'n ymddangos bod unrhyw bryderon a oedd gan gyrff defnyddwyr ynghylch unrhyw 'feddalu' posibl yn ein hymagwedd at ddefnyddwyr wedi cael eu lleddfu, ac maent yn dal i fwynhau ymgysylltiad rhagorol â ni. Ond, mae yna awydd i'n gweld ni'n bod yn fwy uchelgeisiol yn mynd i'r afael â materion sy'n peri anfantais i ddefnyddwyr, ac i ddatblygu ein proffil ar gyfer defnyddwyr.

***Ffigur 6.3: Pwysigrwydd tybiedig pob un o amcanion statudol yr FCA***



# 7 Gweithio gyda'n partneriaid

Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i gefnogi fframwaith y DU ar gyfer rheoleiddio ariannol. Mae'r cydweithio eang hwn yn cynnwys rheoleiddwyr byd-eang a chyrff a phartneriaid domestig, mewn meysydd fel cystadleuaeth, diogelu defnyddwyr a diogelwch a chadernid marchnadoedd ariannol.

## Y Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR)

Y PSR yw'r rheoleiddiwr economaidd ar gyfer systemau talu yn y DU. Mae'n is-gwmni i'r FCA ond mae'n gweithredu'n annibynnol. Mae ganddo ei amcanion statudol, ei fwrdd a'r strwythur rheoli ei hun. Ei bwrpas yw sicrhau bod systemau talu yn y DU yn gweithio'n dda i'r bobl a'r sefydliadau sy'n eu defnyddio. Caiff hyn ei gefnogi gan ei amcanion o hybu cystadleuaeth, arloesi a buddiannau defnyddwyr y gwasanaeth.

Yr FCA a'r PSR yw'r awdurdodau cymwys ar gyfer monitro a gorfodi gwahanol rannau o Reoliadau Gwasanaethau Talu 2017. Mae'r FCA a'r PSR yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiad â Rheoliad 105 (mynediad at wasanaethau cyfrif talu). Rydym yn gweithio'n agos ar fonitro cydymffurfiad â gofynion y rheoliadau hyn. Rydym hefyd yn cydlynu nifer o wahanol feysydd fel mynediad at arian parod a sgamiau taliadau gwthio awdurdodedig, ac yn sicrhau ein bod ni'n cymryd camau gweithredu cydlynus pan fo angen.

Mae rhagor o wybodaeth am weithgarwch y PSR dros y flwyddyn ddiwethaf ar gael yn ei Adroddiad Blynyddol ei hun.

Ers mis Mawrth 2015 mae gennym Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Banc Lloegr, yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA) a'r Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR). Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei adolygu bob blwyddyn, ac mae'n llywodraethu sut rydym yn cydweithio yng nghyswllt ein systemau talu yn y DU. Yn ôl ein hadolygiad diweddaraf o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, mae'n dal i weithio'n dda.

## Yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA)

Mae ein Prif Weithredwr yn aelod o'r Pwyllgor Rheoleiddio Darbodus ac mae Prif Swyddog Gweithredol y PRA yn aelod o fwrdd yr FCA.

Mae gennym Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â'r PRA. Mae'n cynnwys trefniadau o ran sut rydym yn ymgymryd â'n cyfrifoldebau a sut rydym yn mesur ein perfformiad o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, drwy lunio adroddiadau chwarterol manwl. Mae hefyd yn tanlinellu ein nod o weithio mewn modd annibynnol ond cydlynol.

Mae'r PRA yn nodi bod rhai cwmnïau'n bwysig i sefydlogrwydd system ariannol y DU, ac mae'n ofyniad statudol ein bod yn cynnal cyfarfod blynyddol ag archwilwyr allanol y cwmnïau hyn. Diben y cyfarfodydd hyn yw cael deall materion y cwmnïau hyn yn well, yn ogystal â'r themâu a'r tueddiadau sy'n codi o waith yr archwilydd allanol.

Gall y PRA roi feto ar ein camau gweithredu os yw'n credu eu bod yn bygwth sefydlogrwydd ariannol neu'n achosi cwmni sydd wedi'i awdurdodi gan y PRA i fethu mewn modd a fyddai'n cael effaith niweidiol ar sefydlogrwydd ariannol. Nid yw wedi defnyddio'r pŵer hwn eleni.

Eleni, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r PRA ar adael yr UE, clustnodi, cadernid gweithredol, rheoli risgiau ariannol newid yn yr hinsawdd a symud oddi wrth y Gyfradd Gwerthu Rhwng Banciau Llundain (LIBOR).

Rydym wedi cydlynu'n effeithiol â'r PRA ar faterion polisi diweddar fel ymestyn y Gyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr i bob cwmni sy'n cael ei reoleiddio, MiFID II a'r Gyfarwyddeb Dosbarthu Yswiriant ac wrth gydlynu ein hymgysylltiad â chyrff rhyngwladol ac Awdurdodau Goruchwylio Ewrop yn barhaus. Rydym hefyd wedi cydweithio'n agos i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau penodol drwy Fframwaith Ymateb yr Awdurdodau. Mae hyn yn sicrhau ymateb cydlynol gan yr FCA, Banc Lloegr a'r Trysorlys i unrhyw ddigwyddiad sy'n achosi tarfu mawr i'r sector ariannol a/neu'r awdurdodau.

Mae'r FCA a'r PRA yn parhau i adolygu systemau TG a rennir yr FSA er mwyn sicrhau bod gan y ddau sefydliad systemau sy'n diwallu eu hanghenion unigol gan gefnogi dull cydweithredol o rannu gwybodaeth ar yr un pryd.

## Y Pwyllgor Polisi Ariannol (FPC)

Yr FPC yw'r prif gorff yn y DU ar gyfer canfod, monitro a lliniaru risgiau i sefydlogrwydd ariannol. Mae ein Prif Weithredwr yn aelod o'r pwyllgor ac rydym yn cydweithio'n agos â Banc Lloegr mewn meysydd sydd o ddiddordeb i'r FPC. Yn 2018/19, roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar Adael yr UE, cronfeydd yn buddsoddi mewn asedau caeth, trosoledd mewn sefydliadau heb fod yn fanciau, FinTech a risgiau seiber.

## Pwyllgor Goruchwylio

Mae gan Fwrdd yr FCA sawl pwyllgor y mae'n dirprwyo rhai swyddogaeth/pwerau iddynt. Un o'r rhain yw'r Pwyllgor Goruchwylio. Mae'n gyfrifol am ddarparu cefnogaeth a chyngor i'r Bwrdd ar ei berthynas â Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol a'r Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol. O dro i dro, gall y Pwyllgor ymestyn ei gwmpas i gynnal aseiniadau eraill fel y mae'r Bwrdd yn gorchymyn yn benodol. Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2018 roedd yn gyfrifol am roi cefnogaeth a chyngor i'r Bwrdd ar ei berthynas â'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol nes cafodd y Corff Canllawiau Ariannol Sengl ei sefydlu.

## Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

Gall defnyddwyr sy'n anfodlon ag ymateb cwmnïau rheoledig i'w cwynion gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Rydym wedi ymestyn cwmpas yr Ombwdsmon yn ddiweddar er mwyn i ragor o fusnesau bach a chanolig gael mynediad at y gwasanaeth hefyd.

Mae'r newid yn golygu bod busnesau bach a chanolig sydd â throsiant o dan £6.5m a llai na 50 o weithwyr, neu fantolen flynyddol o dan £5m bellach yn gallu cyfeirio cwynion heb eu datrys at yr Ombwdsmon. Mae tua 210,000 o fusnesau bach a chanolig ychwanegol yn y DU yn gymwys i gyflwyno cwynion erbyn hyn. Rydym wedi cynyddu'r terfyn dyfarnu ar gyfer gweithredoedd neu esgeulustod a gaiff eu cyfeirio o 1 Ebrill ymlaen o £150 000 i £160 000. Rydym wedi cynyddu'r terfyn dyfarnu ar gyfer gweithredoedd o 1 Ebrill 2019 ymlaen i £350 000.

## Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS)

Mae'r FSCS yn gwarchod cwsmeriaid pan fydd ganddynt gynnyrch sy'n cael ei reoleiddio â chwmni a reoleiddir. Y llynedd, fe wnaethom gyflwyno'r rheolau i ymestyn cwmpas yr FSCS, i gynyddu'r diogelwch y mae'n ei ddarparu i ddefnyddwyr ac i ddiwygio'r ffordd y caiff y gost ei dyrannu i sicrhau bod y cynllun yn cael ei ariannu yn deg ac yn gynaliadwy.

## Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MAPS)

Ar 1 Ionawr 2019, daeth y Corff Canllawiau Ariannol Sengl â thri darparwr arweiniad ariannol at ei gilydd i greu un sefydliad. Dyma'r tri darparwr: y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, Pensionwise a'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau. Mae'r sefydliad newydd, sy'n dwyn yr enw y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MAPS) ers 6 Ebrill 2019, yn gorff hyd braich i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Mae'r corff newydd yn dod â gwasanaeth darparu cyngor ynghylch dyledion, arweiniad ariannol a chanllawiau ar bensiynau at ei gilydd am y tro cyntaf erioed. Nid yw'r FCA yn goruchwylio cyllideb MAPS, ond rydym yn gyfrifol am gasglu arian er mwyn i MAPS gyflawni ei swyddogaethau. Rydym yn gweithio gyda MAPS, DWP a'r Trysorlys i gyflawni ein hamcan diogelu'r defnyddwyr.

## Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)

Mae'r CMA yn gweithio i hybu cystadleuaeth er budd y defnyddwyr, yn y DU a thu allan i'r DU. Ei fwriad yw sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda i ddefnyddwyr, busnesau a'r economi. Mae gan y CMA bwerau cyfraith cystadleuaeth sy'n berthnasol ar draws yr holl economi. Ers 1 Ebrill 2015, rydym wedi cael pwerau cystadleuaeth cydamserol mewn perthynas â darparu gwasanaethau ariannol. O 1 Ebrill 2019 ymlaen, rydym wedi cael pwerau cystadleuaeth cydamserol mewn perthynas â darparu gwasanaethau ariannol ym Mhrydain Fawr. Mae hyn yn golygu bod gennym y pŵer i orfodi gwaharddiadau yn erbyn torri cyfraith cystadleuaeth, pwerau ychwanegol i gynnal astudiaethau o'r farchnad ynglŷn â sut mae cystadleuaeth yn gweithio mewn marchnadoedd, a phwerau i gyfeirio marchnadoedd at y CMA i gael archwiliad manwl.

Eleni, rydym wedi parhau i gynorthwyo'r CMA gyda'i ymchwil marchnad i ymgynghorwyr buddsoddi a gwasanaethau rheoli ymddiriedol. Lansiwyd ymchwiliad i'r farchnad yn 2017 ar ôl i ni gyfeirio mater i'r CMA. Hefyd, rydym wedi gweithio'n agos â'r CMA ar weithredu Bancio Agored, sy'n deillio o'r ymchwiliad i'r farchnad Bancio Adwerthu, ac ar ymateb y CMA i uwch-gŵyn gan Gyngor ar Bopeth ynghylch pryderon am 'gosb ffyddlondeb' y mae cwsmeriaid hirsefydlog yn ei hwynebu.

Fe wnaethom ddarparu arbenigedd o'r diwydiant i'r CMA ar gyfer y ddau ymchwiliad i amheuon o drefniadau gwrth-gystadleuol mewn gwasanaethau ariannol. Hefyd, fe wnaethom ddarparu gwybodaeth gan y sector a gwybodaeth reoleiddiol i helpu'r CMA gyda'r gwaith o adolygu achosion o uno sy'n cynnwys gwasanaethau ariannol.

## Y Rheolydd Pensiynau (TRP)

Mae'r TPR yn gwarchod pensiynau gwaith y DU, yn sicrhau bod cyflogwyr, ymddiriedolwyr ac arbenigwyr pensiynau'n gallu cyflawni eu dyletswyddau ar gyfer aelodau'r cynllun. Ym mis Hydref 2018, fe wnaethom gyhoeddi ein strategaeth reoleiddio ar y cyd, yn amlinellu sut rydym am gydweithio i roi sylw i newidiadau yn y sector pensiynau ac incwm ymddeoliad. Bydd ein strategaeth ar y cyd yn helpu aelodau cynlluniau pensiwn a defnyddwyr i wneud y mwyaf o'u cynilion, ac yn sicrhau bod eu harian yn cael ei reoli er mwyn bodloni eu hanghenion.

## Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

Eleni, rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r ICO. Fe wnaethom ddiweddaru ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y cyd ym mis Chwefror. Mae'r diweddariad hwn yn adlewyrchu sut rydym yn cydlynu gwaith ar draws meysydd sydd o fudd i bawb yn well, gan gynnwys datblygu polisïau a chanllawiau. Mae'r trefniant yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth i gefnogi ein swyddogaethau goruchwylio a gorfodi. Mae hefyd yn adlewyrchu ein gwaith cydlynu cynyddol ar

draws nifer o feysydd ac mae'n darparu fframwaith i ni ymgysylltu â'r ICO, gan gynnwys ar arloesi, materion seiber a data mawr.

## Partneriaid rhyngwladol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein cyfraniad mewn cyrff yn Ewrop a ledled y byd a'u gweithgareddau wedi parhau i fod yn agwedd anhepgor ar ein gwaith. Ar ba bynnag delerau fydd y DU yn gadael yr UE, bydd y perthnasoedd rhwng rheoleiddwyr a chyrff yn y DU ac yn rhyngwladol, a'r gwaith rydym yn ei wneud â nhw, yn parhau i fod yn rhan hanfodol o sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda yn y DU, bod y cydweithio arolygol yn parhau i fod yn effeithiol a bod y safonau rheoleiddio ar draws y byd yn briodol ac yn gyson â'n hamcanion statudol.

Dyma'r sefydliadau rhyngwladol rydym yn parhau i ymgysylltu'n agos â nhw:

- Sefydliad Rhyngwladol y Comisiwn Gwarantau
- Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol
- Cymdeithas Ryngwladol y Goruchwylwyr Yswiriant
- Y Tasglu Gweithredu Ariannol
- Sefydliad ar gyfer Cydweithredu a Datblygu Economaidd
- Y Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Diogelu Defnyddwyr Ariannol
- Awdurdod Bancio Ewrop
- Awdurdod Gwarantau a Marchnadoedd Ewropeaidd
- Awdurdod Pensiynau Galwedigaethol ac Yswiriant Ewrop
- Bwrdd Risg Systemig Ewrop

Hefyd, rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda rheoleiddwyr allweddol yn Ewrop a'r byd ar sail ddwyochrog er budd hyrwyddo cydweithio a dealltwriaeth effeithiol.

Adroddir ar fentrau rhyngwladol penodol o bwys yn ein blaenoriaethau sector.

## Paneli annibynnol

Mae'n ofynnol ein bod yn ymgynghori ynghylch effaith ein gwaith â'n paneli statudol. Mae'r paneli hyn yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr, marchnadoedd a chwmnïau rheoledig mawr a llai. Rydym hefyd yn ymgynghori â Phanel Ymgynghori'r Awdurdod Rhestru ar ein gwaith yn y prif farchnadoedd.

Mae'r paneli hyn i gyd yn chwarae rhan bwysig drwy ein cynghori a'n herio ni. Maent yn dod â chyfoeth o brofiad, cefnogaeth ac arbenigedd wrth nodi risgiau i'r farchnad, i gwmnïau ac i ddefnyddwyr. Byddwn yn ystyried eu safbwyntiau pan fyddwn yn datblygu ein polisïau a phan fyddwn yn penderfynu ar ymyriadau rheoleiddio eraill ac yn eu rhoi ar waith. Mae pob un o'r paneli statudol yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ei hun ar ei wefan.

Y Paneli yw:

- Y Panel Defnyddwyr y Gwasanaethau Ariannol
- Panel Ymarferwyr yr FCA
- Panel Ymarferwyr Busnesau Llai yr FCA
- Panel Ymarferwyr Marchnadoedd yr FCA
- Panel Ymgynghori'r Awdurdod Rhestru

## Sefydliadau defnyddwyr

Rydym yn chwilio am safbwyntiau gan ddefnyddwyr drwy amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys cyrff defnyddwyr, ein Canolfan Gyswllt a Phanel Defnyddwyr y Gwasanaethau Ariannol. Er mwyn ein galluogi ni i gyflawni ein nod yng nghyswllt diogelu defnyddwyr, rydym yn cynnal ymchwil helaeth i wella ein gwybodaeth am ddefnyddwyr a'u hanghenion. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos ag ystod o sefydliadau defnyddwyr ledled y DU i sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio yn adlewyrchu profiadau defnyddwyr go iawn. Mae ein rhwydwaith o sefydliadau defnyddwyr yn cynnwys:

- Age UK
- AdviceUK
- Alzheimer's Society
- Cyngor ar Bopeth (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon)
- Cristnogion yn erbyn Tlodi (CAP)
- Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon
- Money Advice Scotland
- Ymddiriedolaeth y Cyngor Ariannol
- Sefydliad Polisi Arian a Iechyd Meddwl
- MoneySavingExpert
- Cymdeithas Genedlaethol Ymgynghorwyr Arian Myfyrwyr (NASMA)
- Scope
- Shelter
- StepChange
- The Money Charity
- Toynbee Hall
- Which?

Rydym hefyd yn gweithio gyda mwy a mwy o grwpiau amrywiol eraill, drwy ein rhaglen o ymgysylltu â gwledydd a rhanbarthau'r DU. Rydym hefyd yn cynnal ac yn mynd i fforymau galluedd ariannol ledled y DU i gael darlun gwell o broblemau defnyddwyr ar lawr gwlad.

## Gweithio gyda'r gymuned

Mae ein rhaglen ymgysylltu â'r gymuned yn annog pobl i wirfoddoli gydag elusen gofrestredig neu grŵp cymunedol. Rydym yn cefnogi ac yn annog gwirfoddoli drwy neilltuo amser o'r gwaith gyda thâl i'n gweithwyr gael cyfle i fod yn weithgar yn eu cymunedau. Y llynedd, fe wnaeth 1061 o bobl yn ein swyddfeydd yng Nghaeredin ac yn Llundain wirfoddoli cyfanswm o 10,376 o oriau. Mae hyn yn cynrychioli 28.98% o'r gweithwyr, o gymharu â'n targed o 30%.

Ym mis Medi 2018, fe wnaethom lansio Inspiring Futures, ein rhaglen flaenllaw ar gyfer cyfrifoldeb corfforaethol gyda'r nod o ddatblygu sgiliau, hyder a gwytnwch ymhlith pobl ifanc. Mae'n cael ei dreialu â 120 o fyfyrwyr ar draws dwy ysgol yn Newham, Sarah Bonnell a Rokeby. Mae'r rhaglen yn cyd-fynd â'n hagenda symudedd cymdeithasol.

**Mae manylion ar gael yn ein Hadroddiad Amrywiaeth.**

## Rhoddion elusennol

Cefnogodd ein Pwyllgor Elusennau Richard House Children's Hospice ac Alzheimer's Society drwy gydol 2018. Mae'r holl roddion wedi dod gan staff a'u hymdrechion i godi arian. Ac eithrio'r cymorth rhodd, fe godwyd:

- Alzheimer's Scotland – £208.00
- Cymdeithas Alzheimer's – £10,021.54
- Friends of Braidburn School – £313.42
- Richard House Children's Hospice – £6,777.98
- Achub y Plant – £1,019.36

Drwy Payroll Giving yn 2018, rhoddodd ein cyflogeion £161,361.46 i wahanol elusennau. Oherwydd ein bod wedi symud swyddfa, roeddem yn gallu cyfrannu nwyddau, sef dodrefn, i Big Bright Future a oedd gyfwerth â £107,120. Cyfrannodd Big Bright Future ein dodrefn yn foesegol i'w partneriaid elusennol ledled y byd.

Andrew Bailey
Prif Weithredwr